



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 29 Tachwedd 2005
Tuesday, 29 November 2005**

Cynnwys Contents

Ethol i'r Pwyllgor Busnes Election to the Business Committee.....	3
Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	3
Datganiad Busnes Business Statement.....	27
Datganiad am Effeithiau Cryptosporidiosis yng Nghyflenwad Dŵr y Gogledd-orllewin Statement on the Risk from Cryptosporidiosis in the Water Supply in North-west Wales.....	30
Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders.....	38
Cymeradwyo Gorchmyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005 Approval of the Civil Partnership Act 2004 (Consequential Amendments to Subordinate Legislation) (Wales) Order 2005.....	40
Cymeradwyo Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 Approval of the Food Hygiene (Wales) Regulations 2005	44
Cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion Approval of the Code of Practice for using Plant Protection Products	49
Cymeradwyo Rheoliadau Paleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2005 Approval of the Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) Regulations 2005	51
Cymeradwyo Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (Diwygio) 2005 Approval of the Voluntary Adoption Agencies (Amendment) Regulations 2005	52
Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Diwydiant Llaeth Cymru Minority Party Debate (Plaid Cymru): The Welsh Dairy Industry	55
Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Gweithgor Gofal Plant The Welsh Assembly Government's Response to the Childcare Working Group.....	81

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

**Ethol i'r Pwyllgor Busnes
Election to the Business Committee**

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiau fod

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhifau 8.4 a 13.2, yn ethol Lisa Francis (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Busnes yn lle David Melding (Ceidwadwyr). (NDM2704)

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders Nos. 8.4 and 13.2, elects Lisa Francis (Conservative) to its Business Committee in place of David Melding (Conservative). (NDM2704)

*Cynnig (NDM2704): O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2704): For 29, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

**Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister**

**Tlodi yng Nghymru
Poverty in Wales**

Q1 Denise Idris Jones: Will the First Minister make a statement about tackling poverty in Wales? OAQ1032(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): We would all agree that work is the best route out of poverty for almost everyone in Wales. There is reason to be proud of the fact that there are 126,000 more people in work now than when the Assembly came into existence six and a half years ago.

Denise Idris Jones: Would you agree that tackling poverty effectively means having the best possible information available about patterns of deprivation, in order to best target programmes such as Communities First? Would you also agree that effective targeting combined with substantive levels of investment, such as the £650,000 allocated for Communities First projects in Conwy, demonstrate how Labour in the Assembly is working with deprived communities to tackle poverty across Wales, as well as in my constituency?

The First Minister: I would agree that you cannot tackle poverty if you do not know where it is. Getting accurate information is essential. That is why we have revised and updated the index of multiple deprivation. I agree with what you say about Conwy, although that area is not alone. One hundred and thirty seven Communities First partnerships have now been set up to enable communities to lift themselves out of poverty by their own bootstraps.

Mick Bates: I am certain that the £10 million for tackling fuel poverty, announced after mature discussions with Assembly parties, is welcome. Do you agree that this style of consensus politics is best for the people of Wales and for the future of the Assembly?

The First Minister: It is fair to say that there has been an excellent spirit of give and take among the four party leaders and Sue Essex, the Finance Minister, during the few weeks since the Assembly resolution on the draft budget. The initiative to provide an additional

C1 Denise Idris Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ1032(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Byddem oll yn cytuno mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi i bawb bron yng Nghymru. Gallwn ymfalchïo yn y ffaith bod dros 126,000 yn fwy o bobl mewn gwaith heddiw na phan ddaeth y Cynulliad i fodolaeth chwe mlynedd a hanner yn ôl.

Denise Idris Jones: A fydddech yn cytuno bod mynd i'r afael â thlodi'n effeithiol yn golygu casglu'r wybodaeth orau posibl sydd ar gael am batrymau amddifadedd, er mwyn inni allu targedu rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf yn y ffordd orau? A fydddech hefyd yn cytuno bod targedu effeithiol ynghyd â lefelau sylweddol o fuddsoddiad, fel y £650,000 a ddyrannwyd i brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghonwy, yn dangos sut y mae Llafur yn y Cynulliad yn gweithio gyda chymunedau amddifad i fynd i'r afael â thlodi ledled Cymru, yn ogystal ag yn fy etholaeth i?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn cytuno na allwch fynd i'r afael â thlodi oni wyddoch ym mhle y mae'r tlodi. Mae casglu gwybodaeth gywir yn hollbwysig. Dyna pam yr ydym wedi diwygio a diweddarau'r mynegai amddifadedd lluosog. Yr wyf yn cytuno â'r hyn a ddywedasoch am Gonwy, er nad yw'r ardal honno'n unigryw yn hyn o beth. Mae 137 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf bellach wedi cael eu sefydlu er mwyn galluogi cymunedau i godi eu hun o dlodi gerfydd eu careiau esgidiau eu hun.

Mick Bates: Yr wyf yn sicr bod croeso i'r £10 miliwn i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gyhoeddwyd wedi trafodaethau aeddfed gyda phleidiau'r Cynulliad. A ydych yn cytuno mai'r math hwn o wleidyddiaeth consensws yw'r gorau ar gyfer pobl Cymru a dyfodol y Cynulliad?

Y Prif Weinidog: Mae'n deg dweud bod ysbryd ardderchog o gyfaddawdu wedi bod ymysg arweinwyr y pedair plaid a Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, yn ystod yr wythnosau ers y cynnig a basiwyd gan y Cynulliad ar y gyllideb ddrafft. Bydd y fenter i ddarparu £10

£10 million to pretty well double the allocation to combat fuel poverty among pensioners over the next two years will have a long-term benefit. It will not help this winter, but it will help in future winters. That is a major initiative, and will be welcomed by pensioners and those who campaign to reduce fuel poverty among pensioners.

miliwn ychwanegol i ddyblu'r dyraniad i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith pensïynwyr dros y ddwy flynedd nesaf, i bob pwrpas, yn dwyn budd hirdymor. Ni fydd o gymorth y gaeaf hwn, ond bydd o gymorth yn ystod gaeafau i ddod. Mae honno'n fenter bwysig, a chaiff ei chroesawu gan bensïynwyr a'r rhai sydd yn ymgyrchu i leihau tlodi tanwydd ymhlith pensïynwyr.

Polisïau Trafnidiaeth Transport Policies

Q2 Janet Davies: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's transport policies?
OAO1033(FM)

C2 Janet Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch polisïau trafndiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru?
OAO1033(FM)

The First Minister: Andrew Davies, the Minister for Economic Development and Transport, outlined his £8 billion, 15-year transport programme last December. That will increase the speed of delivery on transport of goods and people, support our sustainability agenda, and promote the modal shift that we all want to see away from roads and onto rail.

Y Prif Weinidog: Fis Rhagfyr diwethaf, amlinellodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ei raglen drafnidiaeth 15 mlynedd gwerth £8 biliwn. Bydd hon yn cyflymu'r gwaith o ran cludo nwyddau a phobl, yn cefnogi ein hagenda cynaliadwyedd, ac yn hyrwyddo'r newid o ran y modd y teithir yr ydym oll yn awyddus i'w weld oddi ar y ffyrdd i'r rheilffyrdd.

Janet Davies: In a recent Economic Development and Transport Committee meeting, I was told that Bridgend County Borough Council has not been able to develop pilot schemes for concessionary bus fares for 16 to 19-year-olds to any extent. I have a letter from the Bridgend council leader, dated 23 November, telling me that the council is in discussions with the Assembly Government on this issue. The minutes of Bridgend council's meeting on 14 June note that it is awaiting further instructions from the Assembly Government. According to that, the ball is in your court. When will your Government issue further instructions to allow this scheme, which will benefit 16 to 19-year-olds in my region, to go ahead?

Janet Davies: Mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, dywedwyd wrthyf nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gallu datblygu cynlluniau peilot ar gyfer cynnig prisiau tocynnau bws gostyngol i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed o gwbl. Mae gennyf lythyr gan arweinydd cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, dyddiedig 23 Tachwedd, yn dweud wrthyf fod y cyngor yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Cynulliad ynghylch hyn. Yn ôl cofnodion cyfarfod cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ar 14 Mehefin gwelir ei fod yn disgwyl am ragor o gyfarwyddiadau gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ôl hynny, chi sydd i gymryd y cam nesaf. Pryd y bydd eich Llywodraeth yn cyhoeddi rhagor o gyfarwyddiadau a fydd yn galluogi'r cynllun hwn, a fydd o fudd i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed yn fy rhanbarth, i fynd yn ei flaen?

The First Minister: I am not in the habit of reading the minutes of Bridgend council meetings, so you have an advantage over me—although I do not know if that is an

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn arfer darllen cofnodion cyfarfodydd cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, felly mae gennyf fantais—er na wn ai mantais ydyw; cewch ddyfalu ynghylch

advantage; you can speculate on that. The important point is that we welcome offers of participation in the pilot scheme. I am aware of the pilot scheme in Wrexham, which has been welcomed. As far as I am aware, we have been asking local authorities to come to us with feasible ideas for piloting this scheme, because we cannot pilot it on the basis of one scheme. We are only aware of the Wrexham scheme as a viable scheme at the moment.

Jeff Cuthbert: Yesterday, at Caerphilly railway station, I attended the naming of the new Arriva train, which is called Caerphilly Castle. There is tremendous investment going into the Rhymney valley line to provide a train service between Bargoed and Cardiff every 15 minutes. Do you agree that, although work still needs to be done on park-and-ride facilities, that level of investment is crucial and must be sustained if we are to encourage people to leave their cars at home and to travel to work or to do their shopping via the railways and other forms of public transport?

The First Minister: I agree, and I think that we would all agree that the key to any viable transport scheme is persuading more people to leave their cars at home, if they own a car, or to use it for park-and-ride purposes rather than making the journey into congested cities such as Cardiff in their cars. In order to do that, you must have good park-and-ride facilities and trains of adequate length. People will not get on trains that are horrendously overcrowded, and, sometimes, people are unable to get on the train to Cardiff at the last few stations on the route into the city. Therefore, expanding capacity is essential, and we are making investment in that expansion of capacity.

Lisa Francis: I was concerned to hear recently that Arriva Trains Wales has reported that it may cut 15 jobs from its catering staff in Aberystwyth, with the operation moving to Shrewsbury. Given that Arriva Trains Wales receives a subsidy of £120 million a year as part of its franchise agreement, do you not think that the company should aim to protect jobs based in Wales? Will you give us an assurance that you will look into this matter?

hynny. Y pwynt pwysig yw ein bod yn croesawu cynigion i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Yr wyf yn ymwybodol o'r cynllun peilot yn Wrecsam, sydd wedi cael ei groesawu. Hyd y gwn, yr ydym wedi bod yn gofyn i awdurdodau lleol ddod atom gyda syniadau ymarferol ar gyfer treialu'r cynllun hwn, gan na allwn ei dreialu ar sail un cynllun. Dim ond cynllun Wrecsam y gwyddom amdano fel cynllun ymarferol ar hyn o bryd.

Jeff Cuthbert: Ddoe, yng ngorsaf rheilffordd Caerffili, yr oeddwn yn bresennol yn seremoni enwi trêen newydd Arriva, a elwir yn *Caerphilly Castle*. Mae cryn fuddsoddi'n digwydd yn lein cwm Rhymni er mwyn darparu gwasanaeth trêen rhwng Bargoed a Chaerdydd bob 15 munud. A ydych yn cytuno, er bod angen rhagor o waith o hyd ar y cyfleusterau parcio a theithio, fod y lefel honno o fuddsoddi'n hanfodol a bod yn rhaid ei chynnal os ydym am annog pobl i adael eu ceir gartref a theithio i'r gwaith neu i siopa drwy ddefnyddio'r rheilffyrdd a mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno, a chredaf y byddem oll yn cytuno mai'r hyn sydd yn hollbwysig ar gyfer unrhyw gynllun trafndiaeth ymarferol yw dwyn perswâd ar ragor o bobl i adael eu ceir gartref, os oes ganddynt gar, neu ei ddefnyddio at ddibenion parcio a theithio yn hytrach na dod yn eu ceir i ddinasoedd lle y ceir tagfeydd traffig fel Caerdydd. Er mwyn cyflawni hynny, rhaid i chi gael cyfleusterau parcio a theithio da a threnau o hyd digonol. Ni wnaiff pobl ddefnyddio trenau gorlawn, ac, ambell waith, ni all pobl fynd ar y trêen i Gaerdydd yn y gorsafedd olaf cyn cyrraedd y ddinas. Felly, mae cynyddu'r capasiti yn hollbwysig, ac yr ydym yn buddsoddi yn y cynnydd hwnnw.

Lisa Francis: Yr oedd yn peri pryder imi glywed yn ddiweddar fod Trenau Arriva Cymru wedi dweud efallai y bydd yn cael gwared ar 15 o swyddi o'i staff arlwygo yn Aberystwyth, gan fod y gwaith yn symud i'r Amwythig. O gofio bod Trenau Arriva Cymru yn derbyn cymhorthdal gwerth £120 miliwn y flwyddyn fel rhan o'i gytundeb masnachfrait, onid ydych yn meddwl y dylai'r cwmni geisio diogelu'r swyddi a leolir yng Nghymru? A wnewch ein sicrhau y

byddwch yn edrych ar y mater hwn?

The First Minister: I give you my assurance that if you write to me with the details, I will look into the matter, and I will get Andrew Davies to write to you.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn eich sicrhau os ysgrifennwch ataf gyda'r manylion, yr edrychaf ar y mater, a gofynnaf i Andrew Davies ysgrifennu atoch.

To be clear, it is true that we have a long-term agreement with Arriva, over 15 years, I think, as the new franchisee. It is difficult to get the right balance between having a long-term franchise and allowing the company the operational freedom to get on with the job, without the Assembly Government micromanaging what it does on a daily basis. However, we will look into this matter, as we would like Arriva to be showing 100 per cent commitment to Wales, as it is the franchisee and is in receipt of a lot of money from the Assembly budget.

Er mwyn inni fod yn glir, mae'n wir bod gennym gytundeb hirdymor gydag Arriva, credaf ei fod dros 15 mlynedd, fel deilydd newydd y fasnachfrait. Mae'n anodd cael y cydbwysedd priodol rhwng cael masnachfrait hirdymor a rhoi rhyddid gweithredol i'r cwmni fwrw ymlaen â'i waith, heb i Lywodraeth y Cynulliad ficro-reoli'r hyn a wna o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, edrychwn ar y mater hwn, gan ein bod yn awyddus i weld Arriva'n ymrwymo 100 y cant i Gymru, gan mai ganddo ef y mae'r fasnachfrait a'i fod yn derbyn llawer iawn o arian o gyllideb y Cynulliad.

Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Canolbarth a'r Gorllewin Public Services in Mid and West Wales

Q3 Helen Mary Jones: Will the First Minister make a statement on the delivery of public services in mid and west Wales? OAQ1034(FM)

C3 Helen Mary Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn y canolbarth a'r gorllewin? OAQ1034(FM)

The First Minister: We have set out our vision for high-quality, responsive public services throughout Wales, including mid and west Wales, in 'Making the Connections', published in June 2005, and have supported the delivery of those services by providing £757 million in revenue support grant and non-domestic rates to mid and west Wales local authorities in the budget for 2006-07.

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ymatebol o ansawdd da ledled Cymru, gan gynnwys y canolbarth a'r gorllewin, yn 'Creu'r Cysylltiadau', a gyhoeddwyd ym Mehefin 2005, ac yr ydym wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r gwasanaethau hynny drwy ddarparu grant cynnal refeniw gwerth £757 miliwn ac ardrethi annomestig i awdurdodau lleol y canolbarth a'r gorllewin yn y gyllideb ar gyfer 2006-07.

Helen Mary Jones: I am sure that you will acknowledge that palliative care services are an important part of public health services in mid and west Wales. Will you give a commitment to ensuring that these services will be adequately funded after the underspend on the original special grant runs out this year, whether that be through a direct grant or through the local health boards?

Helen Mary Jones: Yr wyf yn siŵr y cydnabyddwch fod gwasanaethau gofal lliniarol yn rhan bwysig o wasanaethau iechyd y cyhoedd yn y canolbarth a'r gorllewin. A wnewch ymrwymo i sicrhau y bydd y gwasanaethau hyn yn derbyn digon o gyllid ar ôl i'r tanwariant ar y grant arbennig gwreiddiol ddod i ben eleni, boed hynny drwy grant uniongyrchol neu drwy'r byrddau iechyd lleol?

The First Minister: If there is an

Y Prif Weinidog: Os ceir tanwariant, bydd

underspend, I will have to discuss rolling it over with Brian Gibbons. You will be aware, from previous answers that I have given to you and to many Members, that it is not for me to make spending commitments in answer to oral questions in Plenary. However, in light of your question, I undertake to look into the matter with Brian Gibbons.

Glyn Davies: A significant proportion of the population of mid and west Wales depends on public services from Shropshire. A proposal has been made to consider the accident and emergency services at the Princess Royal Hospital in Shrewsbury. This will have a massive effect on public services for people in mid Wales. Will you undertake to at least express your support for the people of mid Wales by stating that they should have ready access to accident and emergency services and that those services in Shrewsbury hospital should be defended if possible?

The First Minister: This is difficult, as we have no administrative control, and, even if we wanted to, we could not micromanage what is happening in Shropshire. To the extent that national health service facilities in Shropshire depend on the level of demand from parts of Powys, it is important that we should be consulted if proposals are made for changes that could adversely impact on the quality of service available and that could mean, for example, ambulance drivers not being clear about the proper place to take people needing access to accident and emergency services. We will look into this matter and either Brian or I will get back to you.

2.10 p.m.

Kirsty Williams: Many of my constituents in Brecon and Radnorshire have difficulty in accessing health services, because of the distances that they have to travel and the poor public transport systems that are available. When Sue Essex was the Minister with responsibility for transport, and Jane Hutt the Minister for Health and Social Services, they established a group to consider non-urgent patient transport across Wales. Since that time, the group has had three different

yn rhaid i mi drafod ei gynnwys yng ngwariant y flwyddyn nesaf gyda Brian Gibbons. Gwyddoch oddi wrth atebion blaenorol i chi a sawl Aelod arall, nad yw'n iawn imi wneud ymrwymadau i wario mewn atebion i gwestiynau llafar mewn Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, ac ystyried eich cwestiwn, ymrwymaf i edrych ar y mater gyda Brian Gibbons.

Glyn Davies: Mae cyfran sylweddol o boblogaeth y canolbarth a'r gorllewin yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus o swydd Amwythig. Cyflwynwyd cynnig i ystyried y gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Princess Royal yn yr Amwythig. Caiff hyn effaith enfawr ar wasanaethau cyhoeddus i bobl y canolbarth. A wnewch o leiaf fynegi eich cefnogaeth i bobl y canolbarth drwy ddatgan y dylai fod yn rhwydd iddynt gael gwasanaethau damweiniau ac achosion brys ac y dylid amddiffyn y gwasanaethau hynny yn ysbyty'r Amwythig os yw'n bosibl?

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn anodd, gan nad oes gennym reolaeth weinyddol, a, hyd yn oed petaem yn dymuno gwneud hynny, ni allem ficoreoli'r hyn sydd yn digwydd yn swydd Amwythig. I'r graddau bod cyfleusterau'r gwasanaeth iechyd gwladol yn swydd Amwythig yn dibynnu ar lefel y galw o rannau o Bowys, mae'n bwysig y dylid ymgynghori â ni os cyflwynir cynigion ar gyfer newidiadau a allai gael effaith andwylol ar ansawdd y gwasanaeth sydd ar gael ac a allai olygu, er enghraifft, nad yw gyrwyr ambiwlansiau yn glir ynghylch y man priodol i ddanfôn pobl y mae angen gwasanaethau damweiniau ac achosion brys arnynt. Edrychwn ar hyn a dof fi neu Brian yn ôl atoch.

Kirsty Williams: Mae nifer o'm hetholwyr ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn ei chael yn anodd cael gwasanaethau iechyd, oherwydd y pellter y mae'n rhaid iddynt deithio a'r systemau trafnidiaeth gyhoeddus gwael sydd ar gael. Pan oedd Sue Essex yn Weinidog gyda chyfrifoldeb dros drafnidiaeth, a Jane Hutt yn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sefydlwyd grŵp ganddynt a oedd yn ystyried trafnidiaeth cleifion nad oeddent yn achosion

chairpersons, has only met a handful of times, and the budget that it had to carry out a scoping study has now been totally cut. What will your Government do to redress this situation? This was an important enough issue for the group to be established in the first place. When will that group meet, finish its work, and have its findings implemented?

The First Minister: I did not quite catch the name of the group to which you referred, or the commission that it was given by Sue Essex and Jane Hutt, but I will read the record tomorrow and will investigate and ensure that you get an update. If there is a problem with consistency of chairing of that group, because of too frequent changes, we will look into that and I will come back to you on it.

brys ledled Cymru. Ers hynny, mae'r grŵp wedi cael ei gadeirio gan dri chadeirydd gwahanol, a dim ond wedi cwrdd ychydig o weithiau, ac mae'r gyllideb a oedd ganddo i gynnal astudiaeth gwmpasu wedi'i thorri'n llwyr erbyn hyn. Beth a wnaiff eich Llywodraeth i ddatrys y sefyllfa hon? Yr oedd hwn yn fater digon pwysig i sefydlu'r grŵp yn y lle cyntaf. Pryd y bydd y grŵp hwnnw'n cwrdd, yn gorffen ei waith, ac yn gweld ei ganfyddiadau'n cael eu gweithredu?

Y Prif Weinidog: Ni chlywais enw'r grŵp yr oeddech yn cyfeirio ato, na'r comisiwn a dderbyniodd gan Sue Essex a Jane Hutt, ond darllenaf y cofnod yfory ac ymchwiliaf i hyn a sicrhau y byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf. Os oes problem gyda chysondeb cadeirio'r grŵp hwnnw, oherwydd gormod o newidiadau, edrychwn ar hynny a dof yn ôl atoch yn ei gylch.

Cefnogaeth i Ofalwyr yng Nghymru Support for Carers in Wales

Q4 Ann Jones: Will the First Minister make a statement on support for carers in Wales? OAQ1018(FM)

C4 Ann Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth i ofalwyr yng Nghymru? OAQ1018(FM)

The First Minister: I will first declare an interest as a carer myself. We continue to work with the carers strategy review panel to implement our carers strategy. This has been a busy year, with the carers summit, the launch of the all-Wales carers and employment conference, and the young carers festival on 24 and 25 August in Builth Wells.

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf oll yr wyf am ddatgan buddiant gan fy mod yn ofalwr fy hun. Yr ydym yn parhau i weithio gyda phanel adolygu strategaeth y gofalwyr. Bu hon yn flwyddyn brysur, gydag uwchgynhadledd y gofalwyr, lansio cynhadledd gofalwyr a chyflogaeth Cymru gyfan, a gŵyl y gofalwyr ifanc ar 24 a 25 Awst yn Llanfair ym Muallt.

Ann Jones: As you are a carer, I would hope that you are aware that this Friday is Carers' Rights Day. This year, it focuses specifically on support for the older carer. One in eight of carers are aged 60 or over. Carers Wales estimates that some 40 to 60 per cent of disability benefits go unclaimed each year, along with hundreds of thousands of pounds of pension credits and other benefits. We all realise the importance of keeping carers, and those whom they care for, healthy, and of reducing the need for hospitalisation and institutionalised care. What action can the Welsh Assembly Government take to ensure that carers, and those for whom they care,

Ann Jones: A chithau'n ofalwr, byddwn yn gobeithio eich bod yn ymwybodol ei bod yn Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr ddydd Gwener. Eleni bydd yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogaeth i ofalwyr hŷn. Mae un gofalwr o bob wyth yn 60 oed neu'n hŷn. Amcangyfrifa Gofalwyr Cymru na chaiff tua 40 i 60 y cant o fudd-daliadau anabledd eu hawlio bob blwyddyn, ynghyd â channoedd o filoedd o bunnoedd o greddyau pensiwn a budd-daliadau eraill. Yr ydym oll yn sylweddoli pa mor bwysig yw cadw gofalwyr, a'r rhai y gofalent amdanynt, yn iach, a lleihau'r angen i anfon pobl i ysbytai a gofal sefydliadau. Pa gamau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru

receive the full financial support that they are entitled to, and deserve, for the vital job that they do daily?

The First Minister: I declare an interest here again; the typical carer is indeed someone who is aged over 60, or even over 65. While we should not forget the specific interests of young carers, whom I mentioned earlier, it is important that we ensure that pension-aged carers get full access to the benefits to which they are entitled, but which, sometimes, they are too busy caring to claim. Sometimes, they are too proud to claim those benefits, and the ability to claim via the doctor's surgery through the better benefits, better health campaign, which we began with Citizens Advice some time ago, is important. I understand that that has been very successful, with some £13 million-worth of previously unclaimed benefits being obtained for carers and other clients over the past four years. That is a successful track record upon which to build.

Leanne Wood: Carers who are not in work face many problems, including poverty, but a large number of carers work full or part time, as well as carrying out their caring duties. As a former carer, I appreciate how valuable a break can be, yet respite services are few and far between in most areas. Can you tell us what your Government is doing to make more respite places available for people in order to protect the health and wellbeing of those carers, who are doing an invaluable job, and without whom the whole caring system would collapse?

The First Minister: I could not agree more. Anyone who has personal experience of this, or who is close to those who have personal experience of it, will be well aware of this threat to the health of the carers, if they do not get sufficient respite. I cannot answer now with details on how respite care is provided and whether it is regarded as adequate for the purpose or whether it is not

eu cymryd i sicrhau bod gofalwyr, a'r rhai y gofalent amdanynt, yn derbyn y cymorth ariannol llawn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn ac y maent yn ei haeddu ar gyfer y gwaith hollbwysig a wnânt o ddydd i ddydd?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn datgan buddiant unwaith eto; yn wir mae'r gofalwr nodweddiadol dros 60 oed, neu hyd yn oed dros 65 oed. Er na ddylem anghofio buddiannau penodol gofalwyr ifanc, y soniais amdanynt yn gynharach, mae'n bwysig inni sicrhau bod gofalwyr o oed pensiwn yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn, ond ambell waith maent yn rhy brysur yn gofalu i'w hawlio. Weithiau maent yn rhy falch i hawlio'r budd-daliadau hynny, ac mae gallu hawlio drwy feddygyfeydd drwy'r ymgyrch gwell budd-daliadau, gwell iechyd, a ddechreuasom gyda Chyngor ar Bopeth beth amser yn ôl, yn bwysig. Caf ar ddeall bod hynny wedi bod yn llwyddiannus dros ben, gyda gwerth tua £13 miliwn o fudd-daliadau na chawsant eu hawlio o'r blaen yn cael eu hawlio ar gyfer gofalwyr a chleientiaid eraill dros y pedair blynedd diwethaf. Dyma hanes o lwyddiant a dylid adeiladu ar hyn.

Leanne Wood: Mae gofalwyr nad ydynt mewn gwaith yn wynebu nifer o broblemau, gan gynnwys tlodi, ond mae nifer o ofalwyr yn gweithio'n llawnamser neu'n rhan-amser, ar ben y gwaith o gyflawni eu dyletswyddau gofalu. Fel rhywun a arferai fod yn ofalwr, yr wyf yn sylweddoli pa mor werthfawr y gall seibiant fod, er hynny mae gwasanaethau seibiant yn brin iawn yn y rhan fwyaf o ardaloedd. A allwch ddweud wrthym beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i ddarparu rhagor o leoedd seibiant i bobl er mwyn amddiffyn iechyd a lles y gofalwyr hynny, sydd yn gwneud gwaith hollbwysig, ac y byddai'r holl system o ran gofalu'n methu hebddynt?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi. Bydd unrhyw un sydd â phrofiad personol o hyn, neu sydd yn agos at rywun sydd â phrofiad personol ohono, yn ymwybodol iawn o'r bygythiad hwn i iechyd y gofalwyr, os na chânt ddigon o seibiant. Ni allaf ateb yn awr gyda manylion ynghylch sut y caiff gofal seibiant ei ddarparu ac a ystyrir ei fod yn ddigonol at y diben ynteu a yw heb

available as widely as it should be. I will come back to you in writing on that, or I will make sure that Brian Gibbons does.

Laura Anne Jones: It is becoming glaringly apparent to me from numerous constituency cases, that carers are not aware of the rights that they have. Can you assure me that you will take positive action, as soon as you can, to ensure that these people know their rights, and therefore get the support that they need?

Following on from Leanne's question, I also wish to ask about respite care, particularly for young people.

The First Minister: I mentioned young carers earlier with regard to the particular festival that we held—and which Brian Gibbons addressed—in Builth Wells in August, to raise awareness of young carer issues. The festival was organised by the Powys carer service, but it was an all-Wales festival to try to ensure that young carers' needs are highlighted. We have also agreed to underwrite improvements to the existing participation arrangements for young carers.

fod ar gael mor eang ag y dylai fod. Ysgrifennaf atoch ynghylch hynny, neu byddaf yn sicrhau bod Brian Gibbons yn gwneud hynny.

Laura Anne Jones: Mae'n dod yn gwbl amlwg i mi yn ôl sawl achos yn fy etholaeth, nad yw gofalwyr bob amser yn ymwybodol o'u hawliau. A allwch fy sicrhau y byddwch yn cymryd camau cadarnhaol, cyn gynted ag y gallwch, er mwyn sicrhau bod y bobl hyn yn ymwybodol o'u hawliau, a'u bod felly'n derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt?

Yn sgîl cwestiwn Leanne, hoffwn innau holi ynghylch gofal seibiant, yn enwedig i bobl ifanc.

Y Prif Weinidog: Soniais am ofalwyr ifainc yn gynharach yng nghyswllt yr ŵyl arbennig a gynhaliwyd gennym—ac a anerchwyd gan Brian Gibbons—yn Llanfair ym Muallt ym mis Awst, i godi ymwybyddiaeth am faterion gofalwyr ifanc. Trefnwyd yr ŵyl gan wasanaeth gofalwyr Powys, ond gŵyl i Gymru gyfan ydoedd i geisio sicrhau amlygrwydd i anghenion gofalwyr ifainc. Yr ydym hefyd wedi cytuno i warantu gwelliannau i'r trefniadau cyfranogi presennol ar gyfer gofalwyr ifainc.

Papur Gwyn 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru' 'Better Governance for Wales' White Paper

Q5 Glyn Davies: What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales regarding how the commitment in the 'Better Governance for Wales' White Paper to maximise framework powers in all Bills that affect Wales will work in practice? OAQ1024(FM)

The First Minister: We have regular discussions on that particular topic, including the UK Government's commitment to draft, from henceforth, England and Wales Bills in such a way as to give the Assembly wider powers to determine how provisions should be implemented in Wales, even in advance of the passing of the Government of Wales Bill.

Glyn Davies: If the commitment to maximise framework powers goes ahead, it will transform the way in which the Assembly

C5 Glyn Davies: Pa drafodaethau a fu rhwng y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch sut y bydd yr ymrwymiad yn y Papur Gwyn 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru' i sicrhau hynny a ellir o bwerau fframwaith ym mhob Mesur sy'n effeithio ar Gymru'n gweithio o safbwynt ymarferol? OAQ1024(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd ar y pwnc arbennig hwnnw, gan gynnwys ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddrafftio Mesurau i Gymru a Lloegr o hyn ymlaen yn y fath fodd fel bod pwerau ehangach yn cael eu rhoi i'r Cynulliad i benderfynu sut y dylid gweithredu darpariaethau yng Nghymru, hyd yn oed cyn pasio Mesur Llywodraeth Cymru.

Glyn Davies: Os aiff yr ymrwymiad i sicrhau'r pwerau fframwaith mwyaf yn ei flaen, bydd yn trawsnewid y modd y mae'r

operates, and it will transform our workload. I am concerned about the mechanism by which we ensure that maximum framework powers are contained in Bills. Will you give a commitment that you want to see maximum framework powers in the Bills? To ask a more difficult question perhaps, as a result of your discussions, can you give an absolute commitment that the Secretary of State for Wales is also committed to maximum framework powers in all Bills that affect Wales?

The First Minister: Absolutely, and it is the second of those questions that is material, rather than the first: namely the Secretary of State for Wales's commitment, and the fact that he can give that commitment as Leader of the House on behalf of Her Majesty's Government as a whole. Obviously, that is dealt with at the Westminster end. It is Westminster that brings forward England and Wales Bills, and it is the commitment to follow that practice, even in advance of the new Bill, that is material here. The Government is operating on that basis. New Bills that are being introduced into the Houses of Parliament now, are being done on the basis of framework provisions for Wales, when that is in a devolved area.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Can you examine the relationship between the framework legislation—which, as you rightly say, is to be included in Bills that are currently being written—and the 'Better Governance for Wales' White Paper, which talks about Orders in Council? If the purpose, as agreed by the Secretary of State for Wales, is to have the broadest possible powers for the National Assembly for Wales in the framework legislation, should that also equate to the Parliament and the Secretary of State for Wales giving us the widest possible remit within the broad depth and breadth that we can have in Orders in Council?

The First Minister: The same principle applies to both. If it is a devolved area, the whole basis of the present Government's policy—with which I enthusiastically concur and am involved with—is that framework

Cynulliad yn gweithredu, a bydd yn trawsnewid ein llwyth gwaith. Yr wyf yn bryderus ynglŷn â'r mecanwaith a ddefnyddiwn i sicrhau bod y pwerau fframwaith mwyaf yn cael eu cynnwys mewn Mesurau. A roddwch ymrwymiad eich bod am weld sicrhau'r pwerau fframwaith mwyaf yn y Mesurau? A gofyn cwestiwn anos efallai, yn sgîl eich trafodaethau, a allwch roi ymrwymiad absoliwt fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd wedi ymrwymo i sicrhau'r pwerau fframwaith mwyaf ym mhob Mesur sydd yn effeithio ar Gymru?

Y Prif Weinidog: Yn bendant, a'r ail o'r cwestiynau hynny yw'r un perthnasol, yn hytrach na'r cyntaf: sef ymrwymiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r ffaith y gall roi'r ymrwymiad hwnnw fel Arweinydd y Tŷ ar ran Llywodraeth Ei Mawrhydi yn ei chyfanrwydd. Yn amlwg, ymdrinnir â hynny yn San Steffan. San Steffan a fydd yn cyflwyno Mesurau i Gymru a Lloegr, a'r ymrwymiad i ddilyn yr arfer hwnnw, hyd yn oed cyn y Mesur newydd, yw'r peth perthnasol yma. Mae'r Llywodraeth yn gweithredu ar y sail hon. Caiff Mesurau newydd a gyflwynir i'r Senedd yn awr eu gwneud ar sail darpariaethau fframwaith i Gymru, pan fo hynny mewn maes datganoledig.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): A allwch archwilio'r berthynas rhwng y ddeddfwriaeth fframwaith—a gaiff ei chynnwys, fel y dywedaso, mewn Mesurau sy'n cael eu hysgrifennu ar hyn o bryd—a Phapur Gwyn 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru', sy'n sôn am Orchmynion y Cyfrin Gyngor? Os mai'r diben, fel y cytunwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yw cael y pwerau ehangaf posibl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y ddeddfwriaeth fframwaith, a ddylai hynny hefyd olygu bod y Senedd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n rhoi'r cylch gwaith ehangaf posibl inni o fewn y lled a'r dyfnder eang y gallwn ei gael yng Ngorchmynion y Cyfrin Gyngor?

Y Prif Weinidog: Mae'r un egwyddor yn berthnasol i'r ddau. Os ydyw'n faes datganoledig, yna holl sail polisi'r Llywodraeth bresennol—yr wyf yn cyd-fynd yn frwd ag ef ac yn ymwneud ag ef—yw bod

powers, in advance of the Bill, and applying to any England and Wales Bill, are already being implemented. Orders in Council, subsequent to the passage of the new Bill—which we have not yet seen in its final form—would follow the same principle, in that they will enable us to determine matters for Wales, provided that Parliament consents that it is a devolved area, and that it is therefore appropriate for the Assembly to make legislation in that area.

Michael German: Let us examine the breadth of this, First Minister. We currently have nine, 10 or 11 or so devolved areas. If you ask for the powers to reform or to deal with the health service, for example, in the broadest possible way, would it be a use of the breadth of Orders in Council, or would it be inappropriate, because it was too broad?

The First Minister: It would probably be better to deal with this subject in writing, because it is difficult to pick up on the exact meaning behind the question. However, I will make one observation. The basis for the Orders in Council provision is that we decide here to make an application to Parliament. Parliament then decides to release the release catch, and then it comes back here for us to make legislation in that area, on the basis that it is a devolved field and that it is appropriate for us to do so.

2.20 p.m.

Michael German: I was checking on the second of those two conditions about Parliament, regarding the appropriateness. That is the gatekeeper and veto role that either the Secretary of State or Parliament may have. I mention the national health service and its structure as an example because that would be a very broad request from the Assembly should it decide to pass it. That is a matter for the National Assembly. What tests of appropriateness will the Secretary of State or Parliament use with regard to those requests?

The First Minister: I answered the same question when the Secretary of State and I appeared before the Welsh Affairs Select

pwerau fframwaith, cyn y Mesur, ac yng nghyswllt unrhyw Fesur i Gymru a Lloegr, eisoes yn cael eu gweithredu. Byddai Gorchmynion y Cyfrin Gyngor, wedi pasio'r Mesur newydd—nad ydym wedi'i weld yn ei ffurf derfynol eto—yn dilyn yr un egwyddor, o ran y byddant yn ein galluogi i benderfynu ar faterion i Gymru, ar yr amod bod y Senedd yn cydsynio ei fod yn faes datganoledig, a'i bod felly'n briodol i'r Cynulliad ddeddfu yn y maes hwnnw.

Michael German: Gadewch inni edrych ar ehangder hyn, Brif Weinidog. Ar hyn o bryd mae gennym ryw naw, 10 neu 11 o feysydd datganoledig. Os gofynnwch am bwerau i ddiwygio neu i ddelio â'r gwasanaeth iechyd, er enghraifft, yn y modd ehangaf posibl, a fyddai'n ddefnydd o ehangder Gorchmynion y Cyfrin Gyngor, ynteu a fyddai'n amhriodol, am ei fod yn rhy eang?

Y Prif Weinidog: Mae'n debyg y byddai'n well delio â'r pwnc hwn yn ysgrifenedig, oherwydd y mae'n anodd dirnad yr union ystyr sydd y tu ôl i'r cwestiwn. Fodd bynnag, gwnaf un sylw. Sail darpariaeth Gorchmynion y Cyfrin Gyngor yw ein bod ni yma yn penderfynu gwneud cais i'r Senedd. Yna bydd y Senedd yn penderfynu rhoi caniatâd, ac wedyn daw'n ôl yma i ni ddeddfu yn y maes hwnnw, ar y sail mai maes datganoledig ydyw a'i bod yn briodol inni wneud hynny.

Michael German: Yr oeddwn yn gwneud ymholiad ynghylch yr ail o'r ddau amod hynny ynglŷn â'r Senedd, ynglŷn â'r priodoldeb. Hynny yw rôl y porthor a'r feto a all fod gan naill ai'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Senedd. Yr wyf yn sôn am y gwasanaeth iechyd gwladol a'i strwythur fel enghraifft oherwydd byddai hwnnw'n gais eang iawn gan y Cynulliad pe bai'n penderfynu ei basio. Mater i'r Cynulliad Cenedlaethol yw hynny. Pa brofion o ran priodoldeb y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Senedd yn eu defnyddio yng nghyswllt y ceisiadau hynny?

Y Prif Weinidog: Atebais yr un cwestiwn pan ymddangosodd yr Ysgrifennydd Gwladol a minnau gerbron y Pwyllgor Dethol ar

Committee on this topic. I tried to put it that it is more than a test of vires because it would not have got from here to Parliament if it was outside our vires, but it is less than the question of merits. In other words, it is not for Parliament to determine what we would be doing with those powers but to test the appropriateness of having those powers, so appropriateness is somewhere between vires and merits.

Faterion Cymreig ar y pwnc hwn. Ceisiais awgrymu ei fod yn fwy na phrawf ar y vires gan na fyddai wedi mynd oddi yma i'r Senedd pe bai y tu allan i'n vires, ond mae'n llai na chwestiwn y rhinweddau. Mewn geiriau eraill, nid gwaith y Senedd yw penderfynu beth a wnaem â'r pwerau hynny ond profi priodoldeb cael y pwerau hynny, felly mae priodoldeb yn rhywle rhwng y vires a'r rhinweddau.

Apeliadau'r Dreth Gyngor Council Tax Appeals

Q6 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on council tax appeals? OAQ1027(FM)

C6 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am apeliadau'r dreth gyngor? OAQ1027(FM)

The First Minister: All appeals received by the Valuation Office Agency by 30 September 2005 are expected to be dealt with by 31 March 2006. Appeals that cannot be resolved by the VOA and which, therefore, progress to valuation tribunals are expected to be cleared by June 2006.

Y Prif Weinidog: Disgwylir delio â phob apêl a ddaeth i law Asiantaeth y Swyddfa Brisio erbyn 30 Medi 2005, erbyn 31 Mawrth 2006. Disgwylir i apeliadau na ellir eu datrys gan yr asiantaeth, ac a aiff ymlaen felly i dribiwnlysoedd prisio, gael eu clirio erbyn Mehefin 2006.

Eleanor Burnham: You know that the ever-increasing council tax is perceived by many in Wales as totally unfair and out of step with people's ability to pay, particularly the poor and those on low fixed incomes. My understanding is that figures released on 31 October show that there are still 8,567 outstanding appeals, 2,326 of which are in north Wales alone. I understand that these have resulted in the band's being amended. Will the Valuation Office Agency complete the backlog by 31 March next year, as your Government has previously stated?

Eleanor Burnham: Gwyddoch fod llawer yng Nghymru'n teimlo bod y dreth gyngor, sy'n cynyddu o hyd, yn gwbl annheg a heb berthynas â gallu pobl i dalu, yn enwedig pobl dlawd a rhai ar incwm sefydlog isel. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'r ffigurau a ryddhawyd ar 31 Hydref yn dangos bod 8,567 o apeliadau heb eu setlo o hyd, gyda 2,326 o'r rheini yn y gogledd yn unig. Deallaf fod y rhain wedi arwain at newid y band. A wnaiff Asiantaeth y Swyddfa Brisio ddelio â'r ôl-groniad i gyd erbyn 31 Mawrth y flwyddyn nesaf, fel y mae eich Llywodraeth wedi dweud yn y gorffennol?

The First Minister: We are not responsible for the Valuation Office Agency, but we rely on it in this matter. It has assured us that it expects the appeals received by the VOA, namely those that are a step short of going to tribunal, to be cleared by 31 March next year, and those that do go to tribunal to be cleared by June. I have no other figures to go on, but it is confident that there is no big backlog and no-one should be discouraged from contesting their banding or revaluation with the VOA if they think, from looking at houses nearby of similar price and so on, that it is wrong. They should make an appeal. We

Y Prif Weinidog: Nid ydym yn gyfrifol am Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ond dibynnwn arni yn y mater hwn. Mae wedi rhoi sicrwydd inni ei bod yn disgwyl y bydd yr apeliadau a gafodd yr asiantaeth, sef y rhai sydd gam yn fyr o fynd i dribiwnlys, wedi'u clirio erbyn 31 Mawrth y flwyddyn nesaf, ac y bydd y rhai a aiff i dribiwnlys wedi'u clirio erbyn Mehefin. Nid oes gennyf ddim ffigurau eraill, ond mae'n hyderus nad oes ôl-groniad mawr ac na ddylai neb deimlo nad oes diben iddynt herio'u band neu eu hailbrisiad gyda'r asiantaeth os credant, o edrych ar dai cyfagos tebyg o ran pris ac yn y blaen, ei fod yn

have always encouraged people to appeal if they think that it is wrong. People should not be discouraged by the idea of there being some big backlog, when there is not.

Alun Ffred Jones: Mae'r apeliadau hyn yn deillio o ailfandio'r dreth gyngor, a ddigwyddodd flwyddyn yn ôl. Mae'r ailfandio yn Lloegr wedi'i atal am flynyddoedd. A yw hynny yn cydnabod bod y system yn sylfaenol annheg?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr ai'r system yng Nghymru ynteu'r system yn Lloegr sydd yn annheg. Ni welaf fod y gymhariaeth neu'r gwahaniaeth rhwng y ddau yn profi annhegwch. Os ydych yn codi arian ar gyfer llywodraeth leol drwy dreth ar eiddo, credaf fod pawb yn derbyn yr angen i foderneiddio hynny drwy ailasesu gwerth cymharol yr eiddo hwnnw o bryd i'w gilydd. Bydd hynny'n decach o'i gynnal yn gynnar. Os ydych yn ei adael am gyfnod hir, mae'n anos gan fod pobl yn meddwl y bydd y sioc yn effeithio ar etholiadau ac ati.

anghywir. Dylent apelio. Yr ydym bob amser wedi annog pobl i apelio os ydynt o'r farn ei fod yn anghywir. Ni ddylai pobl gael eu hannog i beidio gan y syniad bod rhyw ôl-groniad mawr, pan nad oes y fath beth.

Alun Ffred Jones: These appeals stem from council tax rebanding, which took place a year ago. Rebanding in England has been put on hold for some years. Is that not an acknowledgement that the system is fundamentally unfair?

The First Minister: I am not sure whether it is the system in Wales or the system in England that is unfair. I do not see that the comparison of, or the difference between, the two demonstrates unfairness. If you raise money for local government by means of a property tax, I believe that everybody accepts the need to modernise that by reassessing the comparative value of that property from time to time. The sooner you undertake that, the fairer it is. If you leave it for a long time, it is more difficult because people think that the shock of it will have an effect on elections and so on.

Dyfodol Prifysgol Cymru Abertawe The Future of the University of Wales Swansea

Q7 Peter Black: Will the First Minister make a statement on any discussions he has had with the University of Wales Swansea about its future? OAQ1023(FM)

The First Minister: I have had no such discussions but I take a close interest in matters relating to the University of Wales Swansea, given my close family connection with it. As is evidenced by the story about the stem cell research collaboration with Celgene in this morning's newspapers, I am sure that Swansea university will go on making a vibrant contribution to the higher education sector in Wales and to the economy of Swansea and south-west Wales.

Peter Black: I declare that I am a member of the college council of Swansea university, so I have an interest in it.

There are many issues in Swansea at the moment about proposals that the college may

C7 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddo a Phrifysgol Cymru Abertawe am ei dyfodol? OAQ1023(FM)

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi cynnal dim trafodaethau o'r fath ond yr wyf yn ymddiddori'n fawr mewn materion sydd yn ymwneud â Phrifysgol Cymru Abertawe, o gofio fy nghysylltiad teuluol agos â'r lle. Fel y gwelir o'r hanesyn am gydweithio ar ymchwil bôn-gelloedd gyda Celgene yn y papurau newydd y bore yma, yr wyf yn siŵr y bydd prifysgol Abertawe'n parhau i wneud cyfraniad bywiog i'r sector addysg uwch yng Nghymru ac i economi Abertawe a de-orllewin Cymru.

Peter Black: Datganaf fy mod yn aelod o gyngor coleg prifysgol Abertawe, felly mae gennyf fuddiant ynddo.

Mae sawl cwestiwn yn Abertawe ar hyn o bryd ynghylch cynigion y gallai'r coleg

move to Llanelli, or away from the present campus. If that happened, would your Government have conversations with the university about safeguarding the Government's investment in that campus, and particularly in the Institute of Life Science and several other important initiatives in which the Assembly Government has invested huge amounts of money?

The First Minister: Yes. That would inevitably be the case. If such a dramatic shift of campus—even shift of town or city—happened, there would be issues with regard to ensuring that buildings on the existing campus were protected or moved at no loss to the public purse. However, to be honest, when universities jealously guard their autonomy, it is not for us to tell them whether they can move. What is important is that the university is bubbling with new ideas and investment—including the one announced this morning on stem cell research—and long may it continue to do so. One of the perils of success for universities on relatively confined sites is that the site can become a bit tight. In such cases, the universities have to think about what they can do to get the elbow room that they need to continue with expansion such as that which Swansea is experiencing.

David Lloyd: Datganaf yr un buddiant â Peter Black, fel aelod o lys y brifysgol. A allwch gadarnhau pwysigrwydd amlwg cadw Prifysgol Cymru Abertawe yn Abertawe?

Y Prif Weinidog: Mater i'r brifysgol yw hynny. Nid ydym ni yn rhedeg y brifysgol; mae'r brifysgol yn gofalu am ei hannibyniaeth yn ffyrnig. Mae'n weddus i brifysgolion wneud eu penderfyniadau mawr eu hunain. Ni allaf roi unrhyw sicrwydd i chi. Nid wyf yn disgwyl unrhyw symudiad dramatig o'r math y cyfeiriwyd ato yn y wasg, ond gallai hynny ddigwydd ac mae'r brifysgol yn rhydd i wneud cynnig o'r fath. Ond, byddai'r trafodaethau yn cael eu cynnal dros gyfnod o flynyddoedd cyn i newid o'r fath ddod i rym.

Alun Cairns: I also declare an interest as a member of the court of Swansea university.

symud i Lanelli, neu i ffwrdd o'r campws presennol. Pe digwyddai hynny, a fyddai eich Llywodraeth yn cynnal trafodaethau gyda'r Brifysgol ynghylch diogelu buddsoddiad y Llywodraeth yn y campws hwnnw, ac yn enwedig yn y Sefydliad Gwyddor Bywyd a sawl menter bwysig arall y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi symiau enfawr o arian ynddynt?

Y Prif Weinidog: Byddem. Byddai hynny'n anochel. Pe digwyddai newid campws mor ddramatig—hyd yn oed newid tref neu ddinas—byddai cwestiynau ynghylch sicrhau y câi adeiladau ar y campws presennol eu diogelu neu eu symud heb golled i'r pwrs cyhoeddus. Fodd bynnag, a dweud y gwir, pan fo prifysgolion yn gwarchod eu hannibyniaeth yn ffyrnig, nid ein lle ni yw dweud wrthynt a gânt symud ai peidio. Yr hyn sydd yn bwysig yw bod y brifysgol yn byrlymu o syniadau a buddsoddiad newydd—gan gynnwys yr un a gyhoeddwyd y bore yma ar ymchwil bôn-gelloedd—a hir y parhao hynny. Un o beryglon llwyddiant i brifysgolion ar safleoedd cymharol gyfyng yw y gall y safle fynd braidd yn brin o le. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r prifysgolion feddwl am beth y gallant ei wneud i gael y lle ychwanegol sydd ei angen arnynt i barhau gyda'r ehangu megis yr ehangu sy'n digwydd yn Abertawe.

David Lloyd: I declare the same interest as Peter Black, as a member of the university court. Can you confirm the obvious importance of keeping the University of Wales Swansea in Swansea?

The First Minister: That is a matter for the university. We do not run the university; the university jealously guards its independence. It is right that universities make their own big decisions. I cannot give you any assurance. I am not expecting any dramatic moves of the sort referred to by the press, but that could happen and the university is free to make such proposals. However, the debate would go on for years before any such change came about.

Alun Cairns: Datganaf finnau fuddiant fel aelod o lys prifysgol Abertawe. Mewn

At a recent Economic Development and Transport Committee meeting, in which we were investigating science policy, the Royal Society said that the loss of the chemistry department at Swansea university was an enormous blow to the economy and to the attractiveness of south-west Wales and Swansea to inward investors. Do you subscribe to that view?

The First Minister: I subscribe to the view that, in the end, university vice-chancellors have a difficult job to do. If they set their minds against any changes in faculty disposition, they may lose out on opportunities, where, for example, they cannot recruit students to a particular faculty but can recruit twice as many to another faculty where there is a big demand. I do not want to get involved in saying whether the vice-chancellor is right or wrong. I believe that the move has now happened, and that even if one disagreed with it, it would be too late to reverse it.

cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, lle'r oeddem yn ymchwilio i bolisi gwyddoniaeth, dywedodd y Gymdeithas Frenhinol fod colli adran cemeg prifysgol Abertawe'n ergyd drom i'r economi ac i atyniad de-orllewin Cymru ac Abertawe i fewnfuddsoddwyr. A gytunwch â'r farn honno?

Y Prif Weinidog: Cytunaf â'r farn bod gan is-gangellorion prifysgolion waith anodd i'w wneud, yn y bôn. Os ydynt yn penderfynu gwrthwynebu newidiadau yn nhrefniant cyfadrannau, gallant golli cyfleoedd, lle na allant recriwtio myfyrwyr, er enghraifft, i gyfadran arbennig ond y gallant recriwtio cymaint ddwywaith i gyfadran arall lle y mae galw mawr. Nid oes arnaf eisiau dechrau dweud a yw'r is-ganghellor yn iawn ai peidio. Credaf fod y symudiad wedi digwydd bellach, a hyd yn oed pe bai dyn yn anghytuno ag ef, byddai'n rhy hwyr i'w droi'n ôl.

Blaenoriaethau Cyllidebol ar gyfer Addysg Budgetary Priorities for Education

Q8 Janet Ryder: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's budgetary priorities for education? OAQ1037 (FM)

The First Minister: Among others, the priorities are radical reform of early years education, modernising the 14 to 19 curriculum, bringing school buildings up to modern standards and securing wider access and excellence in higher education.

Janet Ryder: I am pleased that the Government has now acknowledged that there is a funding gap between English and Welsh higher education institutions. Would the First Minister like to elaborate on what kind of support the Government will be offering to higher education institutions in Wales in future?

The First Minister: We would have to describe the study that was carried out by the Higher Education Funding Council for Wales as very good in the circumstances. It is a quick and dirty study, but it is very effective.

C8 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllidebol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg? OAQ1037 (FM)

Y Prif Weinidog: Ymysg eraill, y blaenoriaethau yw diwygio sylfaenol ar addysg y blynyddoedd cynnar, moderneiddio'r cwricwlwm 14 i 19, codi safonau adeiladau ysgolion hyd at safonau cyfoes a sicrhau mwy o fynediad a rhagoriaeth mewn addysg uwch.

Janet Ryder: Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth erbyn hyn wedi cydnabod bod bwlch o ran cyllid rhwng sefydliadau addysg uwch Cymru a Lloegr. A hoffai'r Prif Weinidog ymhelaethu ynghylch pa fath o gymorth y bydd y Llywodraeth yn ei gynnig i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Byddai'n rhaid inni ddisgrifio'r astudiaeth a gyflawnwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel un dda iawn dan yr amgylchiadau. Astudiaeth a wnaed ar frys ydyw, ond mae'n effeithiol

For the first time, it carried out comparisons between the different higher education institutions in Wales, and between the higher education institutions, collectively, in Wales, England and Scotland. It is an ongoing piece of work, on which further elaboration is needed. However, as a consequence of the work, further allocations in capital in both years, and revenue in one year, will be made in the budget.

William Graham: We welcome your statement on the agreed extra money for education. You said that you would further look at the difference split between revenue and capital. When are you likely to do that so that, in future years, we can see the sums on offer?

2.30 p.m.

The First Minister: It is future years that we are talking about—2006-07 and 2007-08. When the full version of the HEFCW report is published, following more consultation with the sector in Wales, we may well want to double check some of the figures, and we will have to consider the matter again. By then, we will have a much better idea of how the new market in higher education in England is impacting on Wales, because England will be getting the full £3,000 top-up fees, minus the bursary income that it will be required to spend out of that money in order to recruit more working-class students, if they are short of them and have too many privately educated students and so on. Therefore, we do not know what the effect of that will be on the actual income of higher education institutions. When we have an opportunity to consider that, which I suppose will be in around 12 months' time, we can look again at the question of the relativities between higher education funding in Wales and in England.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Cydnabyddaf finnau y sylwadau a wnaethoch ar y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer prifysgolion, sy'n arian cyfalaf a refeniw ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac yn sicr yn arian cyfalaf ar gyfer yr ail flwyddyn, ac yn arian refeniw hefyd o bosibl. Yn gyffredinol, a dderbyniwch fod y cytundeb a

dros ben. Am y tro cyntaf, gwnaeth gymariaethau rhwng y gwahanol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a rhwng y sefydliadau addysg uwch, fel grŵp, yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n waith sy'n dal i fynd yn ei flaen, ac mae angen ehangu arno. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwaith, gwneir dyraniadau cyfalaf pellach yn y naill flwyddyn a'r llall, a refeniw mewn un flwyddyn, yn y gyllideb.

William Graham: Croesawn eich datganiad am yr arian ychwanegol y cytunwyd i'w roi ar gyfer addysg. Dywedasoich y byddech yn edrych ymhellach ar y rhaniad o ran y gwahaniaeth rhwng refeniw a chyfalaf. Pa bryd yr ydych yn debygol o wneud hynny, fel y gallwn, yn y dyfodol, weld y symiau sydd ar gael?

Y Prif Weinidog: Sôn am flynyddoedd yn y dyfodol yr ydym—2006-07 a 2007-08. Pan gyhoeddir fersiwn lawn adroddiad CCAUC, ar ôl mwy o ymgynghori gyda'r sector yng Nghymru, mae'n bosibl iawn y byddwn am ailwirio rhai o'r ffigurau, a bydd rhaid i ni ystyried y mater eto. Erbyn hynny, bydd gennym well syniad o lawer sut y mae'r farchnad newydd mewn addysg uwch yn Lloegr yn effeithio ar Gymru, oherwydd bydd Lloegr yn cael y ffioedd atodol llawn, sef £3,000, llai'r incwm bwrsariaeth y bydd gofyn iddi ei wario o'r arian hwnnw er mwyn recriwtio rhagor o fyfyrwyr o'r dosbarth gweithiol, os byddant yn brin o'r rheini a bod ganddynt ormod o fyfyrwyr sydd wedi cael addysg breifat ac yn y blaen. Felly, ni wyddom beth fydd effaith hynny ar wir incwm sefydliadau addysg uwch. Pan gawn gyfle i ystyried hynny, sef ymhen rhyw 12 mis, fe dybiaf, gallwn edrych eto ar gwestiwn y berthynas rhwng cyllido addysg uwch yng Nghymru ac yn Lloegr.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): I also acknowledge the comments that you made on the increase in the budget for universities, which is capital and revenue funding for next year, and certainly capital funding for the second year, and possibly revenue funding. Generally, do you accept that the agreement that was reached between

gafwyd rhwng y gwrthbleidiau a'r Llywodraeth ar y gyllideb yn dangos bod hwn yn ddiwrnod da i'r Cynulliad a Chymru, oherwydd mae'n dangos y gall pobl yn y lle hwn gydweithio gyda'i gilydd, a hefyd, yng nghyd-destun yr hyn a gytunwyd, ei fod yn dangos bod y gwrthbleidiau wedi gofyn am bethau a oedd yn gwbl resymol, ac nad oeddem am weld y Llywodraeth yn colli ei chyllideb? Yr wythnos nesaf, gobeithiaf y bydd cynnig y Llywodraeth ar y gyllideb yn cael ei gymeradwyo.

Y Prif Weinidog: Diolch am ysbryd a chynnwys eich sylwadau fel arweinydd yr wrthblaid. Credaf y gallwn oll gytuno bod ddoe, yn dilyn trafodaeth yn hwyr neithiwr, yn ddiwrnod arbennig o dda i'r Cynulliad oherwydd ein bod wedi cytuno ar gyllideb sydd o les i'r Cynulliad, ond yn fwy pwysig i Gymru gyfan, ac i bensiynwyr Cymru yn enwedig.

Ieuan Wyn Jones: Hoffwn ddilyn hynny drwy ddweud mai bwriad y gwrthbleidiau oedd sicrhau bod rhywfaint o flaenoriaethau yn y gyllideb, ond nid ein bwriad oedd ceisio sicrhau bod y Llywodraeth yn colli ei chyllideb. Yr ydym yn gweld pwysigrwydd cael cyllideb oherwydd yr hyn sydd ei angen ar gyfer ysbysai, ysgolion, trafndiaeth gyhoeddus a'r holl wasanaethau cyhoeddus eraill. A yw'r Prif Weinidog yn derbyn, oherwydd i'r gyllideb hon gael ei chytuno rhwng y gwrthbleidiau, ei fod yn ddiwrnod da hefyd i bensiynwyr, oherwydd caiff ei ddefnyddio er eu diogelwch ac i wresogi eu tai, ac yn ddiwrnod da i ysgolion oherwydd gellir prynu bwyd maethlon ar gyfer disgyblion? A yw'n cytuno hefyd ein bod yn awr yn dechrau gweld sefyllfa lle mae'n bosibl cael pethau, ar draws y pleidiau, a fydd yn newid bywydau pobl Cymru ac yn helpu pawb?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Ar y sail bod pawb yn derbyn yr hollt fel y mae, neu'r cydbwysedd rhwng y pleidleisiau sydd gan y Llywodraeth a'r rhai sydd gan y gwrthbleidiau, yr ydym yn gorfod trafod materion ar y sail a ddaeth i'r amlwg yn ystod y trafodaethau a gawsom ar y gyllideb. Yr ydym yn gwneud hynny yn yr ysbryd o ganfod yr hyn sydd er lles pobl Cymru, fel y gwnaethom dros yr wythnosau ers y bleidlais

the opposition parties and the Government on the budget shows that this is a good day for the Assembly and Wales, because it shows that people in this place can collaborate, and, in the context of what has been agreed, that it shows that the opposition parties have asked for things that were totally reasonable, and that we did not want to see the Government losing its budget? Next week, I hope that the Government's budget motion will be approved.

The First Minister: Thank you for the spirit and content of your comments as leader of the opposition. I believe that we can all agree that yesterday, following a discussion late last night, was an especially good day for the Assembly because we reached agreement on a budget that is of benefit to the Assembly, but, more importantly, to the whole of Wales, and to the pensioners of Wales in particular.

Ieuan Wyn Jones: I wish to follow that up by saying that the opposition parties' intention was to ensure that there were some priorities in the budget, but it was not our intention to ensure that the Government lost its budget. We recognise the importance of having a budget because of what is required for hospitals, schools, public transport and all the other public services. Does the First Minister accept, because this budget has been agreed between the opposition parties, that it is also a good day for pensioners, because it will be used for their safety and to heat their homes, and a good day for schools, because nutritious food can be bought for pupils? Does he also agree that we are now starting to see a situation whereby it is possible to get things, across parties, that will change the lives of people in Wales and help everyone?

The First Minister: Of course. On the basis that everyone accepts the split as it is, or the balance between the Government's votes and those of the opposition parties, we have to discuss matters on the basis that has emerged during our discussions on the budget. We do that in the spirit of working out what is best for the people of Wales, as we have done in the weeks following the vote in October. We have now reached an agreement on the

ym mis Hydref. Yr ydym wedi dod i gytundeb ar y gyllideb, ac mae hynny'n dangos bod gwleidyddiaeth aeddfed dros ben yn datblygu yng Nghymru.

Ieuan Wyn Jones: Diolchaf ichi am wneud y sylw hwnnw. Hoffwn gyfeirio at un mater arall yn ymwneud â thrafnidiaeth, y cytunwyd arno yn y gyllideb. Gwn eich bod yn ystyried bod hwn yn fater hynod o bwysig a bod y Llywodraeth yn sylweddoli bod angen trafndiaeth gyhoeddus sydd nid yn unig yn gallu symud pobl o'r de i'r gogledd yn llawer cynt, ond sydd hefyd yn uno Cymru oherwydd y problemau o ran cysylltu pobl yn y de a'r gogledd. A allwch chi gadarnhau, os gwneir achos busnes teilwng, y bydd gwelliannau nid yn unig i'r gwasanaeth o'r de i'r gogledd, ond i linell y canolbarth a llinell calon Cymru?

Y Prif Weinidog: Yr unig amod fyddai sicrhau nad yw'r trenau yn rhedeg gyda neb ynddynt. Dyna'r unig bryder sydd gan bawb, oherwydd byddai hynny'n dinistrio'r achos busnes dros gael trenau ychwanegol. Credaf fod y gwrthbleidiau yn derbyn bod y Llywodraeth wedi gwneud ymrwymiad cryf o'r dechrau i drafndiaeth gyhoeddus a rhwydwaith y rheilffyrdd ac, felly, i safon y gwasanaethau ar ein rheilffyrdd. Mae hanes y trê'n o'r gogledd i'r de—neu trê'n y Cynulliad fel y'i gelwir o bryd i'w gilydd—yn un sy'n mynd i fyny ac i lawr, ond mae'n bwysig ein bod yn gwneud cynnig arall arno.

budget, which shows that very mature politics are developing in Wales.

Ieuan Wyn Jones: I thank you for that comment. I wish to refer to one other issue in relation to transport, which has been agreed in the budget. I know that you consider this to be a matter of great importance and that the Government realises that we need public transport that can not only move people from north to south much quicker, but can also unite Wales because of the problems in terms of linking people in the north and the south. Can you confirm, if a worthy business case is made, that there will be improvements not only to the service between the north and the south, but to the mid-Wales line and the heart of Wales line?

The First Minister: The only proviso is that the trains that run cannot be empty. That is the only fear that everyone has, as that would destroy the business case for having additional trains. I am sure that the opposition parties also realise that the Government has made a strong commitment from the outset to public transport and the rail network and, therefore, to the standard of services on our railways. The history of the north-south train—or the Assembly train as it is sometimes called—has been a bit up and down, but it is important that we have another shot at that.

Cynlluniau i Leihau Tlodi Tanwydd Initiatives to Reduce Fuel Poverty

Q9 Gwenda Thomas: Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government initiatives to reduce fuel poverty? OAQ1017(FM)

Q14 Laura Anne Jones: What is the Welsh Assembly Government doing to help vulnerable people in Wales meet heating costs this winter? OAQ1044(FM)

The First Minister: Tackling fuel poverty remains a high priority for us. Its impact is felt particularly during winter months among pensioner households, as was highlighted recently in the Age Concern report. The final

C9 Gwenda Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau tlodi tanwydd? OAQ1017(FM)

C14 Laura Anne Jones: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru i dalu eu costau gwresogi y gaeaf hwn? OAQ1044(FM)

Y Prif Weinidog: Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn parhau'n flaenoriaeth uchel i ni. Teimlir effaith hyn yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf ar aelwydydd pensynwyr, fel y pwysleisiwyd yn

budget for 2006-08 will now contain an extra £10 million to enhance and extend the help available through the home energy efficiency scheme for pensioner households in Wales—almost doubling the present budget commitment.

Gwenda Thomas: Warm Wales, with support from Neath Port Talbot County Borough Council and in partnership with the National Grid and npower, has been working in my constituency to reduce fuel poverty and improve energy efficiency. Warm Wales in Neath Port Talbot celebrated its first birthday earlier this month and, earlier this year, it celebrated the installation of £1 million-worth of free energy efficiency measures. Will you join me in welcoming the progress that has been achieved in Neath Port Talbot, which ensures that our commitment to eradicating fuel poverty is taken forward?

The First Minister: Yes, I will, and I commend the work that has been done by Warm Wales not only in Neath Port Talbot, but in Wrexham. When we talk about a warm Wales for pensioners, that means a well Wales, because it is essential to pensioners' health. However, I also mention the security provisions that can be part of the package, because having the additional window and door lock fitted can make people feel safer in their own homes. Warm Wales, as a programme, is an extremely commendable one, and I wish it well for the future.

Laura Anne Jones: The cost of oil has almost doubled for people living in rural areas who do not have access to the main gas supply. Shockingly, Age Concern has released figures stating that 12 pensioners per day die during the winter in Wales. It is essential that these initiatives are put in place by this winter to tackle fuel poverty, particularly targeting those hard-to-reach rural areas.

ddiweddar yn adroddiad Age Concern. Bydd y gyllideb derfynol ar gyfer 2006-8 yn awr yn cynnwys £10 miliwn ychwanegol i gynyddu ac ehangu'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref i aelwydydd pensiynwyr yng Nghymru—a bydd hyn yn dyblu'r ymrwymiad sydd yn y gyllideb bresennol bron.

Gwenda Thomas: Mae Cymru Gynnes, gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot ac mewn partneriaeth â'r Grid Cenedlaethol ac npower, wedi bod yn gweithio yn fy etholaeth i leihau tlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni. Dathlodd Cymru Gynnes yng Nghastell-nedd Port Talbot ei ben-blwydd cyntaf yn gynharach y mis hwn, ac yn gynharach eleni, bu'n dathlu sefydlu gwerth £1 miliwn o fesurau effeithlonrwydd ynni a ddarperir am ddim. A wnewch ymuno â mi i groesawu'r cynnydd a gyflawnwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, sy'n sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ddileu tlodi tanwydd?

Y Prif Weinidog: Gwnaf, ac yr wyf yn cymeradwyo'r gwaith a wnaethpwyd gan y rhaglen Cymru Gynnes, nid yn unig yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond yn Wrecsam. Pan soniwn am Gymru gynnes ar gyfer pensiynwyr, mae hynny'n golygu Cymru iach, oherwydd ei fod mor hanfodol i iechyd pensiynwyr. Fodd bynnag, soniaf hefyd am y darpariaethau diogelwch a all fod yn rhan o'r pecyn, oherwydd y mae gosod clo ychwanegol ar ffenestri a drysau'n gallu gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae rhaglen Cymru Gynnes yn un hynod ganmoladwy, a dymunaf yn dda iddi yn y dyfodol.

Laura Anne Jones: Mae cost olew wedi dyblu bron iawn i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle nad yw'r prif gyflenwad nwy ar gael iddynt. Mae'r ffigurau a ryddhawyd gan Age Concern yn ysgytwol, sef bod 12 pensiynwr yn marw bob dydd yn ystod y gaeaf yng Nghymru. Mae'n hanfodol i'r mentrau hyn gael eu rhoi ar waith erbyn y gaeaf hwn er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd, gan dargedu'n benodol yr ardaloedd gwledig hynny sy'n anodd eu cyrraedd.

The First Minister: I declare an interest as someone who depends on oil for central heating, and I can verify the figures that you gave. I commend the relevance of this whole agenda of ensuring warmer homes during a period of higher fuel prices. It is essential to realise that during a period of high fuel costs—central heating oil, gas and electricity prices have rocketed—there is a threat to pensioners' health, which is why this is timely. I do not want to say that they will affect this winter, but these budget allocations are timely if we are in for a period of high fuel costs, which is what most people believe.

Rhodri Glyn Thomas: Er bod gennych, fel Llywodraeth, bwerau eithaf eang o ran cynllunio, ni ddatganolwyd pwerau dros reoliadau adeiladu. A ydych wedi cael trafodaethau gyda San Steffan ynghylch datganoli rheoliadau adeiladu fel eich bod, wrth osod amodau ar gynlluniau newydd, yn gallu sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i arbed ynni?

Y Prif Weinidog: Ni fyddai hynny ond yn effeithio ar dai newydd. Yr ydych yn gywir i godi'r pwynt hwnnw, a bu gennym ddi-ddordeb yn y materion hyn ers dechrau'r Cynulliad. Bu trafodaethau, ac y mae hyn ar y gweill, ond nid ydym wedi llwyddo hyd yn hyn. Efallai y bydd y pwerau newydd o dan y Mesur a'r Papur Gwyn yn berthnasol yn y trydydd Cynulliad, sydd i ddechrau ym Mai 2007.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn datgan buddiant gan fy mod yn dibynnu ar olew ar gyfer gwres canolog, a gallaf gadarnhau'r ffigurau a roesoch. Yr wyf yn cymeradwyo perthnasedd yr agenda hon yn ei chyfanrwydd o sicrhau cartrefi cynhesach yn ystod cyfnod pan fydd prisiau tanwydd yn uwch. Mae'n hanfodol sylweddoli yn ystod cyfnod pan fo costau tanwydd yn uchel—ac mae prisiau olew, nwy a thrydan wedi codi'n syfrdanol—fod bygythiad i iechyd pensynwyr, a dyna pam mae hyn yn amserol. Nid wyf am ddweud y byddant yn cael effaith y gaeaf hwn, ond mae'r dyraniadau hyn yn y gyllideb yn amserol os ydym yn wynebu cyfnod o danwydd drud, sef yr hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei gredu.

Rhodri Glyn Thomas: Although you, as a Government, have relatively wide-ranging powers in terms of planning, powers over building regulations have not been devolved. Have you had any discussions with Westminster regarding the devolution of building regulations so that you can, when placing conditions on new plans, ensure that every effort is made to save energy?

The First Minister: That would only apply to new housing. You are right to raise that point, and we have been interested in these issues almost since the Assembly's inception. Discussions have taken place, and this is in the pipeline, but we have not succeeded to date. The new powers under the White Paper or the Bill may be relevant in this regard during the third Assembly, which is due to start in May 2007.

Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru Autism Services in Wales

Q10 David Melding: Will the First Minister make a statement on autism services in Wales? OAQ1019(FM)

The First Minister: The autism spectrum disorder strategy for Wales is being drafted, and we anticipate the final document being completed and published next summer.

David Melding: I declare an interest as a trustee of Autism Cymru.

C10 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau awtistiaeth yng Nghymru? OAQ1019(FM)

Y Prif Weinidog: Mae strategaeth Cymru ar gyfer anhwylderau ar y sbectrwm awtistaidd wrthi'n cael ei drafftio, a rhagwelwn y cwblheir ac y cyhoeddir y ddogfen derfynol yr haf nesaf.

David Melding: Datganaf fuddiant fel un o ymddiriedolwyr Awtistiaeth Cymru.

2.40 p.m.

You will know that this strategy's publication has been delayed for some time. We must get it right and it must be a world-beater when it is eventually produced. However, can you assure us that you will guarantee that the draft will be out for consultation by the middle of next year at the latest, as that will be well over three years after the strategy was first announced?

The First Minister: I have certainly said that it will be available in summer 2006 in response to your question, and I will, therefore, expect it to be delivered. The difficult issues that people have wrestled with relate to whether it should be mainstreamed, with consideration of autism showing up in lots of other strategies, or whether it should be the subject of a separate strategy and, therefore, not mainstreamed. That has been the argument that has bedevilled this issue all along. I have certainly said that it will be available in summer 2006, and I will take a personal interest in ensuring that that is the case.

Christine Chapman: I welcome that, First Minister. I was pleased to meet the people providing the Sure Steps initiative in Rhondda Cynon Taf, which offers therapeutic intervention for pre-school children with autism to enable them to reach their full development potential and to prepare them effectively for school. Do you welcome this valuable work that supports some of our most vulnerable children? What is the Welsh Assembly Government doing to make such services universal so that they reach as many children as possible?

The First Minister: We have put funding aside to deliver the development of regional provision for children and young people with autism. In north Wales, £3 million has been put aside, and, in south-east Wales, £450,000 has been put aside for an educational resource base for children of secondary school age with Asperger's syndrome. People may say that there should be a lot more than

Gwyddoch fod cryn oedi wedi bod wrth gyhoeddi'r strategaeth hon. Rhaid inni sicrhau ei bod yn iawn a'i bod gyda'r gorau yn y byd pan gynhyrchir hi yn y pen draw. Fodd bynnag, a allwch ein sicrhau y byddwch yn gwarantu y bydd y drafft ar gael ar gyfer ymgynghori erbyn canol y flwyddyn nesaf fan bellaf, gan y bydd hynny ymhell dros dair blynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth yn y lle cyntaf?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn sicr wedi dweud y bydd ar gael yn haf 2006 wrth ateb eich cwestiwn, ac felly, byddaf yn disgwyl iddo fod. Mae'r problemau anodd y mae pobl wedi bod yn ymlafnio â hwy'n ymwneud ag a ddylid ei brif ffrydio, gan roi sylw i awtistiaeth mewn llawer o strategaethau eraill, ynteu a ddylai fod yn destun strategaeth ar wahân, ac, felly, heb ei brif ffrydio. Dyna'r ddadl sydd wedi bod yn ddraenen yn ystlys y mater hwn ar hyd y daith. Yr wyf yn sicr wedi dweud y bydd ar gael yn haf 2006, a byddaf fi fy hun yn sicrhau y bydd hynny'n digwydd.

Christine Chapman: Croesawaf hynny, Brif Weinidog. Yr oeddwn yn falch o gyfarfod â'r bobl sy'n darparu'r cynllun Camau Cadarn yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r cynllun yn cynnig ymyriadau therapiwtig i blant cynysgol sydd ag awtistiaeth er mwyn eu galluogi i ddatblygu hyd eithaf eu potensial a'u paratoi mewn modd effeithiol ar gyfer yr ysgol. A ydych yn croesawu'r gwaith gwerthfawr hwn sy'n cynorthwyo rhai o'n plant mwyaf bregus? Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael i bawb er mwyn iddynt gyrraedd cynifer o blant ag y bo modd?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi rhoi arian o'r neilltu er mwyn datblygu darpariaeth ranbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth. Yn y gogledd, neilltuwyd £3 miliwn, ac yn y de-ddwyrain, neilltuwyd £450,000 ar gyfer canolfan adnoddau addysgol i blant o oed ysgol uwchradd sydd â syndrom Asperger. Mae'n bosibl y bydd pobl yn dweud y dylai fod llawer mwy na hynny,

that, and that is fair enough. We will look at that again when the strategy is published next summer.

ac mae hynny'n ddigon teg. Edrychwn ar hynny eto pan gyhoeddir y strategaeth yr haf nesaf.

Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys Accident and Emergency Departments

Q11 Jonathan Morgan: What is the Welsh Assembly Government doing to alleviate the problems faced by accident and emergency departments across Wales? OAQ1025(FM)

C11 Jonathan Morgan: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i liniaru'r problemau a wynebwr gan adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru? OAQ1025(FM)

The First Minister: The success of our efforts to provide a range of high-quality services in emergency care within trusts in Wales is demonstrated by the latest figures, which show that, across Wales, 94.15 per cent of all accident and emergency patients waited less than four hours for treatment, transfer or discharge. That is the highest ever level of performance achieved in a single week at the all-Wales level.

Y Prif Weinidog: Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos llwyddiant ein hymdrechion i ddarparu ystod o wasanaethau o safon ym maes gofal brys mewn ymddiriedolaethau yng Nghymru. Maent yn dangos bod 94.15 y cant o holl gleifion damweiniau ac achosion brys yng Nghymru wedi aros llai na phedair awr i gael triniaeth, i'w trosglwyddo neu i'w rhyddhau. Dyna'r lefel berfformio orau erioed mewn un wythnos ar lefel Cymru gyfan.

Jonathan Morgan: I am grateful to the First Minister for that reply. However, the First Minister will know that the Welsh ambulance service has been set a target turn-around time of 15 minutes, but, in Wales, the average turn-around time for ambulance staff at accident and emergency departments is some 24 minutes. One of the problems, First Minister, which you may be aware of, is that some hospitals have a lack of consultants working in accident and emergency departments. I have been told that, by next year, the accident and emergency department in Cardiff will have four consultants. However, that is roughly half the number needed in a similar sized accident and emergency department in a similar sized acute hospital across the border. Do you think that the Government should review the strategy that is now being used to recruit and attract consultants to Wales?

Jonathan Morgan: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Fodd bynnag, bydd y Prif Weinidog yn gwybod bod targed wedi'i osod i wasanaeth ambiwlans Cymru o ymateb mewn 15 munud, ond, yng Nghymru, yr amser ymateb ar gyfartaledd ar gyfer staff ambiwlans mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yw tua 24 munud. Un o'r problemau, Brif Weinidog, ac efallai eich bod yn ymwybodol ohoni, yw bod prinder meddygon ymgynghorol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mewn rhai ysbytai. Cefais ar ddeall y bydd gan yr adran damweiniau ac achosion brys yng Nghaerdydd, erbyn y flwyddyn nesaf, bedwar o feddygon ymgynghorol. Fodd bynnag, mae hynny'n cyfateb yn fras i hanner y nifer sydd eu hangen mewn adran damweiniau ac achosion brys o faint tebyg mewn ysbyty aciwt tua'r un maint dros y ffin. A ydych yn meddwl y dylai'r Llywodraeth adolygu'r strategaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd i recriwtio a denu ymgynghorwyr i Gymru?

The First Minister: The first thing is to digest the impact of the two additional accident and emergency consultants that have just been appointed—one in October and the other in November. That should have a

Y Prif Weinidog: Y peth cyntaf i'w wneud yw gweld beth fydd effaith y ddau feddyg ymgynghorol ychwanegol sydd newydd eu penodi ar gyfer yr adran damweiniau ac achosion brys—un ym mis Hydref a'r llall

dramatic impact, as that was one of the big problems raised with me last winter, when I made many unscheduled visits to the accident and emergency department at the University Hospital of Wales. Brian and I have raised the issue of the need for far greater numbers of accident and emergency consultants with the management of the University Hospital of Wales trust on several occasions. It has, at least, made a good start, and we will have to see what impact that has on clinical leadership, quality of service, access to service and ambulance turn-around times.

Jenny Randerson: One way of taking pressure off accident and emergency services is to develop a wider range of primary care services. Indeed, that was acknowledged in 'Designed for Life'. Are you aware, First Minister, that hard-pressed local health boards across Wales, particularly in Cardiff, are responding to the severe financial pressure that they are under by reducing the number of services that they commission from primary care? In other words, they are reducing the number of services offered rather than rolling out new ones as intended. Do you agree that this is a crazy situation that you and your Government need to put right?

The First Minister: You will have to send me the details. I am not clear whether you were referring to the council or the LHB when you said 'Cardiff'. Our job, through the delivering emergency care services project, is to try to unify the whole provision of emergency care services. That looks at GP services, other non GP-based primary care services, emergency care services, the ambulance service and accident and emergency provision. I would be grateful, however, if you would write to me to explain what lay behind your question.

ym mis Tachwedd. Dylai hynny gael effaith ddramatig, gan mai dyna un o'r problemau mawr a godwyd gyda mi y gaeaf diwethaf, pan euthum i ymweld sawl tro yn ddirybudd â'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Prifysgol Cymru. Mae Brian a minnau wedi codi'r mater bod angen llawer mwy o feddygon ymgynghorol yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys gyda rheolwyr ymddiriedolaeth Ysbyty Prifysgol Cymru ar sawl achlysur. Mae wedi dechrau arni'n dda beth bynnag, a bydd rhaid i ni weld pa effaith a gaiff hynny ar arweiniad clinigol, ansawdd y gwasanaeth, mynediad at wasanaethau ac amseroedd ymateb ambiwlansiau.

Jenny Randeron: Un ffordd o ysgafnhau'r pwysau sydd ar y gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yw datblygu ystod ehangach o wasanaethau gofal sylfaenol. Yn wir, cydnabuwyd hynny yn 'Cynllun Oes'. A ydych yn ymwybodol, Brif Weinidog, fod y byrddau iechyd lleol sydd dan bwysau ledled Cymru, yn enwedig yng Nghaerdydd, yn ymateb i'r pwysau ariannol difrifol sydd arnynt drwy ostwng nifer y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu gan y maes gofal sylfaenol? Mewn geiriau eraill, maent yn gostwng nifer y gwasanaethau a gynigir yn hytrach na chyflwyno rhai newydd fel y bwriedid. A ydych yn cytuno bod hyn yn orffwyll a bod angen i chi a'ch Llywodraeth unioni'r sefyllfa?

Y Prif Weinidog: Bydd rhaid ichi anfon y manylion ataf. Nid wyf yn glir ai sôn am y cyngor yr oeddech ynteu'r BILl wrth sôn am 'Gaerdydd'. Ein gwaith ni, drwy'r prosiect darparu gwasanaethau gofal brys, yw ceisio creu undod rhwng yr holl wasanaethau gofal brys a ddarperir. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau meddygon teulu, gwasanaethau gofal sylfaenol eraill nad ydynt yn cael eu darparu gan feddygon teulu, gwasanaethau gofal brys, y gwasanaeth ambiwlans a'r ddarpariaeth ar gyfer damweiniau ac achosion brys. Byddwn yn ddiolchgar, er hynny, pe byddech yn ysgrifennu llythyr ataf i esbonio beth oedd wrth wraidd eich cwestiwn.

Cyllido Llywodraeth Leol Local Government Funding

C12 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gydag awdurdodau lleol ynghylch cyllido llywodraeth leol? OAQ1035(FM)

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cyfarfod arweinwyr awdurdodau lleol yn gyson. Yn ystod y cyfarfodydd byddwn yn trafod amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys cyllido llywodraeth leol.

David Lloyd: Pa drafodaethau a gawsoch ynglŷn â chynllun pensiwn gweithwyr llywodraeth leol, gan fod gwelliannau arfaethedig i gynlluniau pensiwn gweithwyr cyhoeddus eraill?

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi trafod y mater hwnnw gydag arweinwyr awdurdodau lleol, ond mae'r mater wedi codi mewn trafodaethau gydag arweinwyr undebau llafur y sector cyhoeddus, megis Unsain.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ1016(FM), yn ôl.

Q12 David Lloyd: What recent discussions has the First Minister held with local authorities regarding local government funding? OAQ1035(FM)

The First Minister: I regularly meet local authority leaders. During those meetings we discuss a wide range of issues, including local government funding.

David Lloyd: What discussions have you had regarding the pension scheme for local government workers, now that there are proposed improvements to other public servants' pension schemes?

The First Minister: I have not discussed this issue with local authority leaders, but it has arisen in discussions with leaders of the public sector trade unions, such as Unison.

The Presiding Officer: Question 13, OAQ1016(FM), has been withdrawn.

Cynhyrchu Stampiau o Arwyddocâd Arbennig i Gymru The Production of Stamps of Particular Significance to Wales

C15 Owen John Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael yn ddiweddar gyda'r Post Brenhinol ynghylch cynhyrchu stampiau o arwyddocâd arbennig i Gymru? OAQ1022(FM)

Y Prif Weinidog: Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sy'n gyfrifol am fonitro materion megis stampiau post. Mae wedi ysgrifennu at y Post Brenhinol yn ei annog i gynhyrchu stamp coffa ar gyfer pen-blwydd anthem genedlaethol Cymru yn 150 oed y flwyddyn nesaf.

Owen John Thomas: Yr wyf finnau wedi ysgrifennu at y Post Brenhinol ynglŷn â'r mater hwn, yn ogystal â nifer eraill o ddatliadau pwysig i Gymru. A gredwch ei bod yn hen bryd inni ofyn am y pwerau i'n galluogi i benderfynu ar stampiau arbennig i Gymru fel y gallwn ddatlu ein digwyddiadau pwysig ein hunain heb orfod cael caniatâd ein brodyr mawr dros y ffin?

Q15 Owen John Thomas: What recent discussions has the First Minister had with the Royal Mail regarding the production of stamps of particular significance to Wales? OAQ1022(FM)

The First Minister: It is Edwina Hart, the Minister for Social Justice and Regeneration, who has responsibility for monitoring issues such as postage stamps. She has written to the Royal Mail urging it to produce a commemorative stamp for next year's one hundred and fiftieth anniversary of the Welsh national anthem.

Owen John Thomas: I have written to the Royal Mail on the same issue, and on a number of other celebrations that are important to Wales. Do you not think that it is about time that we asked for the powers to enable us to make decisions on commemorative stamps for Wales so that we can celebrate our own important events without having to get the permission of our big brother across the border?

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n gwestiwn anodd. Ni wn a allwch wneud hynny ar wahân. Credaf fod pawb, gan gynnwys chwaraewyr rygbi Awstralia, wedi sôn ar ôl y gêm ddydd Sadwrn am yr effaith a'r profiad o glywed ein hanthem genedlaethol wedi'i chanu cyn y gêm. Nid dyna'r rheswm paham y colodd Awstralia yn erbyn Cymru, wrth gwrs, ond yr oedd yn brofiad. Dywedodd yr hen chwaraewyr fod y profiad hwnnw o fod yn bresennol yn Stadiwm y Mileniwm cyn gêm ryngwladol, megis yr un a enillwyd gan Gymru ddydd Sadwrn, yn un da i helpu wrth ddatblygu chwaraewyr ifanc.

Ni welaf sut y gallwch ddatganoli materion megis stampiau heb ddatganoli'r holl faes sy'n ymwneud â gwasanaethau post. Nid oes unrhyw un erioed wedi cynnig y gallem redeg y gwasanaethau post ar wahân i Brydain Fawr.

The First Minister: That is a difficult question. I am not sure whether you could do that alone. I think that everyone, including the Australian rugby players, commented on Saturday about the effect and the experience of hearing our national anthem just before kick-off. That is not the reason why Australia lost to Wales, of course, but it was an experience. The more senior players told us that the experience of being at the Millennium Stadium before an international game, such as the one that Wales won on Saturday, is a good one in helping to develop young players.

I do not see how you could devolve matters such as postage stamps without devolving the whole issue of postal services. I do not think that anyone has ever proposed that we could run a separate postal service for Wales.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I have one change to report to this week's business. Immediately after my statement, the Minister for Health and Social Services will make a statement on the risk from cryptosporidiosis in the water supply in north-west Wales.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Yn syth ar ôl fy natganiad, bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad am effeithiau cryptosporidiosis yng nghyflenwad dŵr y gogledd-orllewin.

Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement, which can be found on the Chamberweb, under supporting documents. Following the Business Committee meeting this morning, it has been determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2006, the Education (School Performance and Unauthorised Absence Targets) (Wales) (Amendment) Regulations 2006, the Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006, the Public Rights of Way (Registers) (Wales) Regulations 2006, and the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006.

Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad busnes drafft, y gellir ei weld ar we'r Siambr, o dan ddogfennau ategol. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynwyd nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at bwyllgor pwnc i'w hystyried ymhellach: Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006, Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru) (Diwygio) 2006, Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006, Rheoliadau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Cofrestrau) (Cymru) 2006, a Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see

sylwadau?

Kirsty Williams: I appreciate that the Business Minister is in some difficulty, as we approach the end of term, with regard to fitting in all of the business that she needs to fit in. The Welsh Liberal Democrat group is disappointed that the debate on dentistry has been moved to the beginning of the next term. The Minister will be aware that this is a crucial time with regard to dentistry and the negotiations on the new contract. I fear that this month's delay will lose us the vital opportunity that we have to discuss the issues in Plenary. I reiterate the point that we made last week, that the Welsh Liberal Democrat group is prepared to sit later and hold additional Plenary meetings to enable you to accommodate all the business that we regard as urgent before we break for Christmas.

2.50 p.m.

Leighton Andrews: Could we have the opportunity, in due course, to debate the press in Wales, and, in particular, the position of the Trinity Mirror Group? I understand today that an announcement has been made of further redundancies in that group. I also understand that a proposal is now underway to merge the editorships of the *Pontypridd and Llantrisant Observer* and the *Rhondda Leader*. Both are excellent local newspapers, serving their communities well; it is estimated that the *Rhondda Leader* is read by roughly 60 per cent of the local population. It is important that we keep local access to newspapers and that we keep local newspapers with distinctive characters. I urge you to ensure that we can have a debate on this.

Rhodri Glyn Thomas: A allwch roi ystyriaeth yn y dyfodol, Weinidog, pan mae'n briodol, i ddadl lawn ar y strategaeth awtistiaeth?

David Melding: As I stated in the Business Committee meeting this morning, some statement on the Turner commission report, when it is published, will be necessary. Many public servants will want to know what the intention of the Government here is with

that there are none. Are there any comments?

Kirsty Williams: Yr wyf yn sylweddoli bod y Trefnydd mewn cyfyng-gyngor braidd, wrth inni ddynesu at ddiwedd y tymor, o ran cynnwys yr holl fusnes y mae'n rhaid iddi ei gynnwys. Mae grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn siomedig bod y ddadl ar ddeintyddiaeth wedi'i symud i ddechrau'r tymor nesaf. Gŵyr y Trefnydd fod hon yn adeg dyngedfennol o ran deintyddiaeth a'r negodiadau ar y contract newydd. Mae arnaf ofn y byddwn yn colli cyfle hollbwysig, oherwydd yr oedi y mis hwn, i drafod y materion dan sylw yn y Cyfarfod Llawn. Ailadroddaf y pwynt a wnaethom yr wythnos diwethaf i'r perwyl bod grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn barod i eistedd yn hwyrach ac i gynnal Cyfarfodydd Llawn ychwanegol fel y gallwch gynnwys yr holl fusnes y credwn fod angen ei drafod ar frys cyn inni gael seibiant y Nadolig.

Leighton Andrews: A allem gael cyfle, ar adeg briodol, i gael dadl ar y wasg yng Nghymru ac, yn enwedig, sefyllfa'r Trinity Mirror Group? Yr wyf yn deall bod cyhoeddiad wedi'i wneud heddiw y bydd rhagor yn cael eu diswyddo yn y grŵp hwnnw. Yr wyf hefyd yn deall bod cynnig ar y gweill bellach i gyfuno golygyddiaethau'r *Pontypridd and Llantrisant Observer* a'r *Rhondda Leader*. Mae'r ddau'n bapurau newydd lleol rhagorol, sydd yn gwasanaethu eu cymunedau'n dda; amcangyfrifir bod y *Rhondda Leader* yn cael ei ddarllen gan tua 60 y cant o'r boblogaeth leol. Mae'n bwysig bod papurau newydd ar gael yn lleol ac inni gadw papurau newydd lleol sydd â chymeriad neilltuol. Yr wyf yn eich annog i sicrhau y gallwn gael dadl ar hyn.

Rhodri Glyn Thomas: Could you give consideration in the future, Minister, when appropriate, to holding a full debate on the autism strategy?

David Melding: Fel y dywedais yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, bydd angen cael datganiad ynghylch adroddiad comisiwn Turner, pan gyhoeddir ef. Bydd llawer o weision cyhoeddus am wybod beth yw bwriad y Llywodraeth yma

regard to the retirement age. Those in the private sector also need encouragement to prepare for retirement and to save.

The Business Minister (Jane Hutt): Kirsty, you know that we are scheduling the NHS dentistry debate for the first Plenary meeting in the new year; it will not affect the contract in terms of the timing. We have taken on board requests on each occasion, particularly regarding the next few weeks. We only have a week left, after this week, for the police debate. The key point about next week, and why we have rescheduled the dentistry debate, is that we have the report of the Committee on the Inquiry into the E-coli Outbreaks in Wales. That committee will be wound up on 7 December, so it is vital that we have that report and make the necessary delegations. The Assembly's wish has been followed in terms of rescheduling the dentistry debate.

You raise important points, Leighton. The local media and press are important in terms of enhancing local democracy, and access, as you say, to information. I will raise this with my colleague, Alun Pugh, in terms of the impacts on your community of the changes in the Trinity Mirror Group. There was a question about the autism strategy this afternoon, Rhodri Glyn. I have engaged with that, and I will be talking to my colleagues about this in terms of taking this pioneering strategy forward.

I take this opportunity, David, to thank you for your contribution as Conservative party business manager over the past year; I have valued our working relationship. I also take the opportunity of welcoming Lisa Francis, who is taking on the challenges of this new role. I have already mentioned the appropriate time to respond to the Turner commission, and the way in which we can do that.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

gyda golwg ar yr oedran ymddeol. Rhaid annog y rhai yn y sector preifat hefyd i baratoi ar gyfer ymddeol ac i gynilo.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Kirsty, gwyddoch ein bod wedi amserlennu'r ddadl ar ddeintyddiaeth y GIG ar gyfer y Cyfarfod Llawn cyntaf yn y flwyddyn newydd; ni fydd yr amseriad yn effeithio ar y contract. Yr ydym wedi ystyried ceisiadau ar bob achlysur, yn enwedig ar gyfer yr wythnosau nesaf. Nid oes gennym ond wythnos ar ôl, ar ôl yr wythnos hon, i gael y ddadl ar yr heddlu. Y pwynt pwysig y dylid ei nodi am yr wythnos nesaf, a'r rheswm dros ail-amserlennu'r ddadl ar ddeintyddiaeth, yw ein bod yn cael adroddiad y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r Achosion E-coli yng Nghymru. Bydd y pwyllgor hwnnw'n cael ei ddirwyn i ben ar 7 Rhagfyr, felly mae'n hollbwysig inni gael yr adroddiad hwnnw a gwneud y dirprwyo angenrheidiol. Dilynwyd dymuniad y Cynulliad o ran ailamserlennu'r ddadl ar ddeintyddiaeth.

Yr ydych yn codi pwyntiau pwysig, Leighton. Mae'r wasg a'r cyfryngau lleol yn bwysig o ran hybu democratiaeth leol, a mynediad at wybodaeth, fel y dywedwch. Byddaf yn codi hyn gyda'm cyd-Weinidog, Alun Pugh, yng nghyd-destun effeithiau'r newidiadau yn y Trinity Mirror Group ar eich cymuned. Bu cwestiwn am y strategaeth awtistiaeth y prynhawn yma, Rhodri Glyn. Yr wyf wedi delio â hynny, a byddaf yn trafod y modd i hyrwyddo'r strategaeth arloesol hon gyda'm cyd-Weinidogion.

Achubaf ar y cyfle hwn, David, i ddiolch i chi am eich cyfraniad fel rheolwr busnes y blaidd Geidwadol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio; yr wyf wedi gwerthfawrogi ein perthynas waith. Achubaf ar y cyfle hefyd i groesawu Lisa Francis, sydd yn mynd i'r afael â heriau'r rôl newydd hon. Yr wyf eisoes wedi dweud pa bryd y bydd yn briodol ymateb i gomisiwn Turner, ac wedi sôn am y modd y gallwn wneud hynny.

Datganiad am Effeithiau Cryptosporidiosis yng Nghyflenwad Dŵr y Gogledd-orllewin

Statement on the Risk from Cryptosporidiosis in the Water Supply in North-west Wales

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): Colleagues will be aware of the recent announcement by the National Public Health Service of an increase in cryptosporidiosis in north Wales. Since the beginning of October, the number of people affected in Gwynedd and Anglesey with this illness, caused by the water-borne parasite, currently stands at 87. Typically in Wales we would normally expect to see 300 cases a year.

Cryptosporidium species are a group of parasites that cause self-limiting diarrhoea in the majority of people. The agent first came to prominence as a cause of intractable diarrhoea in people with HIV, when AIDS was defined as a new illness in the 1980s. Since then, studies have indicated that most people with normal immune function will meet and deal with the parasite reasonably well. However, in the immuno-compromised person, the parasite may cause a protracted illness.

The drinking water from Cwellyn reservoir near Rhyd-ddu has been identified as the likely cause, and is being investigated, as it is believed to be the only link between the affected people. At present, the source of the cryptosporidium within the reservoir catchment has not been established, but investigations are currently centred on Rhyd-Ddu sewage treatment works. The parasite is relatively resistant to the normal disinfection processes used in water treatment systems, and therefore may escape destruction in these systems. It only presents a significant risk for people with severely-impaired immune systems. When the increased cases became apparent, the National Public Health Service arranged for guidance to be issued via clinicians looking after immuno-compromised individuals. People who have problems with their immune system are more at risk of serious illness or prolonged disease. These people include those with HIV

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Bydd cyd-Aelodau'n gwybod am y cyhoeddiad diweddar gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol am gynnydd mewn cryptosporidiosis yn y gogledd. Ers dechrau Hydref, mae'r salwch hwn, a achosir gan baraseit mewn dŵr, wedi effeithio ar 87 o bobl yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Fel arfer, yng Nghymru, byddem yn disgwyl gweld 300 o achosion y flwyddyn.

Mae'r rhywogaeth cryptosporidium yn grŵp o baraseitiaid sydd yn achosi dolur rhydd hunangyfngus yn y rhan fwyaf o bobl. Daeth y cyfrwng hwn i amlygrwydd yn gyntaf fel achos dolur rhydd anodd ei drin mewn rhai sydd â HIV, pan gafodd AIDS ei ddiffinio'n salwch newydd yn y 1980au. Ers hynny, mae astudiaethau wedi dangos y bydd y rhan fwyaf o bobl sydd ag imiwnedd arferol yn gallu delio â'r paraseit hwn yn eithaf da. Fodd bynnag, yn achos rhywun y mae ei imiwnedd dan fygythiad, gall y paraseit beri salwch hirfaith.

Canfuwyd mai'r dŵr yfed o gronfa Cwellyn ger Rhyd-ddu yw'r achos tebygol, ac ymchwilir i hynny, oherwydd credir mai hwnnw yw'r unig gysylltiad rhwng y rhai yr effeithiwyd arnynt. Ar hyn o bryd, nid yw ffynhonnell y cryptosporidium yn nalgylch y gronfa wedi'i chadarnhau, ond mae'r ymchwiliadau'n canolbwyntio ar waith trin carthion Rhyd-ddu ar hyn o bryd. Mae'r paraseit hwn yn gallu gwrthsefyll y prosesau diheintio arferol a ddefnyddir mewn systemau trin dŵr yn eithaf da, ac felly gall fynd drwy'r systemau hyn heb ei ddifa. Nid yw ond yn berygl sylweddol i rai y mae eu system imiwnedd yn wan iawn. Pan ddaeth y cynnydd yn nifer yr achosion i'r amlwg, trefnodd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i ddsbarthu canllawiau drwy glinigwyr sydd yn gofalu am unigolion y mae eu himiwnedd dan fygythiad. Mae rhai sydd â phroblemau mewn cysylltiad â'u system imiwnedd yn fwy tebygol o gael salwch

infection or AIDS, those on chemotherapy for illnesses such as cancer or leukaemia, transplant patients, and people with hereditary immune disorders. Anyone who has been told by their hospital consultant or general practitioner that they have a severely impaired immune system should only drink bottled water or tap water that has been brought to the boil and allowed to cool before use. This should already be part of the everyday routine for those who have impaired immune systems. When the outbreak was recognised, the NPHS put in place a communications plan, which aims to brief key audiences as a means of reassuring people and putting the risk into perspective. The methods used include press briefings and the NPHS website, and a helpline is available for people with questions or concerns. The number is 0845 850 9850, and it is open seven days a week from 9 a.m. to 5 p.m.

Organisations working closely together with the NPHS on the outbreak include Dŵr Cymru/Welsh Water, the Environment Agency, Anglesey and Gwynedd local health boards, the Isle of Anglesey County Council and Gwynedd County Council. I am watching the development of the outbreak carefully and I receive briefings and updates from the chief medical officer and his team. I will bring to Members' attention any significant new developments with regard to public health as they arise.

Alun Ffred Jones: Diolch am y datganiad. Mae cryn bryder yn lleol ac mae'r gair 'cryptosporidium' bellach ar flaen tafod pawb yn yr ardal. Llyn Cwellyn sydd dan sylw—ardal y bardd mawr hwnnw, T.H. Parry Williams. Pa asiantaeth sy'n ymchwilio i'r mater hwn? Os deallaf yn iawn, mae cysylltiad rhwng y parasite hwn a baw gwartheg ac anifeiliaid fferm. A yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal unrhyw ymchwiliadau i'r cyfeiriad hwn?

difrifol neu salwch hir. Ymysg y bobl hynny y mae rhai sydd â haint HIV neu AIDS, y rhai sydd yn cael cemotherapi i drin salwch fel canser neu lewcemia, cleifion a gafodd drawsblaniad, a rhai sydd ag anhwylder imiwnedd etifeddol. Os yw ymgynghorydd mewn ysbyty neu feddyg teulu wedi dweud wrth rywun fod ei system imiwnedd yn wan iawn, ni ddylai yfed ond dŵr potel neu ddŵr tap sydd wedi'i ferwi a'i adael i oeri cyn ei ddefnyddio. Dylai hynny eisoes fod yn rhan o arferion bob dydd y rhai sydd â systemau imiwnedd gwan. Pan welwyd bod achosion wedi digwydd, rhoddodd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol gynllun cyfathrebu ar waith, sydd â'r amcan o roi cyfarwyddyd i gynulleidfaoedd allweddol fel modd i dawelu meddwl pobl a dangos y perygl yn ei wir oleuni. Rhai o'r dulliau a ddefnyddir yw cyfarfodydd briffio i'r wasg a gwefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, ac mae llinell gymorth ar gael i rai sydd am ofyn cwestiynau neu fynegi pryderon. Y rhif yw 0845 850 9850, ac mae'n agored saith niwrnod yr wythnos o 9 a.m. tan 5 p.m.

Rhai o'r cyrff sydd yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ynghylch yr achosion hyn yw Dŵr Cymru/Welsh Water, Asiantaeth yr Amgylchedd, byrddau iechyd lleol Ynys Môn a Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd. Yr wyf yn cadw golwg barcud ar ddatblygiad yr achosion ac yr wyf yn cael fy mriffio a'm hysbysu am y datblygiadau diweddaraf gan y prif swyddog meddygol a'i dîm. Tynnaf unrhyw ddatblygiadau newydd pwysig mewn cysylltiad ag iechyd cyhoeddus i sylw Aelodau wrth iddynt godi.

Alun Ffred Jones: Thank you for the statement. There is great concern locally and the word 'cryptosporidium' is on the tip of everyone's tongue in that particular area by now. We are talking about Llyn Cwellyn—the area of that great poet, T.H. Parry Williams. Which agency is looking into this issue? If I understand this correctly, there is a connection between this parasite and cattle and farm animal dung. Is the Environment Agency conducting any investigations in that direction?

Brian Gibbons: The Drinking Water Inspectorate and Welsh Water are looking into the situation, along with the NPHS. You are correct that there are a number of linkages; animals are certainly one source, and one of the postulates—and it is at that level—is that because the organism is fairly resistant, and because of high rainfalls, for example, the organism may get washed into ground water or be washed into streams and consequently end up in a lake, and may ultimately end up coming into a water reservoir or something like that. It is theoretically possible, but despite all the investigations over the last month, the investigators are not in a position to make a definitive statement on this. Part of the difficulty with making a categorical statement is that some of the epidemiological evidence suggests that you can get outbreaks even when the level of water contamination is pretty close to normal limits, so that, very often, there is a linear relationship between the outbreak and the level of contamination, but it seems, on the basis of the empirical evidence elsewhere, that that does not necessarily always follow in cryptosporidiosis, which makes tracking an investigation a particular challenge.

3.00 p.m.

Eleanor Burnham: As someone who drank our own farm well water as a child, I find this quite horrifying. I am deeply concerned about the current public health risk. Surely, boiling water and the use of purifying tablets is more akin to a third-world nation than to Wales. Last week, which is why I am concerned about this, many constituents contacted me to say that NHS Direct was unaware of the illness and unable to assist them. On Friday, when my constituency office called NHS Direct, it was still unaware of the disease. Shockingly, there seems to have been a complete lack of communication between the National Public Health Service for Wales, local doctors and NHS Direct. This situation is wholly unacceptable. What are you doing to ensure that this communication breakdown does not happen again, Minister?

The people to whom I have spoken in north

Brian Gibbons: Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed a Dŵr Cymru yn ymchwilio i'r sefyllfa, ynghyd â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Yr ydych yn gywir wrth ddweud bod nifer o gysylltiadau; anifeiliaid yw un ffynhonnell yn sicr, ac un o'r rhagdybiaethau—ac ar y lefel honno y mae—yw oherwydd bod gan yr organeb gryn ymwrthedd, ac oherwydd glawogydd trwm, er enghraifft, y gall yr organeb gael ei golchi i ddŵr daear neu ei golchi i nentydd a chyrraedd llyn o ganlyniad, ac y gall gyrraedd cronfa ddŵr neu ryw beth tebyg yn y diwedd. Mae'n bosibl mewn egwyddor, ond er gwaethaf yr holl ymchwiliadau dros y mis diwethaf, nid yw'r ymchwilwyr yn gallu gwneud datganiad pendant ar hyn. Un peth sydd yn peri ei bod yn anodd gwneud datganiad pendant yw bod rhywfaint o'r dystiolaeth epidemiolegol yn awgrymu y gellir cael achosion hyd yn oed os yw lefel yr heintiad yn y dŵr yn eithaf agos i'r terfyn arferol, felly, yn aml iawn, ceir cysylltiad uniongyrchol rhwng yr achosion a lefel yr heintiad, ond mae'n ymddangos, ar sail tystiolaeth empeiraidd mewn mannau eraill, nad yw hynny'n dilyn o reidrwydd bob amser yn achos cryptosporidiosis, fel ei bod yn anodd iawn dilyn llwybr mewn ymchwiliad.

Eleanor Burnham: Fel un a yfai ddŵr o'r ffynnon ar ein fferm pan oeddwn yn blentyn, mae hyn yn codi arswyd arnaf. Pryderaf yn fawr ynghylch y perygl presennol i iechyd y cyhoedd. Onid yw berwi dŵr a defnyddio tabledi puro yn debycach i un o wledydd y trydydd byd nag i Gymru? Yr wythnos diwethaf, a hyn sy'n fy mhoeni, cysylltodd nifer o etholwyr â mi i ddweud nad oedd Galw Iechyd Cymru yn gwybod dim am y salwch hwn a'i fod yn methu â'u helpu. Ddydd Gwener, pan gysylltodd fy swyddfa etholaeth â Galw Iechyd Cymru, nid oedd yn gwybod am yr afiechyd byth. Mae'n dychryn rhywun ei bod yn ymddangos na fu dim cyfathrebu rhwng Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, meddygon lleol a Galw Iechyd Cymru. Mae'r sefyllfa hon yn gwbl annerbyniol. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i sicrhau nad yw'r diffyg cyfathrebu hwn yn digwydd eto, Weinidog?

Ymddengys i'r bobl y bwm yn siarad â hwy

Wales seem to have received all their information from the press. Why was NHS Direct not informed of the outbreak when the National Public Health Service for Wales was briefing the press on the issue? I realise that there is a helpline available for this specific outbreak, but it is only open between 9 a.m. and 5 p.m.. NHS Direct, after all, is supposed to be people's first port of call for advice on all health issues, and is especially useful outside normal working hours. What are you doing to improve this silly situation?

There were worrying stories in the press of GPs who were unaware of the disease until they read about it in the press, which resulted in inappropriate prescribing, of which I am sure that you are fully aware. What steps are now being taken to inform local GPs of the risk and the appropriate course of action? What further investigations will be conducted into this issue, and into the measures that were taken to inform relevant people and public bodies at risk? What lessons can you learn? Finally, what steps are you and the Government taking to ensure that, in future, there is proper communication on issues of public health, so that NHS Direct and GPs are informed in a timely manner?

Brian Gibbons: When there is an outbreak, a special helpline is generally established to provide specific and dedicated information. This happened with the E.coli outbreak. The point that you make, in terms of having NHS Direct as the main source of information, could equally have applied to the E.coli outbreak. However, it was felt that it was better to have a specialist, dedicated helpline, which would give more detailed information.

The general point that you make is not unreasonable, and, certainly, even if NHS Direct was not able to give definitive advice, it would have been useful had NHS Direct been able to redirect people to the helpline. That is certainly worth investigating. I would be surprised if GPs had not been informed. I know that that is your assertion, but I would be surprised if they were not informed.

yn y gogledd gael eu holl wybodaeth gan y wasg. Pam nad hysbyswyd Galw Iechyd Cymru am yr achosion pan oedd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn hysbysu'r wasg o'r mater? Sylweddolaf fod llinell gymorth ar gael ar gyfer yr achos penodol hwn, ond dim ond rhwng 9 a.m. a 5 p.m. y mae hon ar agor. Wedi'r cwbl, Galw Iechyd Cymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf, i fod, i bobl am gyngor ar bob mater yn ymwneud ag iechyd, ac mae'n arbennig o ddefnyddiol y tu allan i oriau gwaith arferol. Beth yr ydych yn ei wneud i wella'r sefyllfa hurt hon?

Yr oedd straeon anffodus yn y wasg am feddygon teulu na wyddent am yr afiechyd nes darllen amdano yn y wasg, ac arweiniodd hynny at bresgripsiynau amhriodol, rhywbeth y gwyddoch yn iawn amdano, yr wyf yn siŵr. Pa gamau sy'n cael eu cymryd yn awr i hysbysu meddygon lleol o'r perygl a'r camau gweithredu priodol? Pa archwiliadau pellach a gynhelir ynglŷn â'r mater hwn, ac ynglŷn â'r mesurau a gymerwyd i hysbysu pobl a chyrrff cyhoeddus perthnasol o'r perygl? Pa wersi y gallwch eu dysgu? Yn olaf, pa gamau yr ydych chi a'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau y bydd cyfathrebu priodol yn y dyfodol ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, fel bod Galw Iechyd Cymru a meddygon teulu yn cael eu hysbysu mewn da bryd?

Brian Gibbons: Pan geir achos, fel arfer, sefydlir llinell gymorth arbennig i roi gwybodaeth benodol a phwrpasol. Digwyddodd hyn gyda'r achosion E.coli. Gallai'r pwynt a wneir gennych, o ran gwneud Galw Iechyd Cymru yn brif ffynhonnell gwybodaeth, fod wedi bod yr un mor berthnasol i'r achosion E.coli. Fodd bynnag, teimlid ei bod yn well cael llinell gymorth arbenigol, bwrpasol, a fyddai'n rhoi gwybodaeth fwy manwl.

Nid yw'r pwynt cyffredinol a wnewch yn afresymol ac, yn sicr, hyd yn oed os nad oedd Galw Iechyd Cymru yn gallu rhoi cyngor pendant, byddai wedi bod yn fuddiol pe bai Galw Iechyd Cymru wedi gallu ailgyfeirio pobl at y llinell gymorth. Mae hynny'n werth ei archwilio, yn ddi-os. Byddai'n syndod i mi pe bai meddygon teulu heb gael eu hysbysu. Gwn mai dyna'r ydych yn ei honni, ond

Again, I will take that away for clarification.

byddwn yn synnu os na chawsant eu hysbysu. Unwaith eto, ystyriaf hynny ymhellach.

However, you are quite right to say that in a number of instances, the mass media, whether it is the TV or newspapers, is the source of advice. That is one of the reasons why the National Public Health Service targets the mass media as a way of informing people and alerting them to a particular risk, and then has a specialist helpline, so that people are able to get additional specialist information. Once the information about risks became available, the water authorities moved to 24-hour monitoring of the suspected water source of this infection to see what the level of potential contamination was.

Fodd bynnag, yr ydych yn llygad eich lle pan ddywedwch mai'r cyfryngau torfol, boed hynny'n deledu neu'n bapurau newydd, yw'r ffynhonnell i gael cyngor mewn nifer o achosion. Dyna un o'r rhesymau pam mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn targedu'r cyfryngau torfol fel cyfrwng i hysbysu pobl a'u rhybuddio ynghylch perygl penodol, ac yna'n creu llinell gymorth arbenigol er mwyn i bobl allu cael gwybodaeth arbenigol ychwanegol. Wedi i'r wybodaeth ynghylch y peryglon ddod yn hysbys, aeth yr awdurdodau dŵr ati i fonitro'r dŵr yr amheuid ei fod yn ffynhonnell yr haint hwn 24 awr y dydd er mwyn canfod lefel yr heintiad posibl.

My understanding, as of the end of last week, is that, even though there is a suspected water source for the infection, as I said to Alun Ffred, the level of contamination is still within relatively normal levels in that water. This indicates the particular problem that we have in trying to specifically track down individual sources.

Yn ôl a ddeallaf, y sefyllfa ddiwedd yr wythnos diwethaf, er yr amheuir mai dŵr yw ffynhonnell yr haint, fel y dywedais wrth Alun Ffred, yw bod lefel yr heintiad yn dal i fod o fewn lefelau cymharol normal yn y dŵr hwnnw. Mae hyn yn arwydd o'r broblem neilltuol sydd gennym o ran ceisio canfod ffynonellau unigol.

Mark Isherwood: Clearly, this is a worrying time for people in Gwynedd and Ynys Môn. As you explained, the real risk is to people with severely impaired immune systems, which is very topical, given that only two days ago, Denise Idris Jones and I were at a World AIDS Day service in Penmaenmawr, which highlighted the fact that, in the UK, over 70,000 people have been diagnosed with HIV-AIDS; possibly up to a third more are not even aware that they have the condition. There are questions of how to ensure that they are aware of the risk in these circumstances. In terms of communicating that information, I note that those who have been told by their hospital consultant or GP that they have severely impaired immune systems should boil water or use bottled water, and that a communications plan is in place, including press briefings, websites and help for those with questions or concerns. That is purely reactive and we are talking about people who will be unwell and possibly disabled. How are you proactively ensuring that the people who can be identified by their

Mark Isherwood: Mae'n amlwg bod hwn yn gyfnod pryderus i bobl yng Ngwynedd a Môn. Fel yr esboniasoch, y bobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf yw'r rhai sydd â nam difrifol ar eu system imiwnedd, pwnc amserol iawn, o gofio i Denise Idris Jones a minnau, gwta ddeuddydd yn ôl, fynychu gwasanaeth Diwrnod AIDS y Byd ym Mhenmaen-mawr, i dynnu sylw at y ffaith bod dros 70,000 o bobl y gwnaed diagnosis bod HIV-AIDS arnynt yn y DU; ac mae'n bosibl bod hyd at draean yn ychwanegol nad ydynt yn sylweddoli bod y cyflwr arnynt hyd yn oed. Cyfyd cwestiynau ynglŷn â sut i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r perygl yn yr amgylchiadau hyn. O ran cyfleu'r wybodaeth honno, nodaf y dylai pobl a hysbyswyd gan eu meddyg ymgynghorol mewn ysbyty neu feddyg teulu fod ganddynt nam difrifol ar eu system imiwnedd, ferwi dŵr neu ddefnyddio dŵr potel, a bod cynllun cyfathrebu ar waith sy'n cynnwys briffio'r wasg, gwefannau a chymorth i bobl sydd â chwestiynau neu bryderon. Dim ond adweithio i'r sefyllfa y mae hynny ac yr

GPs and hospitals are being informed directly of the action that they need to take?

Brian Gibbons: I would agree that it is a worrying time. However, for the average person with normal immunity, although the disease can be unpleasant and uncomfortable for some sufferers, it is a self-limiting disease; people need to be reassured that it will gradually settle down and clear up on its own. For the average person with normal immunity, it is important that we do not create an undue sense of alarm or panic, even though if you are suffering from anything other than a mild dose of the disease, it is a very unpleasant condition. However, we should not create undue alarm.

On one point of detail, my understanding is that even bottled water should be boiled. That is an important point of detail that needs to be corrected.

On being proactive, it should be part of the protocol in terms of the overall management and advice given to people who are severely immunocompromised that they should always, as a matter of routine, boil their water. If they just wait for a flare-up to occur and then start to boil the water, that is not in line with best practice or best advice. It should be part of the information that anyone who suffers from severe immunocompromisation receives, that they should routinely boil water, whether it comes from a tap or a bottle. That should be part of their normal everyday practice, regardless of whether there is a scare about cryptosporidium.

Denise Idris Jones: Minister, can you give us an assurance that you will work with the National Public Health Service for Wales in the north to bring the cluster of contamination to an end as soon as possible? I am aware that people with severely impaired immune systems, those who are particularly susceptible, are being contacted and I ask that you monitor developments in order to identify the source of the contamination so as to reassure people across

ydym yn sôn am bobl a fydd yn sâl ac, o bosibl, yn anabl. Sut yr ydych yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y bobl y gŵyr eu meddygon teulu a'u hysbytai amdanynt yn cael gwybodaeth uniongyrchol am y camau y mae angen iddynt eu cymryd?

Brian Gibbons: Byddwn yn cytuno ei fod yn gyfnod pryderus. Fodd bynnag, i rywun cyffredin sydd ag imiwnedd normal, er y gall yr afiechyd fod yn annifyr ac yn anghyfforddus i rai dioddefwyr, mae'n afiechyd hunan-gyfyngus; mae angen sicrhau pobl y bydd yn cilio'n raddol ac yn clirio ohono'i hun. I rywun cyffredin sydd ag imiwnedd normal, mae'n bwysig nad ydym yn creu ymdeimlad diangen o ddychryn neu banig, er ei bod yn wir os ydych yn dioddef unrhyw beth heblaw dos ysgafn iawn o'r afiechyd, ei fod yn gyflwr annifyr iawn. Fodd bynnag, ni ddylem godi ofn yn ddiangen.

Carwn gyfeirio at un pwynt penodol, sef yn ôl a ddeallaf, fod angen berwi dŵr potel hyd yn oed. Mae hyn yn bwynt pwysig sydd angen ei gywiro.

O ran bod yn rhagweithiol, dylai fod yn rhan o brotocol y rheolaeth gyffredinol a'r cyngor a roddir i bobl sydd â nam difrifol ar eu system imiwnedd y dylent bob amser, fel mater o drefn, ferwi eu dŵr. Os ydynt yn disgwyl i haint ddechrau ac yna'n dechrau berwi'r dŵr, nid yw hynny'n cyd-fynd â'r arferion gorau na'r cyngor gorau. Dylai fod yn rhan o'r wybodaeth a roddir i unrhyw un sydd â nam difrifol ar eu system imiwnedd eu bod yn berwi dŵr fel mater o drefn, boed hwnnw'n dod o dap neu o botel. Dylai hynny fod yn rhan o'u harferion normal bob dydd, ni waeth a oes ofn ynglŷn â cryptosporidium ai peidio.

Denise Idris Jones: Weinidog, a allwch roi sicrwydd i ni y byddwch yn gweithio gyda Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn y gogledd i roi terfyn ar y clwstwr o heintiad cyn gynted â phosibl? Gwn fod cysylltu'n digwydd â phobl sydd â nam difrifol ar eu system imiwnedd, sef y rhai sy'n arbennig o dueddol i gael clefyd, a gofynnaf i chi fonitro'r datblygiadau er mwyn canfod ffynhonnell yr heintiad i dawelu meddyliau pobl ledled y gogledd.

north Wales.

Brian Gibbons: The evidence that the infection control team has gathered suggests a particular source, but I have asked my officials to ensure that we keep an absolute open mind on that because, while the finger of suspicion may point in a certain direction, for the reasons that I have said in terms of assessing the relationship between infection and levels of water contamination, we need to consider other options, as well as focusing on the main suspected source. Unless there is definitive information on a single source, I think that it always pays to keep other possibilities at the front of your mind.

Ieuan Wyn Jones: I thank the Minister for his statement and his reassuring words. He will know that a number of my constituents in south Anglesey have been affected by this bug. When an issue like this arises, and it will do so from time to time, people are desperate for information in the early days. They often do not know what has happened or what level of seriousness there is to the illnesses that they suffer. Parents of young children really need reassurance at an early date. I am pleased that the Minister has once again repeated that a helpline is available. However, under the circumstances, it is natural that people will turn to the health professionals who are closest to them to provide information. It would be reassuring if those health professionals were able to provide them with the kind of information that the Minister is providing in Plenary today. That level of assurance would allay people's many fears and concerns.

3.10 p.m.

In view of the concern, will the Minister consider not only ensuring that health professionals, but also schools, are aware of what might need to happen, particularly with regard to small children and, perhaps, primary schools, so that they are fully aware of the implications of what is happening and how they should respond when illness occurs?

Brian Gibbons: You have drawn out a couple of important points. Once people are

Brian Gibbons: Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y tîm rheoli heintiau'n awgrymu ffynhonnell benodol, ond gofynnais i'm swyddogion sicrhau ein bod yn cadw meddwl cwbl agored am hynny oherwydd, er bod yr amheuaeth yn pwyntio i gyfeiriad penodol, o bosibl, oherwydd y rhesymau a roddais o ran asesu'r berthynas rhwng haint a lefelau heintiad y dŵr, mae gofyn inni ystyried opsiynau eraill, yn ogystal â chanolbwyntio ar y ffynhonnell sy'n cael ei hamau'n bennaf. Oni cheir gwybodaeth bendant am un ffynhonnell benodol, credaf ei bod bob amser yn ddoeth cadw posibiliadau eraill mewn golwg.

Ieuan Wyn Jones: Carwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad a'i eiriau cysurlon. Gŵyr fod yr haint hwn wedi effeithio ar nifer o'm hetholwyr yn ne Môn. Pan fydd mater fel hwn yn codi, ac fe wna o bryd i'w gilydd, mae pobl yn awchu am wybodaeth yn y dyddiau cynnar. Yn aml, nid ydynt yn gwybod beth sydd wedi digwydd na pha mor ddifrifol yw'r salwch a ddiodefant. Mae gwir angen tawelu meddyliau rhieni plant bach yn gynnar. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi ailadrodd, unwaith yn rhagor, fod llinell gymorth ar gael. Fodd bynnag, dan yr amgylchiadau, mae'n naturiol y bydd y bobl yn troi am wybodaeth at y gweithwyr iechyd proffesiynol sydd agosaf atynt. Byddai'n tawelu ofnau pawb pe bai'r gweithwyr iechyd proffesiynol hynny'n gallu rhoi iddynt y math o wybodaeth y mae'r Gweinidog yn ei roi yn y Cyfarfod Llawn heddiw. Byddai hynny'n tawelu'r ofnau a'r pryderon lu sydd gan bobl.

Yn wyneb y pryder, a wnaiff y Gweinidog ystyried nid yn unig sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol, ond hefyd ysgolion, yn ymwybodol o'r hyn y gallai fod angen iddo ddigwydd, yn enwedig gyda phlant bach ac, o bosibl, ysgolion cynradd, er mwyn iddynt fod yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r hyn sy'n digwydd a sut y dylent ymateb pan fydd salwch yn digwydd?

Brian Gibbons: Yr ydych wedi codi un neu ddau o bwyntiau pwysig. Wedi i bobl

aware that something is happening outside the normal background incidence of cryptosporidiosis—and I think that there are always a couple of hundred cases every year—we need to be assured that the cascade of information is there. Also, we should review the situation to ensure that all the key people are contacted. On the point that you and Eleanor Burnham made with regard to NHS Direct, we should always ensure that it is included in the information cascade as it is a one-stop-shop for NHS information. I will check Eleanor's contention that practices were not routinely informed about the outbreak, because that is also an important point.

The point about nursery schools is also important, because this is yet another example about which there may be particular concerns, particularly in settings where small children are not often in a position to engage in hand hygiene and so on. It is a matter of going back to basics. This is yet another infective disease that can be spread by a lack of proper, basic hygiene in the form of hand washing, particularly after people have been to the toilet and so on. The basic message of hygiene still applies, whether it is E.coli, cryptosporidium or many of the hospital-acquired infections. The importance of extending that information, to get that message across to people, is crucial.

In the wake of the E.coli outbreak, we are considering sending a general communication to all schools. There will probably be an increased sense of awareness of the issues at this particular juncture, and if we send out some information proactively to schools, then that message may be more readily assimilated than if we were to send around a circular at some other stage when there would not appear to be such a clear relevance. We are, therefore, working on a letter or a leaflet, or some sort of information, that will be proactively sent to all schools so that people can reinforce their basic understanding of these issues.

sylweddoli bod rhywbeth yn digwydd sy'n fwy na'r achosion arferol o cryptosporidium—a chredaf fod rhyw ddau gant o achosion yn ddi-feth bob blwyddyn—mae angen inni fod yn sicr bod y wybodaeth yn cael ei rhannu. Hefyd, dylem adolygu'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod cysylltu'n digwydd â phawb o'r bobl allweddol. O ran y pwynt a godwyd gennych chi ac Eleanor Burnham ynglŷn â Galw Iechyd Cymru, dylem sicrhau bob amser ei fod yn cael ei gynnwys yn y rhaeadru gwybodaeth gan ei fod yn siop-un-stop ar gyfer gwybodaeth y GIG. Af ar drywydd haerid Eleanor na chafodd practisau eu hysbysu o'r haint fel mater o drefn, gan fod hwnnw hefyd yn bwynt pwysig.

Mae'r pwynt am ysgolion meithrin hefyd yn bwysig, gan ei fod yn enghraifft arall eto o'r hyn a allai fod yn destun pryder penodol, yn enwedig mewn lleoliadau lle nad yw plant bach yn aml yn gallu golchi eu dwylo ac yn y blaen. Mae'n fater o roi sylw i'r pethau sylfaenol. Mae hwn yn afiechyd heintus arall eto sy'n gallu lledaenu drwy ddiffyg hylendid priodol a sylfaenol, megis golchi dwylo, yn arbennig ar ôl bod yn y toiled ac yn y blaen. Mae neges sylfaenol hylendid yn dal yn berthnasol, o ran E.coli, cryptosporidium neu lawer o'r heintiau a geir mewn ysbytai. Mae lledaenu'r wybodaeth honno, a chyfleu'r neges honno i bobl, yn hanfodol bwysig.

Yn sgîl yr achosion E.coli, yr ydym yn ystyried gyrru neges gyffredinol at bob ysgol. Mae'n debyg y bydd mwy o ymwybyddiaeth ynglŷn â materion o'r fath yn yr amgylchiadau hyn, ac os anfonwn rywfaint o wybodaeth yn rhagweithiol at ysgolion yn awr, yna mae'n bosibl y bydd y neges yn haws ei chofio nag a fyddai pe baem yn dosbarthu cylchlythyr rywbryd eto, pan na fyddai'n ymddangos yn berthnasol mewn modd mor amlwg. Yr ydym, felly, yn gweithio ar lythyr neu daflen, neu ryw fath o wybodaeth, a anfonir yn benodol at bob ysgol, er mwyn i bobl allu cadarnhau eu dealltwriaeth sylfaenol o'r materion hyn.

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion
Composite Motion: Approval of Orders

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 24.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 24.25, this motion is not subject to debate.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 24.25:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.25:

1. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 22 November 2005 on the draft the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 Commencement (Wales) (No. 3) Order 2005; and

1. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005; a

b) approves that the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 Commencement (Wales) (No. 3) Order 2005 is made in accordance with:

b) yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:

i) the draft Order laid in the Table Office on 8 November 2005;

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005;

2. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office on 8 November 2005 on the draft the Education (Recognised Bodies) (Wales) Order 2005; and

2. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005; a

b) approves that the Education (Recognised Bodies) (Wales) Order 2005 is made in accordance with:

b) yn cymeradwyo bod Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) the draft Order laid in the Table Office on 17 November 2005;

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2005;

ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 7 November 2005; and

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2005; a

3. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 22 November 2005 on the draft the National Assistance (Assessment of Resources) (Amendment No. 2) (Wales) Regulations 2005; and

3. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2005; a

- b) approves that the National Assistance (Assessment of Resources) (Amendment No2) (Wales) Regulations 2005 are made in accordance with:*
- b) yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:*
- i) the draft Order laid in the Table Office on 15 November 2005;*
- i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2005;*
- ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 18 November 2005;*
- ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2005; a*
- 4. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 22 November 2005 on the draft the Adoption Information and Intermediary Services (pre-Commencement Adoptions) (Amendment) (Wales) Regulations 2005; and*
- 4. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngu (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2005; a*
- b) approves that the Adoption Information and Intermediary Services (pre-Commencement Adoptions) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 are made in accordance with:*
- b) yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngu (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:*
- i) the draft Order laid in the Table Office on 15 November 2005;*
- i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2005;*
- ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 18 November 2005; and*
- ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2005.*
- iii) the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 22 November 2005. (NDM2694)*
- iii) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005. (NDM2694)*

*Cynnig (NDM2694): O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2694): For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian

Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau
 Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005
 Approval of the Civil Partnership Act 2004 (Consequential Amendments to
 Subordinate Legislation) (Wales) Order 2005**

The Business Minister (Jane Hutt): I **Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod
 propose that

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

considers the principle of the Civil Partnership Act 2004 (Consequential Amendments to Subordinate Legislation) (Wales) Order 2005, a copy of which was laid in Table Office on 8 November 2005.(NDM2695)

yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005. (NDM2695)

I propose that

Cynigiau fod

the National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 22

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22

November 2005 in relation to the draft Civil Partnership Act 2004 (Consequential Amendments to Subordinate Legislation) (Wales) Order 2005; and

Tachwedd 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005; a

2. approves that the draft Civil Partnership Act 2004 (Consequential Amendments to Subordinate Legislation) (Wales) Order 2005 is made in accordance with:

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:

a) the draft laid in the Table Office on 8 November 2005; and

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005; a

b) the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 22 November 2005. (NDM2696)

b) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005. (NDM2696)

Helen Mary Jones: Plaid Cymru—The Party of Wales welcomes the introduction of these regulations. Many of us will know, from personal experience of friends and family, about some of the problems that have been experienced in the past by unmarried couples in general, or particularly by lesbian, gay and bisexual partners, in terms of establishing rights in situations such as inheriting tenancies or acting as next of kin when a partner is very ill.

Helen Mary Jones: Mae Plaid Cymru—The Party of Wales yn croesawu cyflwyno'r rheoliadau hyn. Gŵyr llawer ohonom, drwy brofiad personol cyfeillion a theulu, am rai o'r problemau y mae cyplau dibriod yn gyffredinol, neu bartneriaid sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol yn fwyaf arbennig, wedi eu hwynebu yn y gorffennol o ran sicrhau hawliau mewn sefyllfaoedd megis etifeddu tenantiaethau neu weithredu fel y berthynas agosaf pan fo partner yn wael iawn.

We very much welcome the regulations and the primary legislation from which they derive. I believe that they will be welcomed across the Chamber. What steps will the Assembly Government take to ensure—the Minister can respond to me today or on another occasion—that unmarried couples, and lesbian, gay and bisexual couples in particular, are aware of their rights to commit through a civil partnership? What steps will the Assembly Government take to ensure that public bodies and others are made aware of the rights that are confirmed and conveyed by such a partnership?

Yr ydym yn rhoi croeso cynnes i'r rheoliadau ac i'r ddeddfwriaeth sylfaenol y maent yn deillio ohoni. Credaf y cânt eu croesawu ar draws y Siambr. Pa gamau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau—gall y Gweinidog ymateb imi heddiw neu ar achlysur arall—fod cyplau dibriod, a chyplau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn fwyaf arbennig, yn ymwybodol o'u hawliau i ymrwymo drwy bartneriaeth sifil? Pa gamau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau bod cyrff cyhoeddus ac eraill yn ymwybodol o'r hawliau sy'n cael eu cadarnhau a'u cyflwyno yn sgîl partneriaeth o'r fath?

Jenny Randerson: My comments follow on from those of Helen Mary Jones. The Welsh Liberal Democrats greatly welcome the primary legislation and the detailed amendments. They are very broad. As you look through them, you see that they affect the whole range of life. There is clearly a

Jenny Randerson: Mae fy sylwadau'n dilyn yr hyn a ddywedodd Helen Mary Jones. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n croesawu'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r gwelliannau manwl. Maent yn eang iawn. Wrth edrych arnynt, gwelwch eu bod yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd. Mae'n

massive job to be done with every type of authority and public organisation, and many private organisations, to make them aware of the impact of this legislation on every aspect of life. The sheer wealth of detail amounts to real cradle-to-grave stuff, and it affects everything from adoption to someone's rights when his or her partner dies. Therefore, my concern is that sufficient money will be allocated to ensure that the root-and-branch information will be provided to everyone affected by the amendments that we will agree in this motion.

The Business Minister (Jane Hutt): As Helen Mary said, this is a very important Order that provides a new legal framework that will enable the recognition of same-sex relationships with the new status of a civil partnership. Same-sex couples across the UK will be able to form that civil partnership. It is key that the people of Wales are aware of their rights, and Stonewall Cymru has launched a website to this end, which received 30,000 hits during the first few months. Local authorities have an important role to play, and many are actively promoting civil partnership ceremonies. As you say, Jenny, this is key in terms of ensuring that they invest, and we are supporting that investment in terms of ensuring that local authorities are proactive and that they respond, not just as registering authorities, but in terms of promoting civil partnerships. This is a very important Order that embraces a fundamental social justice value that we in the Assembly embrace.

amlwg bod llawer iawn o waith i'w wneud gyda phob math o awdurdod a sefydliad cyhoeddus, a llawer o sefydliadau preifat, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o effaith y ddeddfwriaeth hon ar bob agwedd ar fywyd. Mae'r doreth o fanylion yn golygu ei fod yn ymwneud ag agweddau ar fywyd o'r crud i'r bedd, ac mae'n effeithio ar bopeth o fabwysiadu i hawliau rhywun pan fydd ei bartner ef neu hi'n marw. Felly, yr hyn sy'n peri pryder i mi yw sicrhau bod digon o arian ar gael i sicrhau bod y wybodaeth gyflawn ar gael i bawb yr effeithir arnynt gan y gwelliannau y byddwn yn cytuno â hwy yn y cynnig hwn.

Gobeithio y bydd y ddadl hon yn cyflawni dau beth: yn gyntaf, y bydd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch yr argyfwng yn y diwydiant llaeth yng Nghymru, ac yn ail y bydd yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud gyda'r pwerau sydd gennym yn y Cynulliad. Dyna pam y cynigiai y gwelliant hwn.

Mae angen i bobl gydnabod bod yn rhaid i gynhyrchu llaeth fod yn broffidiol. Rhaid iddo fod yn eithaf sefydlog, fel bod gan bobl hyder i fuddsoddi yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd fod yn gystadleuol, oherwydd, ni waeth pa blaid sydd mewn grym, ni all neb gynnal unrhyw sector amaethyddol penodol, nac unrhyw ddiwydiant arall ychwaith, byth a beunydd.

Huw Lewis: A newch dderbyn ymyriad?

Mick Bates: Yr wyf am orffen fy mhwynt, ac yna derbyniaf ymyriad.

Rhaid iddo hefyd fod yn gystadleuol yng nghyd-destun yr Undeb Ewropeaidd a'r farchnad fyd-eang, fel y gallwn weithio tuag at amcanion trafodaethau masnach y byd.

Yn olaf, ac yn bwysicach na dim i mi, rhaid cael tryloywder o ran pa mor broffidiol yw pob cam, o'r cynhyrchydd i'r prosesydd i'r manwerthwr. Dim ond wedyn y byddwn yn cydnabod y buddsoddiad hirdymor y mae angen ei wneud i sicrhau bod y diwydiant llaeth yng Nghymru yn llwyddo yn y dyfodol. Derbyniaf yr ymyriad hwnnw yn awr, Huw.

Huw Lewis: Diolch, Mick, yr ydych yn garedig. Dywedwch fod angen i'r diwydiant fod yn gystadleuol, ac ni fyddai neb yn anghytuno bod angen hynny mewn unrhyw ddiwydiant. Fodd bynnag, onid yw'r gwelliant hwn yn enghraifft o ymdrechion mwyfwy eithafol y gwrthbleidiau yn y Cynulliad i ddenu mwy a mwy o arian cyhoeddus i ffermio? Yn yr achos hwn, mae'n ceisio defnyddio'r gyllideb addysg, nid er lles plant, ond er lles ffermwyr. Os oes tystiolaeth yng nghyswllt maeth sy'n dangos bod y cam hwn yn ddefnyddiol ac er lles i blant, yna gadewch inni ei chlywed, ond pwy sy'n peri bod hyn yn digwydd: ai'r maethgwyr a'r plant ynteu Undeb

Mick Bates: Huw, in terms of sustainability, and on your questioning of who will benefit from this, all the evidence points to the fact that free school milk—which I will come to in a moment—has benefited children’s health. You fail to understand that investing in children’s health can also help the Welsh economy. You obviously are missing the whole point of the nature of investment and the work that this Assembly can undertake.

I will move forward, Huw, on the basis of evidence. I see two of your Ministers sitting there who often say that their statements are based on evidence, and I agree. The reduction of osteoporosis and tooth decay is directly correlated to the amount of calcium that young children receive. These are irrefutable figures that produce good health results. The introduction of free school milk was one of the great achievements of a partnership between your party and mine. Here is an opportunity today for your party to accept the first part of our amendment which states quite clearly that those health benefits would be strengthened by introducing free school milk at key stage 2. All the evidence points to that, Huw.

In respect of the second part of this, I refer to my introduction about price stability, transparency and the fact that we need to ensure that there is profitability at all stages in our dairy industry. Marks and Spencer has already established a stable pricing mechanism in which producers sit down with processors and retailers to ensure transparency. You cannot hide 18p of profitability that goes to the retailers. Let us make sure that the retailers do not kill the primary producer and that the processor can continue—whether the product being processed is cheese, liquid milk or skimmed milk powder. The Government must recognise that issue. That is why I support this motion in its entirety. I hope that our amendment will be answered by the Minister, who will be proactive in putting forward a Welsh brand of fair deal milk, where the profitability of each stage is recognised and accepted by each part. In that way, the supply chain can say, ‘We are not putting people out

Amaethwyr Cymru?

Mick Bates: Huw, o ran cynaliadwyedd, ac ynghylch y modd yr ydych yn cwestiynu pwy fydd yn elwa o hyn, mae’r dystiolaeth i gyd yn dangos bod llaeth ysgol am ddim—a dof at hynny mewn munud—wedi bod o fudd i iechyd plant. Nid ydych yn deall bod buddsoddi mewn iechyd plant hefyd yn gallu helpu economi Cymru. Yr ydych yn amlwg yn methu dirnad holl bwynt natur y buddsoddiad a’r gwaith y gall y Cynulliad hwn ymgymryd ag ef.

Symudaf ymlaen, Huw, ar sail tystiolaeth. Gwelaf ddau o’ch Gweinidogion yn eistedd acw sy’n dweud yn aml fod eu datganiadau’n seiliedig ar dystiolaeth, a chytunaf. Mae gan y gostyngiad mewn osteoporosis a phydredd dannedd gysylltiad uniongyrchol â faint o galsiwm a gaiff plant ifanc. Mae’r rhain yn ffigurau anwadadwy sy’n dwyn canlyniadau da o ran iechyd. Yr oedd cyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion yn un o lwyddiannau mawr partneriaeth rhwng eich plaid chi a’r plaid i. Ceir cyfle heddiw i’ch plaid dderbyn rhan gyntaf ein gwelliant sy’n datgan yn eithaf clir y byddai’r manteision iechyd hynny yn cael eu cryfhau drwy gyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion yng nghyfnod allweddol 2. Mae’r holl dystiolaeth yn pwyntio tuag at hynny, Huw.

O ran ail ran hyn, cyfeiriai at fy nghyflwyniad ynghylch sefydlogrwydd prisiau, tryloywder a’r ffaith bod yn rhaid inni sicrhau bod proffidioldeb ym mhob cam o’n diwydiant llaeth. Mae Marks and Spencer eisoes wedi sefydlu mecanwaith prasio sefydlog lle y mae’r cynhyrchwyr yn eistedd i lawr gyda’r proseswyr a’r manwerthwyr i sicrhau tryloywder. Ni allwch guddio’r 18c o elw sy’n mynd i’r manwerthwyr. Gadewch inni sicrhau nad yw’r manwerthwyr yn lladd y cynhyrchydd cynradd ac y gall y proseswyr barhau—boed y cynnyrch a brosesir yn gaws, yn llaeth hylif neu’n bowdr llaeth sgim. Rhaid i’r Llywodraeth gydnabod y mater hwnnw. Dyna pam yr wyf yn cefnogi’r cynnig hwn yn ei gyfanrwydd. Gobeithiaf y bydd ein gwelliant yn cael ei ateb gan y Gweinidog, ac y bydd yn rhagweithiol wrth gyflwyno brand llaeth bargaen deg i Gymru, lle y cydnabyddir elw pob cam a lle y bydd pawb yn derbyn hynny. Fel hyn, gall y gadwyn gyflenwi ddweud, ‘Nid ydym yn

of business'. Currently, that is the whole impact of the retailers.

The Office of Fair Trading reports from Westminster have consistently identified problems and taken no action. Our amendment, with this motion, gives the Minister an opportunity to engage to strengthen the rural economy. Despite the denial of your colleague, Huw Lewis, it will give you an opportunity, Minister, to help to increase the health of Welsh children by providing them with free school milk at key stage 2.

The Deputy Presiding Officer: I have not announced a three-minute limit and it would be unfair to announce it now, but if everyone who has asked to speak is to be given that opportunity, they must not speak for more than three minutes.

Alun Ffred Jones: Cyfeiriad fy sylwadau at yr ail bwynt, sy'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y strategaeth datblygu economaidd yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant prosesu llaeth, a hefyd yn sicrhau bod y strategaethau creu cyfoeth cynaliadwy yn estyn y tu hwnt i goridorau yr M4 a'r A55.

Cyfeiriad at y ddogfen sydd i fod yn sail i'n holl gynlluniau i'r dyfodol, sef y cynllun gofodol. Drwy ychwanegu cyfres o ganolfannau twf—polisi a gynigiwyd gyntaf gan Plaid Cymru—mae rhywfaint o gig wedi ei roi ar esgyrn digon bregus. Yr hyn sy'n fy mhoeni yw absenoldeb unrhyw syniad o gynllun economaidd i'r rhan fwyaf o Gymru wledig, darn sydd wedi ei liwio'n wyrdd yn y ddogfen i nodi'r ardal rhwng yr A55 a'r M4. Mae rhai cynlluniau penodol wedi eu cyhoeddi ar gyfer Blaenau'r Cymoedd, ond y tu hwnt i hynny, dim ond y cynllun datblygu gwledig a geir.

Nid wyf yn siŵr a yw rhannu'r cyfrifoldebau datblygu economaidd rhwng dau Weinidog yn gweithio yn y cyfeiriad hwn. Mae'r trefol a'r gwledig yn gyd-ddibynnol mewn pob math o ffyrdd ond mae rhwystrau arbennig i sicrhau cymunedau cynaliadwy yn ein hardaloedd mwyaf gwledig.

Cyfeiriad at yr astudiaeth ar gymunedau

bwrw pobl allan o fusnes'. Ar hyn o bryd, dyna'r effaith a gaiff y manwerthwyr.

Mae adroddiadau'r Swyddfa Masnachu Teg o San Steffan wedi canfod problemau yn gyson heb gymryd dim camau. Mae ein gwelliant, gyda'r cynnig hwn, yn rhoi cyfle i'r Gweinidog wneud rhywbeth er mwyn cryfhau'r economi wledig. Er bod eich cyd-Aelod, Huw Lewis, yn gwadu hynny, bydd yn rhoi cyfle ichi, Weinidog, i helpu i wella iechyd plant Cymru drwy ddarparu llaeth iddynt am ddim mewn ysgolion yng nghyfnod allweddol 2.

Y Dirprwy Lywydd: Nid wyf wedi cyhoeddi cyfyngiad tri munud a byddai'n annheg ei gyhoeddi yn awr, ond er mwyn i bawb sydd wedi gofyn am gael siarad gael cyfle i wneud hynny, rhaid iddynt beidio â siarad am ragor na thri munud.

Alun Ffred Jones: I will direct my comments to the second point, which calls on the Welsh Assembly Government to ensure that the economic development strategy acknowledges the importance of the milk processing industry, and to ensure that wealth creation strategies extend beyond the M4 and A55 corridors.

I refer to the document which should form the basis of all our schemes for the future, namely the spatial plan. By adding a series of growth centres—a policy initially proposed by Plaid Cymru—some meat has been put on quite fragile bones. The lack of an economic scheme for the majority of rural Wales, the area coloured green in the document to illustrate the area between the A55 and the M4, is a cause of concern to me. Some specific schemes have been announced for the Heads of the Valleys, but beyond that, there is only the rural development plan.

I am not sure whether dividing economic development responsibilities between two Ministers works in this area. Urban and rural areas are co-dependent in many ways but there are obstacles to ensuring sustainable communities in our most rural areas.

I refer to a study on sustainable communities

cynaliadwy a gomisiynwyd gan y Bartneriaeth Wledig i Gymru. A gafodd hon ei chyhoeddi? Mae'r Gweinidog wedi dweud yn ddiweddar fod y cynllun gofodol wedi cymryd y gwaith hwn drosodd. Y gwir yw nad yw'r cynllun gofodol yn dweud unrhyw beth am y Gymru wledig. Dywedodd uwch-reolwr sy'n ymdrin ag ailstrwythuro gwasanaethau cyhoeddus wrthyf yn ddiweddar na allwch ddefnyddio'r cynllun gofodol fel sail i unrhyw beth am ei fod yn rhy gyffredinol.

Yr hyn sy'n fy mhoeni yw bod y darn eang hwn o dir wedi ei adael i amaeth, sy'n cyflogi llai bob blwyddyn, a thwristiaeth, sy'n gysylltiedig â gwaith tymhorol a chyflogau isel. Mae lle i'r diwydiannau hynny, ond fel sail i'r economi, mae problemau.

3.50 p.m.

Yr oedd cwmni am symud i ardal Meirionnydd yn ddiweddar i gyflogi 20 o bobl, ond nid oedd gan y cyngor, Awdurdod Datblygu Cymru na'r sector preifat safle diwydiannol ar ei gyfer. Dyna arwydd o'r diffyg cynllunio sydd i'w weld.

Beth sydd a wnelo hyn â'r diwydiant llaeth? Eisoës, yr ydym wedi clywed am gynhyrchwyr sy'n gadael y diwydiant. Fodd bynnag, y brif broblem yw prinder cwmnïau sy'n gwneud defnydd o'r llaeth a'i droi'n fwydydd gyda gwerth uwch, er bod enghreifftiau da i'w gweld yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yr wythnos hon. Fodd bynnag, hon yw'r gyfrinach i greu diwydiant mwy sefydlog sy'n dod â budd i'r economi. Ar hyn o bryd, dim ond 1 y cant o'n llaeth sy'n cael ei droi yn gaws, menyn, iogwrt, ac yn y blaen, yng Nghymru. Mae'n rhaid inni gynyddu'r ffigur hwnnw i 10 y cant, neu hyd yn oed i 30 y cant.

Bu cynnydd mawr, mae'n debyg, mewn mewnfornion cawsiau arbenigol yn y pum mlynedd rhwng 1998 a 2003, o 150,000 tonnall i 210,000 tonnall. Mae gwerth cyffredinol y cynnyrch a fewnforir yn £1,400 y dunnell; £950 y dunnell yw gwerth ein hallforion. Mae potensial, felly, yn y farchnad ryngwladol.

Fodd bynnag, nid mater i'r is-adran polisi

commissioned by the Rural Partnership for Wales. Was this published? The Minister recently said that the spatial plan has taken this work over. The truth is that the spatial plan has nothing to say about rural Wales. A senior manager who deals with public services restructuring told me recently that you cannot use the spatial plan as a basis for anything, as it is too general.

It concerns me that this huge piece of land has been left to agriculture, which employs fewer people each year, and tourism, which offers seasonal work and low wages. There is a place for both industries, but as a basis for the economy, there will be problems.

A company wanted to move to Meirionnydd recently to employ 20 people, but there was no industrial site available from the council, the Welsh Development Agency or the private sector. That is a sign of the lack of planning that is to be seen.

What does this have to do with the dairy industry? We have already heard of producers that are leaving the industry. However, the main problem is the lack of companies that make use of the milk and turn it into value added foods, although there are good examples to be seen in the Winter Fair in Builth Wells this week. However, this is the secret to creating a more stable industry that will benefit the economy. At present, only 1 per cent of our milk is turned into butter, cheese, yoghurt, and so on, in Wales. We must increase that figure to 10 per cent, or even to 30 per cent.

It appears that there has been a great increase in the five years between 1998 and 2003 in the amount of specialist cheeses imported, from 150,000 tonnes to 210,000 tonnes. The general value of the produce that is imported is £1,400 per tonne; the value of our exports is £950 per tonne. There is potential, therefore, in the international market.

However, this is not a matter for the rural

gwledig yw hwn—rhaid iddo fod yn rhan o feddylfryd y Llywodraeth gyfan neu byddwn yn gweld dirywiad pellach yn ein broydd, gyda theuluoedd ifanc yn gadael, gan greu cymunedau anghynaliadwy. Rhaid i'r Llywodraeth ddeffro cyn y bydd yn rhy hwyr.

Karen Sinclair: We all recognise that dairy farming in Wales faces many significant and difficult challenges in the twenty-first century; in my constituency, I well understand that. We also know that these difficulties must be faced now, by making the long-term, effective reforms to industry structures and methods of support that will allow the dairy sector in Wales to survive. That is the most important thing.

Currently, the pressure on farm-gate prices is significant. The average price of a litre of milk is 19p in Wales, and our dairy farmers face competition from all around—from the US, Europe, and beyond—all battling for the loyalty of the British consumer. However, we must also recognise the support that the Labour Assembly Government has provided for the dairy industry in the last few years. Since May 2001, 41 processing and marketing grant projects have been approved in the sector, adding up to £38 million-worth of investment and support for the dairy industry throughout Wales, along with a total grant support of £14 million.

Eleanor Burnham: Will you take an intervention?

Karen Sinclair: No, not at the moment, Eleanor.

With our Westminster partners, since 1997, nine dairy projects have benefited from the marketing development scheme support, providing investment of £1.4 million, and a total grant support of £70,000. For those who constantly accuse the Government of sitting idly by while our dairy industry suffers, I am sure that these figures provide a strong rebuttal. Labour in Wales is committed not to warm words and weak strategies but to real, on-the-ground investment for our dairy farmers, allowing them to face new and

policy division—it must be a part of the mindset of the whole Government or we will see a further decline in our communities, with young families leaving, leading to unsustainable communities. The Government must wake up before it is too late.

Karen Sinclair: Cydnabyddwn oll fod ffermio llaeth yng Nghymru yn wynebu llawer o sialensiau pwysig ac anodd yn yr unfed ganrif ar hugain; yn fy etholaeth, deallaf hynny yn dda. Gwyddom hefyd fod yn rhaid wynebu'r anawsterau hyn yn awr, drwy wneud y diwygiadau hirdymor, effeithiol i ddulliau cefnogi a strwythurau'r diwydiant, diwygiadau a fydd yn caniatáu i'r sector yng Nghymru oroesi. Hynny yw'r peth pwysicaf.

Ar hyn o bryd, mae'r pwysau ar brisiau gât y fferm yn aruthrol. Pris cyfartalog litr o laeth yng Nghymru yw 19c, ac mae ein ffermwyr llaeth yn wynebu cystadleuaeth o bob cwr—o'r Unol Daleithiau, Ewrop, a thu hwnt—gyda phob un ohonynt yn brwydro am deyrngarwch prynwyr ym Mhrydain. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod y cymorth y mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad wedi ei roi i'r diwydiant llaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ers Mai 2001, cymeradwywyd 41 o brosiectau grant marchnata a phrosesu yn y sector, gan ychwanegu gwerth hyd at £38 miliwn o fuddsoddiadau a chymorth i'r diwydiant llaeth ledled Cymru, ynghyd â chyfanswm cymorth grant o £14 miliwn.

Eleanor Burnham: A wnewch dderbyn ymyriad?

Karen Sinclair: Na wnaif, ar hyn o bryd, Eleanor.

Gyda'n partneriaid yn San Steffan, ers 1997, mae naw o brosiectau llaeth wedi elwa o gymorth y cynllun datblygu marchnata, gan roi buddsoddiad o £1.4 miliwn, ynghyd â chyfanswm cymorth grant o £70,000. I'r rhai sy'n cyhuddo'r Llywodraeth yn gyson o eistedd yn ddidaro tra bo'n diwydiant llaeth yn dioddef, yr wyf yn sicr bod y ffigurau hyn yn rhoi gwrthbrawf pendant. Mae Llafur yng Nghymru wedi ymrwymo nid i eiriau hynaws a strategaethau gwan ond i fuddsoddiadau gwirioneddol, ar lawr gwlad i'n ffermwyr

challenging global realities. However, as a Government we will not sell out our dairy industry through the sort of cheap political fix that the opposition proposes today.

I urge the Minister—and I am sure that many fair-minded opposition members would agree with me—to ensure that we structure the dairy industry in a way that avoids the easy solution of simply hiking subsidies to ward off the threat of outside competitors. This would eventually lead to disaster for our farmers, as the difficult changes would simply not be made to the sector.

Eleanor Burnham: Farmers surely do not want handouts—they want level playing fields. The Labour Government in Westminster rightly looks into cartels, such as the independent school cartels, but, surely, this is a supermarket cartel—they have the strength. Tesco now accounts for a third of our retailing spend. What is wrong with the Labour Party? Why cannot it see that farmers do not want handouts—they want a level playing field?

Karen Sinclair: If we are looking at level playing fields across the world, Eleanor, how would you feel about the removal of subsidies, which would give a level playing field to third world countries?

Brynle Williams: Will you give way?

Karen Sinclair: No, I will not take another intervention, Brynle.

There is a second point here, namely the issue of the Assembly and the wider international context of dairy farming. We do not exist in a bubble here in Wales; the decisions that we make impact across the world, and we must be responsible enough to recognise this. I know that it causes heat in the Chamber, but that is the way it is. Any attempts to further subsidise Welsh farmers for their dairy products would have a detrimental effect on dairy farmers across the less developed world. We must produce

llaeth, gan ganiatáu iddynt wynebu gwirioneddau byd-eang newydd a llawn her. Fodd bynnag, fel Llywodraeth ni werthwn ein diwydiant llaeth yn llwyr drwy'r math o ateb gwleidyddol dibris a gynigir gan yr wrthblaid heddiw.

Anogaf y Gweinidog—ac yr wyf yn sicr y byddai llawer o aelodau teg eu barn o'r gwrthbleidiau'n cytuno â mi—er mwyn sicrhau ein bod yn strwythuro'r diwydiant llaeth mewn modd sy'n osgoi'r ateb hawdd o godi cymorthdaliadau i atal bygythiad cystadleuwyr o'r tu allan. Byddai hyn yn y pen draw yn arwain at argyfwng i'n ffermwyr, oherwydd yn syml ni fyddai'r newidiadau anodd yn cael eu gwneud i'r sector.

Eleanor Burnham: Nid cardod sydd ei eisiau ar ffermwyr—ond chwarae teg wrth gystadlu. Mae'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn edrych yn fanwl ar gartelau, megis cartelau ysgolion annibynnol, fel y dylai wneud, ond, yn wir, mae hyn yn gartel o uwchfarchnadoedd—ganddynt hwy y mae'r nerth. Tesco bellach sydd i gyfrif am draean o'n gwariant manwerthu. Beth sydd yn bod ar y Blaid Lafur? Pam na all weld nad cardod sydd ei eisiau ar ffermwyr—ond chwarae teg wrth gystadlu?

Karen Sinclair: Os ydym yn edrych ar chwarae teg ar draws y byd, Eleanor, sut y byddech yn teimlo ynghylch dileu cymorthdaliadau, rhywbeth a fyddai'n rhoi chwarae teg i wledydd y trydydd byd?

Brynle Williams: A wnewch ildio?

Karen Sinclair: Na wna, ni dderbyniaf ymyriad arall, Brynle.

Mae ail bwynt yma, sef mater y Cynulliad a chyd-destun ehangach ffermio llaeth rhyngwladol. Nid ydym yn bodoli mewn swigen yma yng Nghymru; mae'r penderfyniadau a wnawn yn cael effaith ar draws y byd, a rhaid inni fod yn ddigon cyfrifol i gydnabod hyn. Gwn ei fod yn ennyn cyffro yn y Siambr, ond dyna sut y mae pethau. Byddai ymgais i roi rhagor o gymorthdaliadau i ffermwyr Cymru am eu cynnyrch llaeth yn cael effaith andwyol ar ffermwyr llaeth ar draws y byd llai

sustainable, good quality dairy products, but not harm those in parts of the world where the issue is literally a matter of life or death.

It is the role of the Assembly Government to provide leadership to our dairy sector so that difficult decisions are made now for the good of the industry in the long term. We know that there is a downward movement in the number of milk producers but, overall, the volumes of milk production in Wales are being maintained through rationalisation in production towards larger herds. This is not easy, as it means fewer people producing quality milk; I know that, but this change is made, helped by a responsible Government, for the good of our dairy industry.

I raise a particular point of concern here with regard to the amendment proposed today by the Liberal Democrats. Their first proposal is that we create a fair deal brand of Welsh milk. I urge Members very strongly to vote against such a move; we must not confuse the issue by damaging, in any way, the fair trade mark that guarantees a better deal for farmers and labourers in less developed countries. It has taken a long time to raise the profile of this issue, and to confuse the two here in Wales would be damaging to all concerned.

Secondly, I also urge caution on the issue of introducing free school milk to key stage 2 pupils. It is far too soon to be talking about extending the scheme when we are currently awaiting the evaluation of the report from the Department for Environment, Food and Rural Affairs. It would be better to look at this when the results are known. On the comment made about free breakfasts, we all know that we are working on empirical evidence on that issue.

The Deputy Presiding Officer: Order. Members are taking too long; I will have to call the Minister to wind up at 4.10 p.m..

Rhodri Glyn Thomas: I will deal first of all

datblygedig. Rhaid inni gynhyrchu cynnyrch llaeth safonol, cynaliadwy, ond heb niweidio'r rhannau hynny o'r byd lle y mae'r mater yn llythrennol yn fater o fywyd neu farwolaeth.

Rôl Llywodraeth y Cynulliad yw rhoi arweiniad i'n sector llaeth fel bod penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud yn awr er lles y diwydiant yn y tymor hir. Gwyddom fod nifer y cynhyrchwyr llaeth yn gostwng ond mae cyfanswm y llaeth a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei gynnal drwy ad-drefnu'r cynhyrchiant fel bod y buchesi'n fwy. Nid yw hyn yn hawdd, oherwydd ei fod yn golygu llai o bobl yn cynhyrchu llaeth o safon; gwn hynny, ond mae'r newid hwn yn digwydd, gyda chymorth Llywodraeth gyfrifol, er lles ein diwydiant llaeth.

Codaf bwynt penodol o bryder yma ynglŷn â'r gwelliant a gynigir heddiw gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Eu cynnig cyntaf yw ein bod yn creu brand llaeth bargaen deg i Gymru. Anogaf yr Aelodau yn gryf iawn i bleidleisio yn erbyn cam o'r fath; rhaid inni beidio â pheri dryswch drwy niweidio, mewn unrhyw fodd, y nod masnachu teg sy'n sicrhau bargaen well i ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd llai datblygedig. Mae wedi cymryd amser maith i godi proffil y mater hwn, a byddai drysu rhwng y ddau yma yng Nghymru yn niweidiol i bawb dan sylw.

Yn ail, yr wyf yn eich annog hefyd i fod yn ofalus ynghylch mater cyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'n llawer rhy fuan inni siarad am ymestyn y cynllun a ninnau, ar hyn o bryd, yn disgwyl am werthusiad yr adroddiad gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Byddai'n well inni edrych ar hyn pan fydd y canlyniadau'n hysbys. Ynghylch y sylw a wnaed ynghylch brechwast am ddim, gwyddom oll ein bod yn gweithio ar dystiolaeth empeiraidd ynghylch y mater hwn.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'r Aelodau'n cymryd gormod o amser, bydd yn rhaid imi ofyn i'r Gweinidog ddirwyn i ben am 4.10 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Rhoddaf sylw i

with Huw Lewis's point, and refer to some reports so that he can understand the benefits of freshly sourced, local, nutritious food, and its benefits to children and young people. If you consider 'Relocalising the Food Chain: the Role of Creative Public Procurement', a report written by Kevin Morgan and Adrian Morley from Cardiff University, you begin to understand how important it is for us to produce fresh and nutritious foods. I also refer him to an University of Manchester report, 'An Economic Review of Farming Changes in England and Wales Dairy Farming Since 2002/03', which forecasts that there will be a shortfall of 1 billion litres of milk in the UK by the year 2007-08. I presume that Huw was in the lobby of people who said 'Let us get rid of our manufacturing base and depend on imports, because we do not really need to manufacture products in Wales'.

Huw Lewis: This is becoming more and more the economics of the playpen. The reports that you mentioned are in no way an evidential base of proof about the nutritional benefit of milk as opposed to anything else. Why not fruit or fresh bread? Why not take a look at the great quality of root vegetables that are grown in Wales? I am all for considering localisation of production, but the starting point for this amendment is not children, nutrition or schools; it is that there happens to be a problem in a particular sector of the farming industry and the proposal is to use children to do something about it.

The Deputy Presiding Officer: Order. Interventions should be brief. I erroneously said that I would call the Minister to wind up; the Minister will speak and a Plaid Cymru speaker will wind up. We are very short of time and not everyone will be able to speak; this debate must finish in about 45 minutes. I ask Members to make succinct speeches where possible.

Rhodri Glyn Thomas: The intervention was longer than the beginning of my speech, although it was pretty vacuous. Perhaps you

ddechrau i bwynt Huw Lewis, a chyfeiriaf at rai adroddiadau fel y gall ddeall manteision bwyd maethlon, lleol a brynir yn ffres, a'i fanteision i blant a phobl ifanc. Os ystyriwch 'Relocalising the Food Chain: the Role of Creative Public Procurement', adroddiad a ysgrifennwyd gan Kevin Morgan ac Adrian Morley o Brifysgol Caerdydd, dewch i ddechrau deall pa mor bwysig ydyw inni gynhyrchu bwydydd ffres a maethlon. Cyfeiriaf ef hefyd at adroddiad gan Brifysgol Manceinion, 'An Economic Review of Farming Changes in England and Wales Dairy Farming Since 2002/03', adroddiad sy'n rhagweld y bydd prinder o 1 biliwn litr o laeth yn y DU erbyn 2007-08. Tybiaf fod Huw ymysg y lobi o bobl a ddywedodd 'Gadewch inni gael gwared â'n sylfaen gweithgynhyrchu a dibynnu ar fewnforion, oherwydd nid oes arnom angen gweithgynhyrchu cynhyrchion yng Nghymru mewn gwirionedd'.

Huw Lewis: Mae hyn yn dod yn fwyfwy tebyg i economeg y gorlan chwarae. Nid yw'r adroddiadau a grybwyllwyd gennych yn sylfaen dystiolaeth o fath yn y byd sy'n rhoi prawf ynghylch budd llaeth fel maeth yn hytrach na dim arall. Beth am ffrwythau neu fara ffres? Pam na chymerwch olwg ar safon ardderchog y gwreiddlysiau a dyfir yng Nghymru? Yr wyf yn gefnogol iawn i ystyried cynhyrchu yn lleol, ond nid plant, maeth nac ysgolion yw'r man cychwyn ar gyfer y gwelliant hwn; y man cychwyn yw bod problem, fel y mae'n digwydd, mewn sector penodol o'r diwydiant ffermio a'r cynnig yw defnyddio plant i wneud rhywbeth am y peth.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dylai ymyriadau fod yn fyr. Dywedais drwy amryfusedd y byddwn yn galw ar y Gweinidog i ddirwyn i ben; bydd y Gweinidog yn siarad ac yna bydd llefarydd Plaid Cymru yn dirwyn i ben. Yr ydym yn brin iawn o amser ac ni fydd pawb yn gallu siarad; rhaid i'r ddadl hon ddod i ben ymhen tua 45 munud. Gofynnaf i'r Aelodau wneud areithiau cryno pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Rhodri Glyn Thomas: Yr oedd yr ymyriad yn hwy na dechrau fy araith, er ei fod yn eithaf difeddwl. Efallai y dylech ddarllen yr

should read the reports, Huw; that would help you. Fruit and vegetables are fine; the only thing that you have a problem with is milk, and perhaps that is because milk is produced by farmers. Of course, you decided to ignore the fact that there would be a shortfall in the produce; that does not seem to bother you.

4.00 p.m.

Let us look at the facts of what has happened. I listened carefully to what Karen Sinclair had to say in terms of the support that has been offered by the Government of Wales to dairy farmers over the years. Why then have we been losing 120 dairy units every year since the Assembly was established? Why is that happening? Why are we losing capacity within the dairy industry? If all these things have been put in place by the Government, why is this happening? All we are asking—

Karen Sinclair: Rhodri, what I actually said was that while there were less people involved in the dairy industry—and we all know and accept that people move around and make commercial decisions within the farming industry—and that there are less people involved in the production of milk, the milk yield has not dropped.

Rhodri Glyn Thomas: The fact of the matter is—and the Minister keeps saying this—that if you want to make the best use of a product, you have to add value to it. Therefore, when you consider the south-west Wales milk field, which is one of the most important milk fields in Wales, why is it that we have lost the processing capacity? Why has the Government of Wales not addressed that particular issue to ensure that we can continue to produce that high-quality milk, add value to it and ensure that producers and processors in Wales are able to make a profit and remain in business? All we are asking for from the Government of Wales is some support for this industry. Otherwise, we will see it decline, as has happened with every other producing sector under a Labour Government.

adroddiadau, Huw; byddai hynny'n eich helpu. Mae ffrwythau a llysiau'n iawn; yr unig beth sy'n peri problem ichi yw llaeth, ac efallai fod hynny oherwydd bod llaeth yn cael ei gynhyrchu gan ffermwyr. Wrth gwrs, penderfynasoch anwybyddu'r ffaith y byddai diffyg o ran y cynnyrch; nid yw hynny fel pe bai'n eich poeni.

Gadewch inni edrych ar y ffeithiau o ran yr hyn sydd wedi digwydd. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd gan Karen Sinclair i'w ddweud o ran y gefnogaeth sydd wedi ei chynnig gan Lywodraeth Cymru i ffermwyr llaeth dros y blynyddoedd. Pam felly yr ydym wedi bod yn colli 120 o unedau llaeth bob blwyddyn ers sefydlu'r Cynulliad? Pam mae hyn yn digwydd? Pam yr ydym yn colli capasiti yn y diwydiant llaeth? Os yw'r holl bethau hyn wedi eu gwneud gan y Llywodraeth, pam mae hyn yn digwydd? Y cyfan yr ydym yn gofyn amdano—

Karen Sinclair: Rhodri, yr hyn a ddywedais mewn gwirionedd oedd er bod llai o bobl yn ymwneud â'r diwydiant llaeth—ac mae pob un ohonom yn gwybod ac yn derbyn bod pobl yn symud o gwmpas ac yn gwneud penderfyniadau masnachol yn y diwydiant ffermio—a bod llai o bobl yn ymwneud â chynhyrchu llaeth, nid oes llai o laeth yn cael ei gynhyrchu.

Rhodri Glyn Thomas: Y gwir amdani yw—ac mae'r Gweinidog yn dweud hyn o hyd—os oes arnoch eisiau gwneud y defnydd gorau o gynnyrch, fod rhaid ichi ychwanegu gwerth ato. Felly, pan fyddwch yn ystyried maes llaeth y de-orllewin, sy'n un o'r meysydd llaeth pwysicaf yng Nghymru, pam yr ydym wedi colli'r capasiti prosesu? Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i'r mater penodol hwnnw er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynhyrchu'r llaeth hwnnw sydd o safon uchel, yn ychwanegu gwerth ato ac yn sicrhau bod cynhyrchwyr a phroseswyr yng Nghymru'n gallu gwneud elw a pharhau mewn busnes? Y cyfan yr ydym yn gofyn amdano gan Lywodraeth Cymru yw rhywfaint o gefnogaeth i'r diwydiant hwn. Fel arall, byddwn yn ei weld yn dirywio, fel sydd wedi digwydd gyda phob sector cynhyrchu arall dan Lywodraeth Lafur.

Glyn Davies: We will support the motion before us today, but we have to accept that it is not possible for the National Assembly to have a direct effect on milk prices. I congratulate Plaid Cymru on proposing this motion, mainly because, at a time when so many in the dairy sector are in serious financial trouble, it is important that we raise the issue on the floor of the National Assembly. It is also particularly important in the context of the probable closure of the Dairygold factory in Ceredigion.

I want to comment briefly on the Dairygold announcement by saying that, although I am hugely concerned about it, the Minister's response to date has been the one that I wanted to hear. Working with the company to see if we can salvage something is the first step, and trying to find someone to take it over is the next. I specifically want to comment on the previous financial support for this company, because there has been some criticism of it, which I think is misplaced. If we seek to drive risk-averse attitudes completely out of the way in which we invest in private sector companies, all of our money will go to Cardiff or the M4 area. Things will sometimes go wrong if we invest in jobs and companies like this, and it is right that we should do that; that investment was sensible.

I agree with much of what others have said and I am not going to repeat it. I do not want to see any farmer go out of business, but I can see no reason to think that the process of consolidation or of vertical integration that we have seen in the sector is not going to continue, particularly in the face of international competition, which is likely to increase rather than decrease over the next few years.

The position of the supermarkets is crucial to this whole debate, because they have become the major purchasers of milk product. I worry when I hear people simply condemning supermarkets. If there is a reference by the Office of Fair Trading to the Competition Commission, I hope that the relationship

Glyn Davies: Byddwn yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron heddiw, ond rhaid inni dderbyn nad yw'n bosibl i'r Cynulliad Cenedlaethol gael effaith uniongyrchol ar bris llaeth. Yr wyf yn llongyfarch Plaid Cymru am gynnig y cynnig hwn, yn bennaf gan ei bod yn bwysig, ar adeg pan fo cynifer yn y sector llaeth mewn trafferthion ariannol difrifol, ein bod yn codi'r mater ar lawr y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hefyd yn bwysig iawn yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd ffatri Dairygold yng Ngheredigion yn cau.

Hoffwn gyfeirio'n fyr at gyhoeddiad Dairygold drwy ddweud, er fy mod yn bryderus iawn yn ei gylch, mai'r ymateb a glywsom gan y Gweinidog hyd yn hyn oedd yr un yr oedd arnaf eisiau ei glywed. Gweithio gyda'r cwmni er mwyn gweld a allwn arbed rhywbeth yw'r cam cyntaf, a cheisio dod o hyd i rywun i gymryd drosodd yw'r cam nesaf. Hoffwn gyfeirio'n benodol at y cymorth ariannol a roddwyd i'r cwmni hwn yn y gorffennol, oherwydd bu rhywfaint o feirniadu ar hynny, a hynny ar gam yn fy marn i. Os ydym yn ceisio dileu agweddau gwrth risg yn gyfan gwbl o'r ffordd yr ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau sector preifat, bydd ein harian i gyd yn mynd i Gaerdydd neu ardal yr M4. Bydd pethau'n mynd o chwith weithiau os byddwn yn buddsoddi mewn swyddi a chwmnïau fel y rhain, ac mae'n iawn inni wneud hynny; yr oedd y buddsoddiad hwnnw'n un doeth.

Yr wyf yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedwyd gan bobl eraill ac nid wyf am ei ailadrodd. Nid oes arnaf eisiau gweld busnes dim un ffermwr yn mynd i'r wal, ond ni allaf weld dim rheswm dros gredu na fydd y broses o gyfuno neu o integreiddio fertigol yr ydym wedi'i gweld yn y sector yn parhau, yn enwedig yn wyneb cystadleuaeth ryngwladol, sy'n debygol o gynyddu yn hytrach na lleihau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae sefyllfa'r archfarchnadoedd yn dyngedfennol i'r ddadl hon, oherwydd hwy erbyn hyn yw prif brynwyr cynnyrch llaeth. Byddaf yn poeni pan glywaf bobl yn condemnio archfarchnadoedd yn llwyr. Os bydd cyfeirio gan y Swyddfa Masnachu Teg at y Comisiwn Cystadleuaeth, yr wyf yn

between the supermarkets and the suppliers is part of that reference, and that it is looked at. There are two sides to what has to happen. There has to be negotiation between the production side and the supermarkets, and there has to be compromise on both sides. The supermarkets have to accept that the production side has to make a profit. Being focused on buying the product as cheaply as possible will only destroy the industry and make it unstable. That is something that the supermarkets will understand. At the same time, the dairy sector has to accept that it must produce for the market, not produce up to its quota levels. It also has to come to long-term contract arrangements with the supermarkets. Not everyone will want this, but that is what we have to do if we are to have a safe and solid future for the milk industry. My final comment is that I believe that although things can look depressed at the moment—not every dairy farmer will survive—the efficiency and dynamism that exist in the Welsh and British dairy industries, particularly if there is a drive for securing the export market, will ensure that they have a successful future.

Jocelyn Davies: Some of you may recall a debate on the dairy industry that was held in the Assembly's early days, when the crisis that the dairy industry was entering was beginning to be recognised by most of us. In response to that debate, the Minister made continual references to the dairy action plan that had been published in 1999 by the Welsh Office. That action plan, we were told at the time, was supported and adopted by the Welsh Assembly Government—after all, Alun Michael was the Minister who had launched the plan at the Welsh Office and he was, by then, our First Secretary.

At that time, the Welsh Assembly Government was anticipating changes in the dairy industry by 2005. However, it has not developed a reviewed action plan, despite the fact that it promised one in 2003. In 1999, the Secretary for Agriculture and Rural Development told us that any further downturn in the sector would have serious

gobeithio y bydd y berthynas rhwng yr archfarchnadoedd a'r cyflenwyr yn rhan o hynny, a bod sylw'n cael ei roi i hynny. Mae dwy ochr i'r hyn y mae'n rhaid iddo ddigwydd. Rhaid cael cyd-drafod rhwng yr ochr gynhyrchu a'r archfarchnadoedd, a rhaid i'r ddwy ochr gyfaddawdu. Rhaid i'r archfarchnadoedd dderbyn bod rhaid i'r ochr gynhyrchu wneud elw. Bydd canolbwyntio ar brynu'r cynnyrch cyn rhated ag sy'n bosibl yn dinistrio'r diwydiant ac yn ei wneud yn ansefydlog. Mae hyn yn rhywbeth y bydd yr archfarchnadoedd yn ei ddeall. Yr un pryd, rhaid i'r sector llaeth dderbyn bod rhaid iddo gynhyrchu ar gyfer y farchnad, yn hytrach na chynhyrchu o fewn cwtâu. Rhaid iddo hefyd sefydlu trefniadau contract hirdymor gyda'r archfarchnadoedd. Nid yw hyn yn rhywbeth y bydd ar bawb eisiau ei weld, ond dyma beth y mae'n rhaid inni ei wneud os ydym am gael dyfodol diogel a chadarn i'r diwydiant llaeth. Fy sylw olaf yw fy mod yn credu, er y gall pethau ymddangos yn ddilewyrch ar hyn o bryd—ni fydd pob ffermwr llaeth yn dod drwyddi—y bydd yr effeithlonrwydd a'r egni sy'n bodoli yn niwydiannau llaeth Cymru a Phrydain, yn enwedig os bydd ymgyrch i gryfhau'r farchnad allforio, yn sicrhau bod ganddynt ddyfodol disglair.

Jocelyn Davies: Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio dadl ar y diwydiant llaeth a gynhaliwyd yn nyddiau cynnar y Cynulliad, pan oedd argyfwng y diwydiant llaeth yn dechrau cael ei gydnabod gan y rhan fwyaf ohonom. Mewn ymateb i'r ddadl honno, cyfeiriodd y Gweinidog dro ar ôl tro at y cynllun gweithredu llaeth a gyhoeddwyd yn 1999 gan y Swyddfa Gymreig. Yr oedd y cynllun gweithredu hwnnw, fel y dywedwyd wrthym ar y pryd, yn cael ei gefnogi a'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru—wedi'r cyfan, Alun Michael oedd y Gweinidog a oedd wedi lansio'r cynllun yn y Swyddfa Gymreig ac ef, erbyn hynny, oedd ein Prif Ysgrifennydd.

Yr adeg honno, yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhagweld newidiadau yn y diwydiant llaeth erbyn 2005. Fodd bynnag, nid yw wedi datblygu cynllun gweithredu sydd wedi ei adolygu, er iddi addo un yn 2003. Yn 1999, dywedodd yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wrthym y byddai unrhyw ddirywiad pellach

consequences for the local economy and the rural communities. She foresaw that the number of producers would fall, but the quantity of milk, per farm, would increase. The Government was wrong, as milk production is now at a seven-year low. This is because we have not only lost the small, less efficient herds, but the more profitable, larger herds. Therefore, one of the key planks of the action plan was based on a poor prediction of what was to happen.

On milk processing, we should note that the action plan set out a goal of maximising the performance of processors. The report also predicted that the total number of processors was not expected to change greatly, but that prediction was also misguided, as considerable consolidation has occurred in the processing sector. In fact, the Government told us that a central plank of the dairy action plan was to underpin and, if possible, to accelerate the trend of increasing production as a foundation for greater investment by the processing sector. We were also told that the Welsh Development Agency would have a specific responsibility for supporting the food processing sector in Wales. We often hear that added value is vital, but it is clear that our dairy sector is falling behind the rest of Europe in adding value to its product, and the trade deficit is continuing to increase.

It seems to me that the key goals of the Government's 1999 action plan have not materialised, and I ask the Minister if he feels that the industry will be in a better position in the next six years than it has been during the last six years. I will remind the current Minister of the promise made in 1999 to the dairy sector:

'extensive, practical and financial support coupled with our initiative in working with the industry to set an agenda for action to help it adapt and respond to change shows our commitment to help develop a viable and sustainable industry in Wales'.

yn y sector yn effeithio ar yr economi leol a'r cymunedau gwledig. Rhagwelai y byddai nifer y cynhyrchwyr yn gostwng, ond y byddai'r litrau o laeth a gynhyrchid, fesul fferm, yn cynyddu. Yr oedd y Llywodraeth yn anghywir, gan fod cynhyrchiant llaeth yn is yn awr nag y mae wedi bod ers saith mlynedd. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi colli nid yn unig y buchesi bach, llai effeithlon, ond hefyd y buchesi mawr mwy proffidiol. Felly, yr oedd un o gonglfeini'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar ragfynegiad gwael o'r hyn a fyddai'n digwydd.

O ran prosesu llaeth, dylem nodi bod y cynllun gweithredu wedi gosod nod o sicrhau cymaint o welliant ag a oedd yn bosibl ym mherfformiad proseswyr. Rhagwelai'r adroddiad na ddisgwylid llawer o newid yng nghyfanswm y proseswyr, ond yr oedd y rhagfynegiad hwnw hefyd yn anghywir, gan fod llawer iawn o gyfuno wedi digwydd yn y sector prosesu. Mewn gwirionedd, dywedodd y Llywodraeth wrthym mai un o gonglfeini'r cynllun gweithredu llaeth oedd cynnal a chyflymu, os yn bosibl, y duedd i gynyddu cynhyrchiant fel sylfaen ar gyfer rhagor o fuddsoddiad gan y sector prosesu. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai gan Awdurdod Datblygu Cymru gyfrifoldeb penodol dros roi cymorth i'r sector prosesu bwyd yng Nghymru. Clywn yn aml fod ychwanegu gwerth yn hanfodol, ond mae'n amlwg bod ein sector llaeth ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill Ewrop o ran ychwanegu gwerth at ei gynnyrch, ac mae'r diffyg o ran masnach yn dal i gynyddu.

Ymddengys i mi nad yw prif amcanion cynllun gweithredu'r Llywodraeth yn 1999 wedi eu gwireddu, a gofynnaf i'r Gweinidog a yw'n teimlo y bydd y diwydiant mewn sefyllfa well yn y chwe mlynedd nesaf nag y mae wedi bod yn ystod y chwe mlynedd diwethaf. Yr wyf am atgoffa'r Gweinidog presennol o'r addewid a wnaethpwyd yn 1999 i'r sector llaeth:

mae cymorth sylweddol, ymarferol ac ariannol ynghyd â'n blaengaredd, wrth weithio gyda'r diwydiant er mwyn llunio agenda ar gyfer gweithredu a fydd yn helpu'r diwydiant i addasu ac ymateb i newid, yn dangos ein hymrwymiad i helpu i ddatblygu

diwydiant hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru.

Is the Minister satisfied that the Government has kept its side of that bargain?

A yw'r Gweinidog yn sicr bod y Llywodraeth wedi cadw ei hochr hi i'r fargen honno?

Brynle Williams: I welcome the opportunity to support today's debate. I am not going to go through all the facts and figures because I am conscious of time, but there are several issues here that we are well aware that we cannot interfere in. We should be looking at trying to aid farmers in securing more long-term contracts for milk production; as it is now, they are normally on six-month contracts that do not give any stability to the industry, any more than to the processor. As my colleague, Glyn, has pointed out, we have to look at the piece in the middle—the processor and the end product. That price is far too much. We know what the producer gets and what the housewife pays, but we want to see total transparency on the piece in the middle. What is the point of the Welsh Assembly Government trying to promote environmental schemes and trying to keep people living in their communities, because, as the milk industry goes further into decline, we will see a distortion of agriculture and, eventually, land abandonment? I do not mean to frighten anybody, but this is a serious prospect. We must do something to address the problems of the milk industry. We cannot interfere, but perhaps we can look at guidance and, hopefully, once again, re-establish processing in Wales, without allowing those million litres of milk to leave Wales.

Brynle Williams: Yr wyf yn falch o gael cyfle i gefnogi'r ddadl heddiw. Nid wyf am fynd drwy'r holl ffeithiau a'r ffigurau gan fod amser yn brin, ond mae llawer o faterion yma y gwyddom yn iawn na allwn ymyrryd â hwy. Dylem fod yn edrych ar ffyrdd o helpu ffermwyr i gael contractau hirdymor ar gyfer cynhyrchu llaeth; contractau chwe mis ydynt fel rheol ar hyn o bryd, ac nid ydynt yn rhoi dim sefydlogrwydd i'r diwydiant nac i'r proseswyr. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Glyn, rhaid inni edrych ar y darn yn y canol—y proseswr a'r cynnyrch terfynol. Mae'r pris hwnnw'n llawer rhy uchel. Gwyddom faint y mae'r cynhyrchwr yn ei gael a faint y mae gwraig y tŷ'n ei dalu, ond mae arnom eisiau gweld tryloywder llwyr o ran y darn yn y canol. Pa ddiben i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio hybu cynlluniau amgylcheddol a cheisio galluogi pobl i ddal i fyw yn eu cymunedau, oherwydd, wrth i'r diwydiant llaeth ddirywio mwy a mwy, byddwn yn gweld amaethyddiaeth yn cael ei wyrdroi a phobl, yn y pen draw, yn cefnu ar y tir? Nid wyf yn bwriadu dychryn neb, ond mae'r rhagolygon yn ddifrifol. Rhaid inni wneud rhywbeth er mwyn rhoi sylw i broblemau'r diwydiant llaeth. Ni allwn ymyrryd, ond efallai y gallwn ystyried rhoi arweiniad a, gobeithio, ailddechrau prosesu yng Nghymru unwaith eto, heb adael i'r holl litrau hyn o laeth adael Cymru.

4.10 p.m.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): O ran sylwadau Elin, mae'r hyn sydd wedi digwydd gyda ffatri Dairygold yn ardal Felin-fach a Dyffryn Aeron yn drueni mawr. Er hynny, mae gobeithion ar gyfer dyfodol y ffatri, ac mae diddordeb o sawl cyfeiriad o ran pobl sydd am ei phrynu. Ymwelais â'r ffatri yr wythnos diwethaf, o flaen y camerâu, â rhwyd wallt am fy mhen, i siarad â'r gweithwyr ac â'r rheolwyr. Mae'n bwysig bod pobl yn gweld Gweinidogion yn ymweld â'r fath ffatrioedd i ddangos bod ganddynt

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): With regard to Elin's remarks, recent events at the Dairygold factory in the Felin-fach and Aeron valley area are a great shame. However, there are hopes for the future of the factory, and interest has been shown from several directions by people who want to buy it. I visited the factory last week, in front of the cameras, complete with hairnet on head, to speak with the workers and management. It is important for Ministers to visit such factories to demonstrate that they are

ddiddordeb yn y bobl hynny, ac mae'n bwysig hefyd i'r sefydliad.

Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad oes a wnelo'r broblem yn Felin-fach â phris llaeth, na'r diwydiant llaeth o gwbl, mewn ffordd, oherwydd ffatri bacio yw hon, a gall bacio unrhyw beth. Ar hyn o bryd, mae'r ffatri yn pacio caws, ond fe allai bacio *cornflakes* pe bai rhaid. Dyna a ddywedodd y rheolwyr wrthyf, a dyna sut ffatri ydyw. Mae'n wir dweud bod gormod o gapasiti yn y sector sy'n pacio caws, ond nid oes rhaid i'r ffatri bacio caws yn unig—mae sawl dewis ar gael i'r ffatri, ac, wrth gwrs, mae'r peiriannau sydd yno yn hollol newydd. Mae hynny'n golygu bod prynwyr posibl sydd â diddordeb yn y ffatri wedi dod i'r amlwg, ond cawn weld beth a ddigwydd yn y dyfodol. Credaf fod gobaith i'r safle, er bod gan y gweithwyr bryderon ar hyn o bryd.

Gan glymu pwyntiau Elin wrth rai Alun Ffred Jones, rhaid inni sylweddoli bod llawer o arian wedi mynd at helpu cwmnïau prosesu yng Nghymru yn ddiweddar, gan gynnwys Golden Vale, Haverfordwest Cheese Ltd, a Chalon Wen. Mae llawer o ffatrioedd a chwmnïau wedi cael cymorth gan y Llywodraeth, ac mae hynny wedi bod o gymorth i ehangu'r sector prosesu. Gwelsom golledion, er enghraifft, yn Llangadog, lle yr oedd problemau mawr gyda'r peiriannau, a oedd yn eithaf hen, ac yr oedd y ffatri yn colli llawer o arian. Nid yw hynny'n wir, hyd y deallaf, yn achos Felin-fach. Wrth gwrs, mae llwyddiannau megis Rachel's Dairy a Chwmni Caws Eryri yn dangos bod cryfder yn y sector prosesu, er ein bod yn colli ffatrioedd prosesu yn awr ac yn y man. Nid wyf yn ystyried Felin-fach yn ffatri prosesu llaeth, oherwydd, fel y dywedais, ffatri bacio ydyw.

Rhodri Glyn Thomas: Derbyniaf eich sylwadau am gapasiti prosesu. Mae nifer o fentrau prosesu cymharol fach wedi'u sefydlu, ond, o edrych ar y sector llaeth yn y de-orllewin, a wnewch chi dderbyn ein bod wedi colli'r cwmnïau prosesu mawr? Hendy-gwyn oedd gyntaf, wedyn Llangadog, a hwythau'n gallu prosesu llawer o laeth lleol. Nid yw'r capasiti hwnnw i brosesu

interested in the people there, and it is also important for the organisation.

However, it must be stressed that the problem at Felin-fach is completely unconnected to the price of milk, or to the milk industry, in a way, because it is a packaging factory, and it can package anything at all. At present, the factory packages cheese, but it could package cornflakes if needs be. That is what the managers told me, and that is the sort of factory it is. The fact of the matter is that there is overcapacity in the cheese-packing sector, but the factory is not confined to just packaging cheese—there are several options open to the factory, and, of course, its machinery is brand new. That means that potential buyers who are interested in the factory have come forward, but we will see what happens in future. I believe that there is hope, despite the workforce's current concerns.

To tie in Elin's points with those made by Alun Ffred Jones, we must realise that a significant amount of money has gone towards helping processing companies in Wales in recent years, including Golden Vale, Haverfordwest Cheese Ltd, and Calon Wen. Many factories and companies have received Government support, and that has been of great assistance in expanding the processing sector. We have seen losses, for example, in Llangadog, where there were serious problems with the machinery, which were pretty old, and the factory was losing a great deal of money. That is not the case, as I understand it, in relation to Felin-fach. Of course, successes such as Rachel's Dairy and the Snowdonia Cheese Company reflect the strength in the processing sector, even though we lose processing factories every now and then. I do not consider Felin-fach to be a milk-processing plant, because, as I said, it is a packing factory.

Rhodri Glyn Thomas: I accept your remarks about processing capacity. Several relatively small processing ventures have been established, but, with regard to the dairy sector in the south-west, will you accept that we have lost the major processing companies? Hendy-gwyn was first to go, and then Llangadog, both of which processed great amounts of local milk. That capacity to

llaeth yn bod bellach.

Carwyn Jones: O ran Hendy-gwyn, yr ydym yn siarad am ffatri a gaeodd dros 10 mlynedd yn ôl. Nid oedd marchnad i'w chynhyrchion, a oedd yn isel iawn eu gwerth, ac wedi i'r ffatri gau, nid oedd gobaith ei hailagor, yn bennaf oherwydd bod y peiriannau yn hen. Yr oedd problem yn Llangadog, ond yr wyf yn gobeithio y bydd dyfodol y safle yn sicrhau mwy o swyddi yn yr ardal. Yr oedd gan Llangadog broblemau strwythurol, hyd y deallaf, nad ydynt i'w cael yn Felin-fach. Dylid nodi bod y buddsoddiad a wnaed yn y cwmnïau bach yn y sector prosesu wedi bod yn sylweddol.

O ran costau cynhyrchu, mae'n rhaid derbyn bod ffermwyr yn Seland Newydd, er enghraifft, yn cynhyrchu llaeth am 6c y litr. Ni fyddwn byth yn gallu gwneud hynny yng Nghymru, ac yr ydym yn lwcus dros ben nad yw Seland Newydd yn gallu allforio llaeth i Gymru. Mae problem ynghylch costau cynhyrchu yng Nghymru. Er ein bod wedi colli pobl o'r diwydiant ers blynyddoedd, mae lefel y llaeth a gynhyrchir yn aros yr un fath, neu'n cynyddu yn achlysurol. Ar ôl clwy'r traed a'r genau, yr oedd yn beth od bod mwy o gynhyrchwyr wedi dod mewn i'r sector. Yr oedd hynny oherwydd bod prinder llaeth. Os oes prinder llaeth, bydd y pris yn cynyddu a bydd pobl yn dychwelyd i'r sector, neu byddant yn ehangu ar eu gwaith presennol. Os bydd prinder yn y dyfodol, bydd hynny'n digwydd yn anochel.

On some of the points made by other speakers, Glyn Davies's assessment was largely correct. It was difficult to find much to disagree with in his speech, given his experience.

In terms of Jocelyn Davies's comments, I believe that farming will be in a better position in six years' time, but it is a rocky road and it will still be difficult in the future. There is no point pretending that it will be a smooth ride towards providing a secure future for dairy farming in Wales. Nevertheless, we are going in the right direction, and a great deal of money has been invested and is available for investment in the future, in terms of assistance. There is interest out there from companies interested

process milk does not exist any more.

Carwyn Jones: With regard to Hendy-gwyn, we are talking about a factory that closed over 10 years ago. There was no market for its low-value products and, when the factory closed, there was no hope of reopening it, primarily because its machinery was extremely old. There was a problem with Llangadog, but, hopefully, the future of the site will secure more jobs in the area. Llangadog had structural problems, as I understand it, while Felin-fach does not. It should be noted that the investment that has been made in all the small companies in the processing sector has been significant.

With regard to production costs, we must accept that in New Zealand, for instance, farmers produce milk at a cost of 6p per litre. We could never achieve that in Wales, and we are lucky that New Zealand cannot export milk to Wales. There is a problem with the cost of production in Wales. Although we have lost people from the industry for many years, the level of milk produced has remained static, or has increased on occasion. After the foot and mouth disease outbreak, it was strange that more producers came into the sector. That was because there was a milk shortage. If there is a milk shortage, the price will increase and people will return to the sector, or they will expand on their current work. If there is a shortage in future, that will inevitably happen.

Ynghylch rhai o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan siaradwyr eraill, yr oedd asesiad Glyn Davies yn gywir gan mwyaf. Yr oedd yn anodd anghytuno â llawer o'i araith, o ystyried ei brofiad.

O ran sylwadau Jocelyn Davies, credaf y bydd amaethyddiaeth mewn gwell sefyllfa ymhen chwe mlynedd, ond mae'r llwybr yn un anodd a bydd yn anodd yn y dyfodol hefyd. Nid oes diben smalio y bydd yn hawdd sicrhau dyfodol sicr i ffermydd llaeth yng Nghymru. Er hynny, yr ydym yn mynd i'r cyfeiriad iawn, ac mae arian mawr wedi ei fuddsoddi ac mae arian mawr ar gael i'w fuddsoddi at y dyfodol, o ran cymorth. Mae diddordeb ymhlith cwmnïau sydd â diddordeb mewn prosesu, a gobeithiwn, yn

in processing, and we hope that, over the course of the next year, that will become apparent to Members.

Therefore, I cannot accept that the Government has done nothing. The processing and marketing grant has been very generous, and money was made available to Dairygold—some of which it took up, and some of which it did not. A great deal of work is going into looking at extending processing capacity in Wales. We cannot affect the price, because it is a commercial decision, but, in looking to increase capacity in the future, we hope that it means that more money remains in rural communities, because processing brings jobs.

On the Welsh Liberal Democrats' amendment, I am surprised that on a day when the budget has been discussed and general agreement has been reached on it, the Liberal Democrats have chosen to throw in something that will cost millions of pounds. I do not understand that—this was never part of the budget negotiations, and was never mentioned before. It was never put forward at the time that the Liberal Democrats were in Government. They talk about universality, and want all children in key stage 2 to have milk, regardless of their parents' income; they want the elderly to have free personal care, regardless of their income. However, when it comes to free prescriptions, they insist that they must be means-tested. When it comes to free school breakfasts, they say that they are wrong because they are aimed at everyone, and are too universal. You cannot have it both ways.

Mick Bates: You obviously have amnesia, as key stage 2 milk has been mentioned on many occasions, and I will continue to pursue this, because it fulfils our agreement about what sustainability entails. I accept that you cannot interfere commercially, but it seems to me that you are not even prepared to help establish justice in the milk market.

Carwyn Jones: I will come to that. The point is that it was not part of the coalition agreement—key stage 1 was. [*Interruption.*]

ystod y flwyddyn nesaf, y daw hynny'n amlwg i'r Aelodau.

Felly, ni allaf dderbyn nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud dim. Mae'r grant prosesu a marchnata wedi bod yn hael iawn, a chafodd Dairygold gyfle i gael arian—fe gymerodd beth ohono, ac ni chymerodd y gweddill. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud o ran edrych ar ehangu capasiti prosesu yng Nghymru. Ni allwn effeithio ar y pris, gan fod hwnnw'n benderfyniad masnachol, ond, o edrych ar gynyddu capasiti yn y dyfodol, gobeithiwn y bydd hynny'n golygu y bydd mwy o arian yn aros mewn cymunedau gwledig, oherwydd y mae prosesu'n dod â swyddi yn ei sgîl.

O ran gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yr wyf yn synnu, a ninnau wedi bod yn trafod y gyllideb heddiw ac wedi cytuno arni'n gyffredinol, fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dewis taflu rhywbeth i mewn a fydd yn costio miliynau o bunnoedd. Nid wyf yn deall hynny—ni fu hyn erioed yn rhan o'r cyd-drafod ar y gyllideb, ac ni soniwyd amdano o'r blaen. Nis cynigiwyd pan oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth. Soniant am roi i bawb, ac maent am roi llaeth i bob plentyn yng nghyfnod allweddol 2, ni waeth beth yw incwm y rhieni; maent am roi gofal personol am ddim i'r henoed, ni waeth beth yw eu hincwm. Fodd bynnag, o ran presgripsiynau am ddim, maent yn mynnu cael prawf moddion. O ran brecwast am ddim yn yr ysgolion, dywedant nad yw'n iawn am ei fod wedi ei anelu at bawb, a'i fod yn rhy gyffredinol. Ni allwch ei chael hi bob ffordd.

Mick Bates: Mae'n amlwg bod eich cof yn pallu, gan fod llaeth yng nghyfnod allweddol 2 wedi ei grybwyll ar sawl achlysur, a byddaf yn dal ati i roi sylw i hyn, am ei fod yn cyflawni'r cytundeb sydd gennym ynghylch yr hyn y mae cynaliadwyedd yn ei olygu. Yr wyf yn derbyn na allwch ymyrryd yn fasnachol, ond ymddengys nad ydych hyd yn oed yn fodlon helpu i sicrhau cyfiawnder yn y farchnad laeth.

Carwyn Jones: Dof at hynny. Y pwynt yw nad oedd yn rhan o gytundeb y glymblaid—yr oedd cyfnod allweddol 1. [*Ymyriad.*]

The Deputy Presiding Officer: Order.

Carwyn Jones: If this was to do with children's health, the amendment would have been tabled to a motion on health, and not to a motion that deals with economics. This motion is all about economics and it has nothing to do with health—there is no doubt about that. Will this help to increase the price of Welsh milk? It will not. Will it guarantee that Welsh milk is used in schools? Of course it will not.

As to the fair deal issue, I have said before that if there are people out there who wish to produce a brand that is more transparent in terms of the way that milk is produced, processed and sold, I am happy to support that. However, I ask you not to use the phrase 'fair deal', because it confuses the issue.

I see that Eleanor Burnham wishes to intervene.

The Deputy Presiding Officer: Order. There is no time; you need to finish.

Carwyn Jones: I will be guided by you, Dirprwy Lywydd.

There are countries out there whose dairy industries were destroyed by us and the European Commission—Jamaica is one. We seem to be completely blind to that, and those countries have little interest in what happens in Europe. 'Fair deal' refers to them. What you are talking about is a laudable aim, but do not use the phrase 'fair deal', because it confuses the issue in people's minds. You cannot compare it with what is happening to farmers who are starving elsewhere in the world.

As far as the Assembly Government is concerned, we believe that we have a good record, and we are in constant negotiations with processors who are looking to invest in Wales. We are constantly involved in trying to assist those processors with financial grants. We have a proud record, and I believe that farming will go from strength to strength.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Carwyn Jones: Petai a wnelo hyn ag iechyd plant, byddai'r gwelliant wedi ei gynnig ar gyfer cynnig ar iechyd, ac nid ar gyfer cynnig sy'n ymwneud ag economeg. Cynnig ynghylch economeg yw hwn ac nid oes a wnelo ddim ag iechyd—mae hynny'n ddiamau. A fydd hyn yn helpu i godi pris llaeth Cymru? Na fydd. A fydd yn sicrhau bod llaeth Cymru'n cael ei ddefnyddio yn yr ysgolion? Na fydd wrth gwrs.

O ran mater bargaen deg, dywedais o'r blaen os oes rhywun am gynhyrchu brand sy'n fwy tryloyw o ran y modd y caiff llaeth ei gynhyrchu, ei brosesu a'i werthu, fy mod yn fodlon cefnogi hynny. Fodd bynnag, gofynnaf i chi beidio â defnyddio'r geiriau 'bargaen deg', oherwydd bod hynny'n drysu pethau.

Gwelaf fod Eleanor Burnham am ymyrryd.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid oes amser; mae angen i chi orffen.

Carwyn Jones: Dilynaf eich cyfarwyddyd, Ddirprwy Lywydd.

Mae gwledydd i'w cael y cafodd eu diwydiannau llaeth eu dinistrio gennym ni a'r Comisiwn Ewropeaidd—mae Jamaica yn eu plith. Ymddengys na allwn weld hynny, ac nid oes gan y gwledydd hynny fawr o ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yn Ewrop. Atynt hwy y mae'r 'fargaen deg' yn cyfeirio. Mae'r hyn yr ydych chi'n sôn amdano'n nod canmoladwy, ond peidiwch â defnyddio'r geiriau 'bargaen deg', gan fod hynny'n drysu'r sefyllfa ym meddyliau pobl. Ni allwch gymharu hynny â'r hyn sy'n digwydd i ffermwyr sy'n llwgu mewn rhannau eraill o'r byd.

O ran Llywodraeth y Cynulliad, credwn fod gennym record dda, a byddwn yn cyd-drafod yn gyson â phroseswyr sydd am fuddsoddi yng Nghymru. Byddwn wastad yn ceisio cynorthwyo'r proseswyr hynny gyda grantiau ariannol. Mae gennym record anrhydeddus, a chredaf yr aiff amaethyddiaeth o nerth i nerth. Bu inni gyhoeddi'r newyddion da

We announced the good news today about payments, which I am sure that farmers will welcome, and they will also welcome what this Government is doing in terms of delivering, rather than just talking.

4.20 p.m.

Helen Mary Jones: I thank all those who have participated in this debate, which has, on the whole, been constructive and positive, with the usual notable exceptions.

Elin Jones set out a clear case on the current state of the industry: almost 400 businesses have been lost since 2003. I also join her in congratulating the Farmers Union of Wales.

I cannot respond to every comment that was made in the time that is available, but I need to respond to a few specific points. I understand and support the intentions behind Mick Bates's amendment, but I share some of the Minister's concerns about the potential cost at this stage of introducing free school milk at key stage 2. I am not saying that it should not be considered for the future, but more thought needs to be given to clearly demonstrating that it would be of health value, as I firmly believe that it would be, and to considering the costs and where funding might come from.

There is a need to work on a Welsh brand of milk. However, we need to distinguish between that and the established fair trade brand for countries in the developing world. There is a real difference. I believe that we could develop a brand of Welsh milk that could be marketed for its contribution to maintaining the Welsh economy, but that is not fair trade, Mick Bates, in the context of the developing world. I agree with what the Minister said on that. In that context, we will abstain on the amendments, not because we do not agree with the ideas behind them, but because we think that they need more work. The Minister could perhaps look at these ideas in terms of a new, comprehensive dairy action plan, if he is proposing to adopt the one that Jocelyn Davies reminded us has not been looked at since 1999—if, of course, that is a priority for him.

heddiw ynghylch y taliadau, ac yr wyf yn sicr y bydd ffermwyr yn croesawu hynny, a byddant hefyd yn croesawu'r hyn y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud o ran cyflawni, yn hytrach na siarad yn unig.

Helen Mary Jones: Diolchaf i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddatl hon, sydd, at ei gilydd, wedi bod yn adeiladol a chadarnhaol, gyda'r eithriadau nodedig arferol.

Cyflwynodd Elin Jones achos clir o ran cyflwr y diwydiant heddiw: collwyd bron 400 o fusnesau ers 2003. Ymunaf â hi hefyd i longyfarch Undeb Amaethwyr Cymru.

Ni allaf ymateb i bob sylw a wnaethpwyd yn yr amser sydd ar gael, ond rhaid imi ymateb i rai pwyntiau penodol. Yr wyf yn deall gwelliant Mick Bates a chefnogaf y bwriadau sy'n sail iddo, ond rhannaf rai o bryderon y Gweinidog ynghylch y gost bosibl ar hyn o bryd wrth gyflwyno llaeth am ddim yn yr ysgolion yng nghyfnod allweddol 2. Nid dweud yr wyf na ddylid ystyried hynny at y dyfodol, ond mae angen meddwl yn fwy gofalus o ran dangos yn glir y byddai'n fanteisiol i iechyd, fel y credaf yn sicr y byddai, ac o ran ystyried y costau ac o ble y deuai'r cyllid.

Mae angen gweithio ar frand llaeth i Gymru. Fodd bynnag, mae angen gwahaniaethu rhwng hynny a'r brand masnach deg sefydledig sy'n perthyn i wledydd y byd sy'n datblygu. Mae gwahaniaeth gwirioneddol. Credaf y gallem ddatblygu brand llaeth i Gymru y gellid ei farchnata oherwydd ei gyfraniad at gynnal economi Cymru, ond nid masnach deg yw hynny, Mick Bates, yng nghyd-destun y byd sy'n datblygu. Cytunaf â'r hyn a ddywedodd y Gweinidog ynghylch hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, byddwn yn ymatal ar y gwelliannau, nid am ein bod yn anghytuno â'r syniadau sy'n sail iddynt, ond am ein bod yn credu bod angen rhagor o waith arnynt. Efallai y gallai'r Gweinidog edrych ar y syniadau hyn yn nhermau cynllun gweithredu cynhwysfawr, newydd ar gyfer llaeth, os yw'n cynnig mabwysiadu'r un y bu i Jocelyn Davies ein hatgoffa nad oes neb wedi edrych arno ers 1999—os yw hynny'n flaenoriaeth iddo, wrth gwrs.

I emphasise the points that Alun Ffred Jones made about the need to target economic development at areas beyond the M4 and A55 corridors, and that there is potential for our milk industry, but that the Government needs to take a much more concerted and joined-up approach to maximise that potential.

I welcome Karen Sinclair's acknowledgement of the problem. No-one, Karen, is saying that the Government has done nothing. Our concern is around how integrated, consistent and effective the Government action has been. As to her reference to subsidies, it would help if she read the motion, instead of writing her speech on the basis of an assumption of what she might find there. Our motion makes no reference to subsidies.

Karen Sinclair: If you had listened to what I said, you would know that I was responding to a question that Eleanor raised. Therefore, it is not a question of my not reading the motion; I was responding to a point that was raised during the debate. You were obviously not listening, because you did not contextualise it.

Helen Mary Jones: The record will show which one of us was paying attention, but there is no need to go into that in detail.

I need to pick up the point about subsidy, however, because it is an example of a matter on which the Labour Party speaks with at least two voices. Will the Minister tell us at some point—although he will not have the opportunity today, thank goodness—whether he believes that subsidies are always unacceptable, full stop, as some of his colleagues clearly do, which is an honourable position, although clearly barking, or whether he believes that there is a case for subsidy, particularly in the short term? It would be helpful to the rural community to find out where the Labour Party in Wales and beyond stands on that.

I would like to respond to many other points,

Yr wyf yn pwysleisio'r pwyntiau a wnaeth Alun Ffred Jones am yr angen i dargedu datblygu economaidd yn yr ardaloedd sydd y tu hwnt i goridorau'r M4 a'r A55, a bod potensial i'r diwydiant llaeth, ond bod angen i'r Llywodraeth feithrin agwedd sy'n llawer mwy egniol a chydlynol er mwyn gwneud y gorau o'r potensial hwnnw.

Yr wyf yn falch o glywed cydnabyddiaeth o'r broblem gan Karen Sinclair. Nid oes neb, Karen, yn dweud nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud dim byd. Pryderu yr ydym ynglŷn â pha mor integredig, pa mor gyson a pha mor effeithiol y mae'r gweithredu o du'r Llywodraeth wedi bod. O ran ei chyfeiriad at gymorthdaliadau, byddai'n helpu petai'n darllen y cynnig, yn hytrach nag ysgrifennu ei haraith ar sail tybiaeth ynghylch yr hyn y gallai ei weld ynddo. Nid yw ein cynnig yn sôn dim am gymorthdaliadau.

Karen Sinclair: Petaech wedi gwrandao ar yr hyn a ddywedais, byddech yn gwybod mai ymateb yr oeddwn i gwestiynau a ofynnwyd gan Eleanor. Felly, nid yr hyn sydd wedi digwydd yw fy mod heb ddarllen y cynnig; ymateb yr oeddwn i bwynt a godwyd yn ystod y ddadl. Mae'n amlwg nad oeddech yn gwrandao, oherwydd ni roesoch hynny yn ei gyd-destun.

Helen Mary Jones: Bydd y cofnod yn dangos pa un ohonom oedd yn cymryd sylw, ond nid oes angen manylu am hynny.

Rhaid imi gyfeirio at y pwynt ynghylch cymhorthdal, fodd bynnag, oherwydd ei fod yn enghraifft o fater y mae'r Blaid Lafur yn siarad amdano gydag o leiaf dau lais. A yw'r Gweinidog am ddweud wrthym rywbyrd—er na chaiff gyfle heddiw, diolch byth—a yw'n credu bod cymorthdaliadau wastad yn annerbyniol, a dyna hi, fel y mae rhai o'i gyd-Aelodau yn amlwg yn gwneud, sy'n safbwynt anrhydeddus, er yn amlwg yn ffôl, neu a yw'n credu bod achos dros gymhorthdal, yn enwedig yn y tymor byr? Byddai'n help i'r gymuned wledig gael gwybod lle y mae'r Blaid Lafur yng Nghymru ac mewn lleoedd eraill yn sefyll ar y mater hwnnw.

Hoffwn ymateb i nifer o bwyntiau eraill, ond

but there is not time. I need to refer to the Minister's response. If we are talking about a cheese packing factory, surely that has something to do with the dairy industry, because it is a dairy product that is being packed. I was slightly at a loss with the Minister's comment on that. Nobody is saying that the Government has done nothing, but, following the Minister's response to this debate, I was not left with the sense that he understands the scale or seriousness of the problem. He did not respond to some of the most important points. He had great fun responding to Mick Bates, but he did not, for example, respond to Jocelyn Davies's pertinent points about the need to revise the dairy action plan—

Carwyn Jones: Will you give way?

Helen Mary Jones: Yes, Minister. Perhaps you could give us your views on subsidies while you are at it.

Carwyn Jones: The dairy action plan will be revised in the new year; it is under consideration, and the agri-food partnership is involved in that.

Helen Mary Jones: That is good stuff; perhaps you could have used the time in your own contribution to tell us that, though, rather than using up mine.

The Minister needs to be a lot stronger on the detail—and I am sure that we will scrutinise the new action plan in great detail—and a little less strong on the bluster. We all know that he is very good at that, but it does not solve anything, does it?

The dairy industry has a vital role to play in our rural economy, and we need a concerted joined-up approach, looking at the processing—and packaging, indeed—as well as primary production. I urge the Government to give priority to protecting and developing the dairy industry in Wales. That is all that we are asking for.

nid oes amser. Mae angen imi gyfeirio at ymateb y Gweinidog. Os ydym yn sôn am ffatri pecynnu caws, yn ddi-os mae a wnelo hynny â'r diwydiant llaeth, gan mai cynnyrch llaeth sy'n cael ei becynnu. Ni allwn ddeall sylw'r Gweinidog am hynny'n iawn. Nid oes neb yn dweud nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud dim, ond, ar ôl ymateb y Gweinidog i'r ddadl hon, ni chefais y teimlad ei fod yn deall maint na difrifoldeb y broblem. Nid ymatebodd i rai o'r pwyntiau pwysicaf. Cafodd lawer iawn o hwyl wrth ymateb i Mick Bates, ond nid ymatebodd, er enghraifft, i bwyntiau perthnasol Jocelyn Davies ynghylch yr angen i adolygu'r cynllun gweithredu llaeth—

Carwyn Jones: A wnewch ildio?

Helen Mary Jones: Gwnaf, Weinidog. Efallai y carech roi eich barn ynghylch cymorthdaliadau tra boch wrthi.

Carwyn Jones: Caiff y cynllun gweithredu llaeth ei adolygu yn y flwyddyn newydd; mae'n cael ei ystyried ac mae'r bartneriaeth bwyd-amaeth yn rhan o hynny.

Helen Mary Jones: Da iawn; er efallai y gallasech ddefnyddio'r amser yn ystod eich cyfraniad chi eich hun i ddweud hynny wrthym, yn hytrach na defnyddio fy amser i.

Mae angen i'r Gweinidog fwrw ati i gynnig llawer mwy o fanylion—ac yr wyf yn siŵr y byddwn yn craffu'n fanwl iawn ar y cynllun gweithredu newydd—a rhoi llai o sylw i frygowthan. Gŵyr pawb ei fod yn dda iawn am wneud hynny, ond nid yw hynny'n datrys dim byd, nac ydyw?

Mae gan y diwydiant llaeth ran allweddol i'w chwarae yn ein heconomi wledig, ac mae angen agwedd egniol a chydlynol, gan edrych ar y prosesu—a'r pecynnu, yn wir—yn ogystal â'r cynhyrchu cynradd. Yr wyf yn annog y Llywodraeth i roi blaenoriaeth i ddiogelu a datblygu'r diwydiant llaeth yng Nghymru. Dyna'r cyfan yr ydym yn gofyn amdano.

*Gwelliant 1: O blaid 6, Ymatal 19, Yn erbyn 29.
Amendment 1: For 6, Abstain 19, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
German, Michael
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Melding, David
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Cynnig (NDM2702): O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Motion (NDM2702): For 25, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton

Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Cairns, Alun
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Melding, David
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y cynnig.
 Motion defeated.*

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Gweithgor Gofal Plant The Welsh Assembly Government's Response to the Childcare Working Group

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2, 3, 4, and 5 in the name of Kirsty Williams, and amendment 6 in the name of David Melding.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Kirsty Williams, a gwelliant 6 yn enw David Melding.

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): I propose that

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. notes the childcare strategy 'Childcare is for Children'; the Welsh Assembly Government's response to the childcare working group.

1. yn nodi'r strategaeth gofal plant 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant'; ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r gweithgor gofal plant.

2. endorses the aim of the strategy in expanding quality childcare provision in Wales. (NDM2703)

2. yn cymeradwyo nod y strategaeth o ehangu darpariaeth gofal plant o safon yng Nghymru. (NDM2703)

I am pleased to present to the Assembly the childcare strategy 'Childcare is for Children'.

Yr wyf yn falch o gyflwyno'r strategaeth gofal plant 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant' i'r Cynulliad.

Canodd y larwm tân am 4.27 p.m.

The fire alarm sounded at 4.27 p.m.

The Deputy Presiding Officer: We will adjourn until the all-clear has been given.

Y Dirprwy Lywydd: Gohiriwn y cyfarfod nes byddwn wedi cael sicrwydd bod popeth yn ddiogel.

*Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 4.27 p.m. a 4.39 p.m.
The meeting adjourned between 4.27 p.m. and 4.39 p.m.*

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): I am pleased to present to the Assembly the forward childcare strategy, 'Childcare is for Children'. It encompasses a wide range of Assembly Government policy issues across ministerial boundaries.

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Yr wyf yn falch o gyflwyno'r flaenstrategaeth gofal plant, 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant', i'r Cynulliad. Mae'n cwmpasu ystod eang o faterion polisi Llywodraeth y Cynulliad ar draws ffiniau gweinidogol.

In 2004, the Assembly Government formed a new childcare working group, chaired by Dr Brian Gibbons, to build on the principles of the 2002 childcare action plan. The group provided an excellent final report with 77 recommendations, which underlie this strategy. As with the 2002 childcare action plan, this strategy sees the objective of children's development as paramount, not least because investment in childcare can deliver significant long-term returns to society. When children are cared for outside their immediate family, it must be a safe, rewarding and enriching experience, as well as being accessible to all our children in Wales.

Yn 2004, ffurfiodd Llywodraeth y Cynulliad weithgor gofal plant newydd, o dan gadeiryddiaeth Dr Brian Gibbons, i adeiladu ar egwyddorion cynllun gweithredu gofal plant 2002. Darparodd y grŵp adroddiad terfynol rhagorol gyda 77 o argymhellion, sy'n sylfaen i'r strategaeth hon. Megis gyda chynllun gweithredu gofal plant 2002, mae'r strategaeth hon yn ystyried bod y nod o ddatblygu gofal plant yn dyngedfennol bwysig, i raddau helaeth am fod buddsoddi mewn gofal plant yn gallu dod â manteision sylweddol i gymdeithas yn y tymor hir. Pan fydd plant yn cael gofal y tu allan i'w teulu agos, rhaid i'r profiad fod yn un diogel a gwerth chweil sy'n eu cyfoethogi, yn ogystal â bod o fewn cyrraedd holl blant Cymru.

4.40 p.m.

Through the £46 million Flying Start initiative, we intend to put substantial extra funding into care for children from birth to three years of age in the most deprived communities in Wales. This recognises the evidence that shows that children in areas of multiple deprivation suffer additional effects of disadvantage. The central objective will be to assist children in preparation for school, and to improve their long-term outcomes.

Drwy'r fenter sy'n werth £6 miliwn, Dechrau'n Deg, bwriadwn neilltuo arian ychwanegol sylweddol ar gyfer gofal i blant o'u genedigaeth nes eu bod yn dair oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae hyn yn cydnabod y dystiolaeth sy'n dangos bod plant mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog yn dioddef effeithiau ychwanegol oherwydd anfantais. Yr amcan canolog fydd helpu plant i baratoi ar gyfer yr ysgol, a gwella eu canlyniadau yn y tymor hir.

The potential benefits of focusing on the youngest children will last well into adulthood. In the long term, we aim to improve qualifications at the end of schooling and increase levels of employment and

Bydd manteision posibl canolbwyntio ar y plant ieuengaf yn para nes iddynt dyfu'n oedolion. Yn y tymor hir, ein nod yw gwella cymwysterau ar ddiwedd y cyfnod addysg yn yr ysgol a chynyddu lefelau cyflogaeth ac

earnings. The initiative should also contribute to reducing rates of criminal behaviour, truancy and drug use. A public consultation on our proposals has just started.

Our work in childcare and early years is part of a continuum of action for the whole of childhood. The foundation phase will bring a coherent philosophy of learning through play for those aged between three and seven. We will be extending the foundation phase pilots into areas served by Flying Start, so that children there will benefit from consistent support from the age of two.

We must also support children outside school hours, with good quality out-of-school childcare, opportunities to play and further family support to prevent children getting into difficulties. The New Opportunities Fund commitment of £14.3 million has created more than 24,000 out-of-school childcare places. Up to £2 million will be available from its successor, the Big Lottery Fund, to support the sustainability and workforce development of out-of-school childcare provision. The Assembly Government continues to work with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs to support the development of out-of-school childcare clubs. I am pleased to announce that CPCKC has been awarded Objective 1 funding of £3.7 million to increase affordable, quality childcare provision. That complements the £12.5 million available under the Genesis Wales project.

We are working on a national strategy for play with Play Wales, which recognises that play and leisure are among the rights of the child in the United Nation convention. Within the new childcare strategy, we will begin a review of how play, out-of-school childcare and after-hours learning, for children aged seven and over, fit together.

I am particularly keen to see schools develop their community focus, as bases for locally delivered childcare, family support, health services, youth services and adult education,

enillion. Dylai'r cynllun gyfrannu hefyd tuag at leihau cyfraddau ymddygiad troseddol, triwantiaeth a defnyddio cyffuriau. Mae ymgynghoriad cyhoeddus newydd ddechrau ar ein cynigion.

Mae ein gwaith ar ofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn rhan o gontinwwm o weithredu ar gyfer plentynod ar ei hyd. Bydd y cyfnod sylfaen yn dod ag athroniaeth gydlynol o ddysgu drwy chwarae ar gyfer y rhai sydd rhwng tair a saith oed. Byddwn yn ymestyn cynlluniau peilot y cyfnod sylfaen i ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan Dechrau'n Deg, fel y bydd plant yno yn elwa o gefnogaeth gyson o'r adeg y maent yn ddwyflwydd oed.

Rhaid inni hefyd roi cymorth i blant y tu allan i oriau ysgol, gyda gofal plant y tu allan i'r ysgol o safon dda, cyfleoedd i chwarae a chymorth pellach i deuluoedd i atal plant rhag mynd i anawsterau. Mae'r £14.3 o ymrwymiad gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi creu mwy na 24,000 o leoedd gofal plant y tu allan i'r ysgol. Bydd hyd at £2 filiwn ar gael gan ei holynydd, y Gronfa Loteri Fawr, i gynorthwyo cynaliadwyedd a'r gwaith o ddatblygu gweithlu'r ddarpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dal i weithio gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i helpu i ddatblygu clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol. Yr wyf yn falch o gyhoeddi bod £3.7 miliwn o arian Amcan 1 wedi cael ei ddyfarnu i CPCKC i gynyddu darpariaeth gofal plant o safon, fforddiadwy. Mae hynny'n ychwanegol at y £12.5 miliwn sydd ar gael o dan brosiect Genesis Cymru.

Yr ydym yn gweithio ar strategaeth chwarae genedlaethol gyda Chwarae Cymru, sy'n cydnabod bod chwarae a hamdden ymysg hawliau'r plentyn yng nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. O fewn y strategaeth gofal plant newydd, byddwn yn dechrau ar adolygiad o'r modd y mae chwarae, gofal plant y tu allan i'r ysgol a dysgu ar ôl oriau'r ysgol, i blant saith oed a throsodd, yn cydfynd â'i gilydd.

Yr wyf yn arbennig o awyddus i weld ysgolion yn datblygu eu ffocws cymunedol, fel canolfannau i ofal plant, cefnogi teuluoedd, gwasanaethau iechyd,

and to see them act as a delivery point for provision to those with specialist needs. We have an additional £3 million a year in the budget for that.

Community-focused schools and integrated centres bring together the Assembly Government's objective to extend free pre-school education with its wider social objectives for children. Developments such as these require shared commitment, to build on and strengthen partnership working across agencies and sectors. They also require us to listen and respond to the views of children, parents and families. It is here that we intend that the Childcare Bill, which passed its Second Reading at Westminster last night, will have a major impact. We will take advantage of this Bill to introduce a new duty on local authorities in Wales to secure sufficient childcare in their areas from April 2008.

The aim of the new duty will be to enable local authorities and their partners to respond to parents' need for affordable childcare and easy access to information on children's services, which will reflect local needs and circumstances.

'Childcare is for Children' recognises how childcare can help business, and how childcare businesses need support. The strategy highlights the support available. For example, from April 2002, the National Childminding Association worked with the Welsh Development Agency, not only to halt the decline in childminder numbers, which was the trend since 1999, but to demonstrate the increase from October 2004.

The strategy recognises the importance of the childcare workforce. It confirms that funds for childcare are increasing, and that we have a long-term vision for the funding of children's programmes, including childcare. Cymorth funds are being substantially increased, and will be invested locally in childcare and children's information services, together with investment from the big programmes, Genesis Wales and Flying Start, to take forward the actions in the strategy.

gwasanaethau ieuencid ac addysg oedolion sy'n cael eu darparu'n lleol, ac i'w gweld yn gweithredu fel man cyflwyno darpariaeth i'r rhai sydd ag anghenion arbenigol. Mae gennym £3 miliwn ychwanegol y flwyddyn yn y gyllideb ar gyfer hynny.

Mae ysgolion bro a chanolfannau integredig yn tynnu ynghyd amcan Llywodraeth y Cynulliad o ehangu addysg cyn-ysgol am ddim a'i hamcanion cymdeithasol ehangach i blant. Mae datblygiadau fel hyn yn gofyn ymrwymiad ar y cyd, i ddatblygu a chryfhau gweithio drwy bartneriaeth ar draws asiantaethau a sectorau. Maent hefyd yn golygu bod rhaid inni wrando ar farn plant, rhieni a theuluoedd ac ymateb iddynt. Dyma lle'r ydym yn bwriadu i'r Mesur Gofal Plant, a aeth drwy ei Ail Ddarlleniad yn San Steffan neithiwr, gael effaith fawr. Byddwn yn manteisio ar y Mesur hwn i gyflwyno dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardaloedd o fis Ebrill 2008.

Nod y ddyletswydd newydd fydd galluogi'r awdurdodau lleol a'u partneriaid i ymateb i angen rheini am ofal plant fforddiadwy a mynediad hawdd at wybodaeth am wasanaethau plant, a fydd yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol.

Mae 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant' yn cydnabod y modd y gall gofal plant helpu busnesau, a bod angen cymorth ar fusnesau gofal plant. Mae'r strategaeth yn tanlinellu'r cymorth sydd ar gael. Er enghraifft, o fis Ebrill 2002, bu'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant yn gweithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru nid yn unig i atal y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant, sef y duedd ers 1999, ond i ddangos y cynnydd ers mis Hydref 2004.

Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd y gweithlu gofal plant. Mae'n cadarnhau bod yr arian ar gyfer gofal plant yn cynyddu, a bod gennym weledigaeth hirdymor o ran cyllido rhaglenni plant, gan gynnwys gofal plant. Mae'r arian i Cymorth yn cael ei gynyddu'n sylweddol, a byddwn yn buddsoddi'n lleol mewn gofal plant a gwasanaethau gwybodaeth i blant, ynghyd â buddsoddiad gan y rhaglenni mawr, Genesis Cymru a Chwarae'n Deg, i fwrw ymlaen â'r

camau gweithredu yn y strategaeth.

I will now turn to the amendments. I am prepared to accept amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Kirsty Williams, which are already covered by the strategy document. We are indeed committed to taking action on affordability, for example, through grants to providers in disadvantaged areas, which supplement the support from central Government that comes through the tax credit system. We will ensure that the new burden placed on local government through the Childcare Bill is funded, and will consult with local government on regulations that will follow the passing of the Bill. I absolutely agree that the needs of children with special educational needs should be reflected in our strategy, and would point to the sections in the strategy that relate to the inclusion of all children within childcare provision. We are taking a range of new actions to support the workforce.

On amendment 6, it would clearly be a source of concern if any local authority or police guidance was inconsistent with the Assembly's childcare objectives. Officials working with the police service and local government are not aware of any such contradiction. I suggest that the Conservatives supply me with full details in writing, which I will be happy to share with the Minister for Social Justice and Regeneration. For now, I would ask them to withdraw the amendment, and I undertake that as we move forward in the implementation of the new duty by 2008, there will be statutory guidance following the passage of the Childcare Bill, which will be co-ordinated.

To conclude, I commend the strategy as an important part of our integrated programme of services for children in Wales. I hope that, together, we can build the quality and quantity of childcare provision in Wales.

Janet Davies: I propose amendment 1 in the name of Jocelyn Davies: in point 2 after 'quality' insert 'affordable'.

Trof yn awr at y gwelliannau. Yr wyf yn barod i dderbyn gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Kirsty Williams, y mae'r ddogfen strategaeth eisoes yn eu cwmpasu. Yr ydym yn sicr wedi ymrwymo i weithredu o safbwynt fforddiadwyedd, er enghraifft, drwy grantiau i ddarparwyr mewn ardaloedd difreintiedig, sy'n ategu'r cymorth gan y Llywodraeth ganolog a ddaw drwy'r system credydau treth. Byddwn yn sicrhau bod y baich newydd a roddir ar lywodraeth leol drwy'r Mesur Gofal Plant yn cael ei ariannu, a byddwn yn ymgynghori â llywodraeth leol ynghylch y rheoliadau a ddaw yn sgîl cymeradwyo'r Mesur. Yr wyf yn cytuno'n llwyr y dylai anghenion plant sydd ag anghenion addysgol arbennig gael eu hadlewyrchu yn ein strategaeth, a hoffwn dynnu sylw at yr adrannau yn y strategaeth sy'n ymdrin â chynnwys pob plentyn yn y ddarpariaeth gofal plant. Yr ydym yn cymryd amryw o gamau newydd i gefnogi'r gweithlu.

O ran gwelliant 6, byddai'n amlwg yn peri pryder pe bai unrhyw ganllawiau gan awdurdod lleol neu'r heddlu yn anghyson ag amcanion y Cynulliad o safbwynt gofal plant. Nid yw'r swyddogion sydd yn gweithio gyda'r gwasanaeth heddlu a llywodraeth leol yn ymwybodol o anghysondeb o'r fath. Awgrymaf y dylai'r Ceidwadwyr roi'r manylion llawn imi ar bapur, a byddaf yn fodlon rhannu'r manylion hynny â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Yn awr, gofynnaf iddynt dynnu'r gwelliant yn ôl, ac addawaf, wrth inni fwrw ati i weithredu'r ddyletswydd newydd erbyn 2008, y bydd canllawiau statudol wedi i'r Mesur Gofal Plant gael ei basio, a'r rheini wedi'u cydlynu.

I gloi, cymeradwyaf y strategaeth fel rhan bwysig o'n rhaglen integredig o wasanaethau i blant yng Nghymru. Gobeithiaf y gallwn, gyda'n gilydd, wella'r sefyllfa o ran swm a safon y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru.

Janet Davies: Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies: ym mhwynt 2, cynnwys 'fforddiadwy' ar ôl 'plant'.

The need for good-quality childcare is an issue on which there is general, cross-party agreement. The strategy rightly puts children at its centre, with the potential for their future lives and for society as a whole. Making parents' lives easier makes them less stressed and must increase the happiness of children.

The strategy has to operate within the context of the UK Bill that is going through the Houses of Parliament. Major financial help comes from the Treasury through income tax relief, for example. However, the Assembly strategy has measures of funding for families on low incomes.

During the Economic Development and Transport Committee's visit to Finland, we saw different types of childcare, including a very impressive scheme that is able to provide care at any time of day or night for the children of parents who are shift workers, for example, nurses and aircrew. Brian Gibbons, then Deputy Minister with special responsibility for childcare, will remember clearly the excellent level of care at that nursery.

One concern that surfaced from the staff related to the fact that some children are left for too long at a time, and the imperative to work during the short working lives of Finns means that choice for parents is perhaps not as good as it seems. In Wales, we are nowhere near achieving a situation of universal subsidised childcare and a highly qualified workforce, although we are moving forward.

When I compare the situation in 2005 with the situation 15 years ago, when, as leader of a borough council, I had to struggle against the views of councillors and against the Government of the time with its restrictions on local councils in order to build two new state-of-the-art nurseries in Taff-Ely, I appreciate the changed times. Those two nurseries still provide the basis of much of what is happening in Rhondda Cynon Taf.

The Equal Opportunities Commission pointed out to the House of Commons select

Mae'r angen am ofal plant o ansawdd da yn fater y mae cytundeb cyffredinol arno ar draws y pleidiau. Plant, a'r potensial ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol ac i'r gymdeithas yn gyffredinol, yw canolbwynt y strategaeth, wrth reswm. Mae hwyluso bywydau rhieni'n golygu bod llai o straen arnynt, ac mae hynny'n sicr o gynyddu hapusrwydd plant.

Rhaid i'r strategaeth weithio o fewn cyd-destun Mesur y Deyrnas Unedig sydd ar ei ffordd drwy'r Senedd. Daw cymorth ariannol mawr oddi wrth y Trysorlys drwy ostyngiad yn y dreth incwm, er enghraifft. Fodd bynnag, mae gan strategaeth y Cynulliad fesurau i ddarparu arian ar gyfer teuluoedd ar incwm isel.

Yn ystod ymweliad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth â'r Ffindir, gwelsom wahanol fathau o ofal plant, gan gynnwys cynllun trawiadol iawn sydd yn gallu darparu gofal ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i blant rhieni sy'n gweithio shifftiau, er enghraifft, nyrsys a chriwiau awyrennau. Bydd Brian Gibbons, a oedd yn Ddirprwy Weinidog â chyfrifoldeb arbennig dros ofal plant ar y pryd, yn cofio'n glir y lefel ragorol o ofal yn y feithrinfa honno.

Un pryder a amlygwyd gan y staff oedd y ffaith bod rhai plant yn cael eu gadael am lawer gormod o amser ar y tro, ac mae'r rheidrwydd i weithio yn ystod oes weithio fer y Ffiniaid yn golygu efallai nad yw'r dewis i rieni cystal ag y mae'n ymddangos. Yng Nghymru, nid ydym wedi hanner cyrraedd sefyllfa lle y mae pawb yn cael gofal plant â chymhorthdal, a chymwysterau da iawn gan y gweithlu, er ein bod yn symud ymlaen.

Wrth imi gymharu'r sefyllfa yn 2005 â'r sefyllfa 15 mlynedd yn ôl, pan fu raid i mi, a minnau'n arweinydd cyngor bwrdeistref, frwydro yn erbyn barn cynghorwyr ac yn erbyn Llywodraeth y dydd gyda'i chyfyngiadau ar gynghorau lleol er mwyn adeiladu dwy feithrinfa newydd sbon yn Nhaf-Elái, yr wyf yn sylweddoli bod cryn newid wedi bod. Mae'r ddwy feithrinfa hynny'n dal i ddarparu'r sail i lawer o'r hyn sydd yn digwydd yn Rhondda Cynon Taf.

Tynnodd y Comisiwn Cyfle Cyfartal sylw ymchwiliad pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin

committee inquiry that there are still not enough good-quality, affordable childcare places to provide a place for everyone who wants one. Furthermore, there is not an even spread, with some highly deprived areas that need those places badly having worse provision. Addressing this through new schemes and with help from European structural funds is a good way forward, but there is still much to be done. I fear that threats to the European regional development fund from 2009 could affect the Genesis scheme.

Provision in rural areas is also poor in terms of availability, and many people there have very low incomes. Child minders are likely to have a greater role than nurseries in sparsely populated areas.

I recognise the contribution to learning through play made by Mudiad Ysgolion Meithrin over many years. With minimal state help for so long, it has led the way, giving children from Welsh-speaking homes an experience of socialising through their first language and introducing other children to the Welsh language.

Crucially, there is a tension between having good-quality care and affordable care. In Sweden, child carers are graduates, with a salary that goes with that. Inevitably, that drives costs upwards. In Britain, childcare costs are already relatively high. Without financial subsidies, most parents cannot afford good care, and nothing can be worse for a child than being left in poor care day after day.

The challenge posed is one of providing access to high-quality care for all those who want it, and in making it affordable. This will require adequate funding from both the UK and Assembly Governments.

4.50 p.m.

Peter Black: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

at y ffaith nad oes eto ddigon o leoedd gofal plant fforddiadwy, o ansawdd da, i ddarparu lle i bawb sydd ei eisiau. At hynny, nid yw'r sefyllfa yr un fath ym mhobman, gyda darpariaeth waeth mewn rhai ardaloedd difreintiedig lle y mae gwir angen y lleoedd hynny. Mae mynd i'r afael â hyn drwy gynlluniau newydd a chyda chymorth o gronfeydd strwythurol Ewrop yn ffordd dda ymlaen, ond mae llawer i'w wneud o hyd. Mae arnaf ofn y gallai bygythiadau i gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop o 2009 effeithio ar gynllun Genesis.

Mae'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig hefyd yn wael o ran yr hyn sydd ar gael, ac mae llawer o bobl yno ar incwm isel iawn. Mae gwarchodwyr plant yn debygol o fod â rôl fwy na meithrinfeydd mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth.

Yr wyf yn cydnabod y cyfraniad at ddysgu drwy chwarae a wneir gan y Mudiad Ysgolion Meithrin ers blynyddoedd lawer. Heb nemor ddim cymorth gan y wladwriaeth am gyfnod maith, mae wedi arwain y ffordd, gan roi i blant o gartrefi Cymraeg brofiad o gymdeithasu drwy eu mamiaith a chyflwyno'r Gymraeg i blant eraill.

Yn allweddol, mae tensiwn rhwng cael gofal o ansawdd da a gofal fforddiadwy. Yn Sweden, mae gradd gan warchodwyr plant, gyda chyflog sydd yn adlewyrchu hynny. Yn anochel, mae hynny'n peri bod y costau'n uwch. Ym Mhrydain, mae costau gofal plant eisoes yn gymharol uchel. Heb gymorthdaliadau ariannol, ni all y rhan fwyaf o rieni fforddio gofal da, ac ni all dim fod yn waeth i blentyn na chael ei adael mewn gofal gwael ddydd ar ôl dydd.

Yr her sy'n ein hwynebu yw'r her o ddarparu mynediad at ofal o ansawdd da i bawb sydd am ei gael, a sicrhau eu bod yn gallu ei fforddio. Bydd hyn yn galw am gyllid digonol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth y Cynulliad.

Peter Black: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Assembly Government to ensure that any new responsibilities for local government under the childcare strategy will be fully funded.

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

believes that the specific needs of special educational needs children should be fully reflected and supported in the strategy.

I propose amendment 4. Add a new point at the end of the motion:

recognises that the lack of affordable childcare represents a significant barrier to economic activity for many women

I propose amendment 5. Add a new point at the end of the motion:

recognises that high-quality service in childcare rests upon an experienced and incentivised workforce.

What is clear from the report of the childcare working group, the Welsh Assembly Government's response to it, and a plethora of other evidence and publications, is that we cannot afford to regard childcare as an add-on. Locally accessible, affordable and good-quality childcare is an essential and integral part of any strategy or action to get people into work, to promote equality of opportunity, and to improve the educational opportunities available to children.

So far, we have not done a particularly good job of achieving that outcome. The Bevan Foundation report, 'A Childcare Revolution in Wales', published this year, revealed that, at an all-Wales level, there are just under 3,600 registered childcare places for children from birth up to the age of eight, including child minders, day nurseries and holiday or after-school provision. This is equivalent to one registered childcare place for every seven children under the age of eight. However, there is not a uniform picture across Wales. In Blaenau Gwent, there is just one childcare place for every 20 children under the age of

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau y bydd unrhyw gyfrifoldebau newydd i lywodraeth leol dan y strategaeth gofal plant yn cael eu hariannu'n llawn.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu y dylai anghenion penodol plant ag anghenion addysgol arbennig gael eu hadlewyrchu a'u cefnogi'n llawn yn y strategaeth.

Cynigiaf welliant 4. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod bod diffyg gofal plant fforddiadwy yn rhwystr sylweddol sy'n atal llawer o fenywod rhag bod yn economaidd weithgar.

Cynigiaf welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod bod gwasanaeth o safon uchel ym maes gofal plant yn dibynnu ar gael gweithlu profiadol llawn cymhelliant.

Yr hyn sydd yn glir oddi wrth adroddiad y gweithgor gofal plant, ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru iddo, a llu o dystiolaeth arall a chyhoeddiadau eraill, yw na allwn fforddio edrych ar ofal plant fel rhywbeth ategol. Mae gofal plant o ansawdd da sydd ar gael yn lleol ac yn fforddiadwy yn rhan hanfodol ac annatod o unrhyw strategaeth neu weithredu i gael pobl i waith, i hybu cyfle cyfartal, ac i wella'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i blant.

Hyd yma, nid ydym wedi llwyddo'n arbennig o dda i gyrraedd y nod hwnnw. Datgelodd adroddiad Sefydliad Bevan, 'Chwyldro ym Maes Gofal Plant yng Nghymru', a gyhoeddwyd eleni, mai dim ond ychydig dan 3,600 o leoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael drwy Gymru gyfan i blant o'u genedigaeth hyd at wyth oed, gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd a darpariaeth gwyliau neu ar ôl ysgol. Mae hyn yn gyfwerth ag un lle gofal plant cofrestredig ar gyfer pob saith plentyn dan wyth oed. Fodd bynnag, nid oes darlun unffurf ledled Cymru. Ym Mlaenau Gwent, dim ond un lle

eight. In Neath Port Talbot, in my region, there is one place for every 15 children under the age of eight.

Although the Assembly Government's preferred approach to this issue is to invest in provision, we should be aware that this is not just about the supply of childcare places. The role of parents, and the support that we can provide for them, is equally important. The dissemination of parenting skills needs to be an important part of this strategy, just as the promotion of an adequate work-life balance is necessary to assist parents in rearing children.

The Equal Opportunities Commission has reported that the interests of men and women are converging. According to the commission, almost 69 per cent of women and men agreed that their lives are becoming more alike in terms of their need to balance work and family. Although most of the caring work is still carried out by women, men are increasingly more interested in spending more time with their families and sharing the caring role.

However, in pursuit of this quest, more than 500,000 workers have had requests for shorter hours turned down. Over three quarters of the United Kingdom's employees have no flexibility in their employment contracts, and only a little over one in 10 work flexi-time, compared with a third of workers in Germany. It is a sobering fact that, even in these modern times, 30,000 women a year are sacked, made redundant or forced to leave their jobs, simply because they become pregnant. A survey by the Recruitment and Employment Confederation found that one in four companies would rather break the law than employ a pregnant woman or one of childbearing age.

Childcare costs have rocketed in the past year, rising by 5 per cent for nurseries and child minders. In Wales, parents pay, on average, £134 per child per week. If those employment and cost issues are not addressed, adequate childcare and proper support for parents will not be put in place.

gofal plant sydd ar gyfer pob 20 plentyn dan wyth. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn fy ardal i, ceir un lle ar gyfer pob 15 plentyn dan wyth oed.

Er mai'r modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dewis ymateb i hyn yw buddsoddi mewn darpariaeth, dylem fod yn ymwybodol nad y cyflenwad o leoedd gofal plant yn unig sydd dan sylw yma. Mae swyddogaeth y rhieni, a'r gefnogaeth y gallwn ei rhoi iddynt, yr un mor bwysig. Mae angen sicrhau bod lledaenu sgiliau magu plant yn rhan bwysig o'r strategaeth hon, yn union fel y mae hybu cydbwysedd digonol rhwng bywyd a gwaith yn angenrheidiol i gynorthwyo rhieni i fagu eu plant.

Mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal wedi adrodd bod diddordebau dynion a menywod yn symud yn nes at ei gilydd. Yn ôl y comisiwn, cytunodd bron 69 y cant o fenywod a dynion fod eu bywydau'n mynd yn fwy tebyg o safbwynt eu hangen i gael cydbwysedd rhwng y gwaith a'r teulu. Er mai menywod sydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith gofalu o hyd, mae dynion yn dangos diddordeb cynyddol mewn treulio mwy o amser gyda'u teuluoedd a rhannu'r rôl ofalu.

Fodd bynnag, wrth geisio cael hyn, mae ceisiadau mwy na 500,000 o weithwyr am weithio llai o oriau wedi cael eu gwrthod. Mae dros dri chwarter gweithwyr y Deyrnas Unedig yn gweithio dan gontractau cyflogaeth cwbl anhyblyg, a dim ond ychydig dros un o bob 10 sy'n gweithio oriau hyblyg, o'u cymharu â thraean gweithwyr yr Almaen. Ffaith sydd yn ddigon i sobri rhywun yw bod 30,000 o fenywod y flwyddyn yn cael eu diswyddo, hyd yn oed yn yr oes fodern hon, dim ond oherwydd eu bod yn beichiogi. Canfu arolwg gan y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth y byddai'n well gan un cwmni o bob pedwar dorri'r gyfraith na chyflogi menyw feichiogi neu un mewn oed cael plant.

Mae costau gofal plant wedi codi i'r entrychion yn y flwyddyn a aeth heibio, gan godi 5 y cant ar gyfer meithrinfeydd a gwarchodwyr plant. Yng Nghymru, bydd rhieni'n talu £143 y plentyn yr wythnos ar gyfartaledd. Os na roddir sylw i'r materion hynny yn ymwneud â chyflogaeth a chostau,

ni lwyddir i sefydlu gofal plant digonol a chymorth priodol i rieni.

I have already highlighted the patchy provision of childcare around Wales and the particular problems in deprived communities. One of the Liberal Democrats' amendments underlines that point, as well as underlining the conclusion of the Bevan Foundation report that the lack of affordable and accessible childcare is perceived to be the greatest barrier to lone parents entering the workforce. However, if we are to achieve the sort of change envisaged, we need to address the issues in our other amendments as well, and I am grateful to the Minister for saying that she is prepared to support them.

Historically, the childcare workforce has been poorly paid and lacking in career opportunities. The Welsh Assembly Government response places high importance on the child's relationship with the childcare staff and personal experience. A professional, respected and satisfied workforce would create the necessary positive atmosphere to achieve that.

This strategy, and the Childcare Bill in particular, places substantial additional duties on local councils. There is no point in doing that unless local authorities are given the means to deliver. We will scrutinise closely the funding of this strategy and the Welsh Assembly Government's actions. We expect it to put its money where its mouth is on this issue. I hope that the Minister's introductory speech is an indication that it will do that.

If the Government does that, and if these recommendations are carried through, we can look forward to a marked improvement in childcare provision in Wales, and a subsequent improvement in the economic performance and employment of economically inactive parents.

Mark Isherwood: I propose amendment 6 in the name of David Melding. Add a new point at end of motion:

requires the Welsh Assembly Government to tackle the contradictions created when local

Yr wyf eisoes wedi tynnu sylw at y ddarpariaeth anghyson o ran gofal plant ar hyd a lled Cymru a'r problemau penodol mewn cymunedau difreintiedig. Mae un o welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn tanlinellu'r pwynt hwnnw, yn ogystal â thanlinellu casgliad adroddiad Sefydliad Bevan bod pobl yn barnu mai diffyg gofal plant fforddiadwy a hygyrch yw'r rhwystr mwyaf i rieni unigol ymuno â'r gweithlu. Fodd bynnag, os am sicrhau'r math o newid a ragwelir, mae angen inni ddelio â'r materion yn ein gwelliannau eraill yn ogystal, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ddweud ei bod yn barod i'w cefnogi.

Yn hanesyddol, mae'r gweithlu gofal plant wedi bod yn gweithio am gyflogau gwael heb fawr o gyfleoedd gyrfaol. Mae ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi pwys mawr ar berthynas y plentyn gyda'r staff gofal plant a'i brofiad personol. Byddai gweithlu proffesiynol, bodlon ac uchel ei barch yn creu'r awyrgylch cadarnhaol sy'n angenrheidiol i sicrhau hynny.

Mae'r strategaeth hon, a'r Mesur Gofal Plant yn enwedig, yn gosod dyletswyddau ychwanegol sylweddol ar gynghorau lleol. Nid oes dim diben gwneud hynny os na roddir i awdurdodau lleol y modd i gyflawni'r gwaith. Byddwn yn craffu'n ofalus ar y modd yr ariennir y strategaeth hon a'r modd y gweithreda Llywodraeth y Cynulliad. Disgwyliwn iddi roi ei harian ar ei gair ar y mater hwn. Gobeithiaf fod araith agoriadol y Gweinidog yn arwydd y gwna hynny.

Os gwna'r Llywodraeth hynny, ac os caiff yr argymhellion hyn eu cyflawni, gallwn edrych ymlaen at welliant amlwg yn narpariaeth gofal plant yng Nghymru, a gwelliant yn sgîl hynny ym mherfformiad economaidd a chyflogaeth rhieni economaidd anweithgar.

Mark Isherwood: Cynigiaf welliant 6 yn enw David Melding. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r gwrth-ddweud sy'n codi

authority and police guidance is inconsistent with the delivery of National Assembly childcare objectives.

We support the expansion of quality, affordable childcare provision in Wales, and therefore support all the amendments in the names of Jocelyn Davies and Kirsty Williams.

Amendment 6, in the name of David Melding, requires the Welsh Assembly Government to tackle the contradiction created when local authority and police guidance is inconsistent with the delivery of National Assembly childcare objectives. This relates to the reference by the Welsh Assembly Government to advice linking childcare with the Communities First programme. If, as we understand, Communities First is about empowering local communities and delivering services according to the priorities identified by those communities, then we face a real problem when service providers fail to deliver. I cite, for example, Greenfield in Flintshire, where I have been working with the residents association, and where I recently attended a community safety meeting. Local people have prioritised and campaigned for specific measures that will redirect young people's energies away from anti-social behaviour towards personal and community development, calling in particular for a skills and recreation facility for young people in the old school building and for local regeneration funding to tackle negative behaviour by young people around the shop parade. The former has been kicked back by the county council, which is now planning to demolish the old school—despite a covenant being in place which prevents it using the land for any other purpose—and the latter has been rejected because the county council ranked the bid third on a list of three. Campaigners in the community have told me that they believe that this is because the current system allows priorities to be set politically, because no national criteria have been established by the Welsh Assembly Government.

pan fydd canllawiau awdurdodau lleol a chanllawiau'r heddlu yn anghyson â'r gwaith o gyflawni amcanion gofal plant y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym yn cefnogi ehangu darpariaeth gofal plant fforddiadwy, o ansawdd da, yng Nghymru, ac felly cefnogwn yr holl welliannau yn enw Jocelyn Davies a Kirsty Williams.

Mae gwelliant 6, yn enw David Melding, yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r gwrth-ddweud sy'n codi pan fydd canllawiau awdurdodau lleol a chanllawiau'r heddlu yn anghyson â'r gwaith o gyflawni amcanion gofal plant y Cynulliad Cenedlaethol. Mae a wnelo hyn â'r cyfeiriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at gyngor yn cysylltu gofal plant â'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Os mai diben Cymunedau'n Gyntaf, yn ôl a ddeallwn, yw grymuso cymunedau lleol a rhoi gwasanaethau yn ôl y blaenoriaethau a nodir gan y cymunedau hynny, yna yr ydym yn wynebu problem wirioneddol pan fydd darparwyr gwasanaethau'n methu â chyflawni eu gwaith. Soniaf, er enghraifft, am y Maes-glas yn sir y Fflint, lle yr wyf wedi bod yn gweithio gyda chymdeithas y trigolion, a lle y mynychais gyfarfod diogelwch cymunedol yn ddiweddar. Mae pobl leol wedi blaenoriaethu mesurau penodol ac wedi ymgyrchu drostynt, mesurau a wnaiff ailgyfeirio egnïon pobl ifanc tuag at ddatblygiad personol a chymunedol yn hytrach nag ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gan alw'n arbennig am gyfleuster sgiliau a hamdden i bobl ifanc yn adeilad yr hen ysgol ac am gyllid adfywio lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad negyddol gan bobl ifanc o gwmpas y rhodfa siopau. Cafodd y cyntaf ei gicio'n ôl gan y cyngor sir, sydd bellach yn bwriadu dymchwel yr hen ysgol—er bod cyfamod sydd yn ei rwystro rhag defnyddio'r tir at ddiben arall—a chafodd yr ail ei wrthod oherwydd i'r cyngor sir osod y cais yn drydydd ar restr o dri. Mae ymgyrchwyr yn y gymuned wedi dweud wrthyf eu bod yn credu mai'r rheswm am hyn yw bod y system bresennol yn caniatáu pennu blaenoriaethau ar sail wleidyddol, am nad oes dim meini prawf cenedlaethol wedi'u sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

How can we improve the long-term outcomes for children and their communities when the will of people living in Communities First areas is thwarted and when the objective of empowerment generates a sense of frustration and disempowerment? How can we improve long-term outcomes for children and their communities when local authority citizens panels tell us that over 50 per cent of people reported experiencing crime in the last 12 months and only 27 per cent of them reported all those crimes because they were not confident about the police response that would follow? That is not the fault of the officer on the ground, whom I praise to the rafters, but the system that prevents the support required. Clearly, many parents will need, or want, to entrust their children to others so that they can work or study. I declare an interest in commending the childcare facilities at Aberystwyth university, which provide a safe environment for my granddaughter while my daughter studies for her degree.

Clearly, Government must ensure that state, private and voluntary sector provision complement each other so that joined-up childcare services may be created. Children must be offered the best possible start in life, and to do this we must start from first base by recognising the shocking picture of inadequate childcare provision across Wales, with just, as Peter said, one childcare place for every seven children under the age of eight, and with fewer childcare places in the most disadvantaged communities, which is where they are needed most. With a low-wage economy and high numbers of part-time jobs in Wales, many parents cannot afford to pay for childcare. We support the aim of providing quality and affordable childcare for hardworking families, while recognising that parents know how best to bring up their own children. A one-size-fits-all approach does not offer families the choice and flexibility that they need.

Childcare is often rooted in community enterprise, with playgroups and out-of-school clubs often managed by parents and helping to bring communities together to support

Sut y gallwn wella'r canlyniadau hirdymor i blant a'u cymunedau tra bo ewyllys pobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cael ei hanwybyddu a thra bo'r nod o rymuso'r gymuned yn creu teimlad o rwystredigaeth a diffyg grym? Sut y gallwn wella'r canlyniadau hirdymor i blant a'u cymunedau pan ddywed paneli dinasyddion awdurdodau lleol wrthym fod dros 50 y cant o bobl wedi adrodd iddynt brofi trosedd yn y 12 mis diwethaf ac mai dim ond 27 y cant ohonynt a roes wybod i'r heddlu am bob un o'r troseddau hynny oherwydd nad oeddent yn hyderus am yr ymateb a fyddai'n dilyn hynny gan yr heddlu? Nid bai'r swyddog ar lawr gwlad yw hynny—clodforaf hwnnw i'r entrychion—ond bai'r system sydd yn atal y gefnogaeth angenrheidiol. Yn amlwg, bydd ar lawer o rieni angen, neu eisiau, rhoi eu plant yng ngofal eraill er mwyn gallu gweithio neu astudio. Datganaf fuddiant wrth gymeradwyo'r cyfleusterau gofal plant ym mhrifysgol Aberystwyth, sydd yn darparu amgylchedd diogel i'm hwyres tra bo fy merch yn astudio at ei gradd.

Yn amlwg, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod darpariaeth y wladwriaeth, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn ategu ei gilydd er mwyn creu gwasanaethau gofal plant cydlynol. Rhaid cynnig i blant y dechrau gorau posibl mewn bywyd, ac i wneud hyn rhaid inni ddechrau o'r cam cyntaf drwy gydnabod y darlun dychrynlyd o ddarpariaeth gofal plant annigonol ledled Cymru, lle nad oes, fel y dywedodd Peter, ond un lle gofal plant ar gyfer pob saith plentyn dan wyth oed, a llai o leoedd gofal plant yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, sef y lle y mae eu hangen fwyaf. Gydag economi cyflogau isel a niferoedd uchel o swyddi rhan-amser yng Nghymru, mae llawer o rieni'n methu fforddio talu am ofal plant. Cefnogwn y nod o ddarparu gofal plant fforddiadwy o ansawdd da i deuluoedd sydd yn gweithio'n galed, tra ydym yn cydnabod mai'r rhieni a w'yr orau sut i fagu eu plant eu hunain. Nid yw darpariaeth unffurf i bawb yn cynnig i deuluoedd y dewis a'r hyblygrwydd y mae arnynt eu hangen.

Mae gofal plant yn aml wedi'i wreiddio mewn menter gymunedol, gyda grwpiau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol wedi'u rheoli'n aml gan rieni ac yn helpu i ddod â

children. We are, therefore, concerned that new provision should not be provided without consultation with, or consideration for, existing childcare providers. The out-of-school club run by volunteers in my village had to close at the end of last term when it ran out of sufficient funds to continue after it was charged rent by the local authority. Alternative provision has now had to be made by the school itself, so it seems that a system that was working well with community support has been replaced by an alternative public provision with no cost saving.

Across the UK, Government provision is forcing the closure of private and voluntary sector childcare services that offer smaller groups more flexible care. For every two new childcare places that the UK Government has opened, one has closed, and we must be concerned that a similar situation could exist under Labour in Wales. It is stressful enough trying to find a nursery place or playgroup in the first place; when it shuts, it causes real anguish for parents and children. Since 1997, there has been an estimated 22 per cent fall in playgroup and pre-school places, and a 24 per cent fall in child minder places across the UK. Furthermore, as we have heard, it is reported that childcare costs in the UK are already the highest in Europe.

5.00 p.m.

I began by saying that we support the expansion of quality, affordable childcare, and we will, therefore, support the motion today. However, we have grave reservations about the ability of Labour in London and Cardiff to deliver on this agenda and to achieve our goal of providing more childcare places, with greater choice and flexibility for parents in how they care for their children.

Irene James: I welcome the Government's response to the childcare working group's report, which sets out a solid foundation on which to build future provision. Much is already being done. Genesis Wales, for

chymunedau at ei gilydd i gefnogi plant. Yr ydym yn bryderus, felly, na ddylid gwneud darpariaeth newydd heb ymgynghori â darparwyr gofal plant presennol, a heb eu hystyried. Bu raid i'r clwb ar ôl ysgol a redid gan wirfoddolwyr yn fy mhentref i gau ddiwedd y tymor diwethaf pan aeth heb ddigon o arian i barhau i weithredu ar ôl i'r awdurdod lleol godi rhent arno. Erbyn hyn mae'r ysgol ei hun wedi gorfod gwneud darpariaeth arall, felly mae'n debyg bod system a oedd yn gweithio'n dda gyda chefnogaeth y gymuned wedi cael ei disodli gan ddarpariaeth gyhoeddus arall heb arbed dim o ran y costau.

Ledled y Deyrnas Unedig, mae darpariaeth y Llywodraeth yn peri bod gwasanaethau gofal plant yn cau yn y sectorau preifat a gwirfoddol sydd yn cynnig gofal mwy hyblyg i grwpiau llai. Am bob dau le gofal plant newydd y mae Llywodraeth y DU wedi'i agor, mae un wedi cau, a rhaid inni bryderu y gallai sefyllfa debyg fodoli dan Lafur yng Nghymru. Mae'n ddigon anodd ceisio dod o hyd i le mewn meithrinfa neu grŵp chwarae yn y lle cyntaf; pan fydd hwnnw'n cau, mae'n achosi gwir loes i rieni a phlant. Ers 1997, amcangyfrifir bod cwmp o 22 y cant wedi bod mewn lleoedd mewn grwpiau chwarae a chyn ysgol, a chwmp o 24 y cant yn y lleoedd gyda gwarchodwr plant ledled gwledydd Prydain. Ar ben hynny, fel y clywsom, adroddir bod costau gofal plant yn y Deyrnas Unedig eisoes yn uwch na holl wledydd eraill Ewrop.

Dechreuais drwy ddweud ein bod yn cefnogi ehangu gofal plant fforddiadwy o safon uchel, a byddwn felly'n cefnogi'r cynnig heddiw. Fodd bynnag, mae gennym amheuan mawr ynglŷn â gallu Llafur yn Llundain a Chaerdydd i gyflawni'r agenda hon a chyflawni ein nod o ddarparu mwy o leoedd gofal plant, gyda mwy o ddewis a hyblygrwydd i rieni o ran y ffordd y maent yn gofalu am eu plant.

Irene James: Yr wyf yn croesawu ymateb y Llywodraeth i adroddiad y gweithgor gofal plant, sy'n rhoi sylfaen gref i adeiladu darpariaeth ar gyfer y dyfodol. Mae llawer yn cael ei wneud eisoes. Mae Genesis Cymru, er

example, which was highlighted in this strategy, is an excellent example of how to maximise the use of Objective 1 funding for west Wales and the Valleys. It is an innovative project, which is tailored to the individual needs of mothers and children in the most deprived communities.

Childcare has a central role in driving forward many of our key strategies in economic development, in raising economic activity levels, eradicating child poverty, and reducing educational inequalities. It is part of a framework that will only fully emerge when the child poverty action plan is published. While the working group recognised the value of schools as a community resource, which is endorsed in the Government's response, it also recommended an integrated children's centre in every community in Wales, starting with the most deprived areas, with a target of developing at least one centre serving each Communities First ward by 2008. If the Government's strategy is not to include this as a measure, it is vital that there is an alternate vehicle to deliver integrated provision, which, as the group's report states, should provide a seamless service of day care, early education, play opportunities, health services and family support.

Janet Ryder: A number of years ago, the Local Government and Housing Committee visited Ballyfermot in Dublin, which had had severe social problems on the estate there. The way in which the residents turned that estate around, which they did within four or five years, was to insist that every project that went ahead that had any element of training, or that might encourage young people to attend, had to provide childcare. Do you not think that that should come forward as part of the strategy? It certainly worked in Ballyfermot, as the community there turned things around within five years.

Irene James: Childcare is a very important issue, and it is one that we are starting to address. Excuse me; my papers have got caught up.

enghraifft, a gafodd sylw yn y strategaeth, yn enghraifft ragorol o sut i wneud y defnydd gorau o arian Amcan 1 ar gyfer y gorllewin a'r Cymoedd. Mae'n brosiect arloesol, sydd wedi'i addasu i ddiwallu anghenion unigol mamau a phlant yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae gan ofal plant rôl ganolog mewn rhoi llawer o'n strategaethau allweddol mewn datblygu economaidd ar waith, drwy godi lefelau gweithgarwch economaidd, dileu tlodi plant, a lleihau anghydraddoldebau addysgol. Mae'n rhan o fframwaith na ddaw'n gwbl amlwg hyd nes y cyhoeddir y cynllun gweithredu ar dlodi plant. Er bod y gweithgor yn cydnabod gwerth ysgolion fel adnodd cymunedol, rhywbeth a gymeradwyir yn ymateb y Llywodraeth, mae hefyd yn argymhell sefydlu canolfan blant integredig ym mhob cymuned yng Nghymru, gan ddechrau yn yr ardaloedd gyda'r amddifadedd mwyaf, gyda tharged o ddatblygu o leiaf un ganolfan sy'n gwasanaethu pob ward Cymunedau yn Gyntaf erbyn 2008. Os na fydd strategaeth y Llywodraeth yn cynnwys hyn fel mesur, mae'n hanfodol ei bod yn cynnwys cyfrwng arall i gyflwyno darpariaeth integredig, a ddylai, fel y dywed adroddiad y grŵp, ddarparu gwasanaeth di-dor o ofal dydd, addysg gynnar, cyfleoedd chwarae, gwasanaethau iechyd a chymorth i deuluoedd.

Janet Ryder: Rai blynyddoedd yn ôl, bu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ymweld â Ballyfermot yn Nulyn, sydd wedi dioddef problemau cymdeithasol difrifol ar yr ystâd yno. Llwyddodd y preswylwyr i weddnewid yr ystâd honno, a hynny o fewn pedair neu bum mlynedd, drwy fynnu bod rhaid i bob prosiect a weithredid a oedd yn cynnwys unrhyw elfen o hyfforddiant, neu a allai annog pobl ifanc i'w fynychu, ddarparu gofal plant. Onid ydych yn credu y dylai hynny fod yn rhan o'r strategaeth? Yn sicr, llwyddodd hynny yn Ballyfermot, wrth i'r gymuned weddnewid pethau o fewn pum mlynedd.

Irene James: Mae gofal plant yn fater pwysig iawn, ac mae'n un yr ydym yn dechrau rhoi sylw iddo. Maddeuwch imi; mae fy mhapurau wedi'u cymysgu.

The accessibility of any service primarily depends on its availability. The group report makes a subtle distinction, relating access issues to an umbrella of circumstances, including communities that are isolated not geographically but because of low incomes, a lack of suitable accommodation for childcare, or poor transport infrastructure. As I have said, a childcare strategy for Wales is key to many other strategies. It is vital that we get it right, and this document is an essential starting point. It must be flexible enough to be tailored to the needs of individual communities across Wales, for it is on these criteria that we as an Assembly will be judged.

Leanne Wood: I thank the childcare working group for the work that it has done on this report. It has made some excellent recommendations, and the call for the Welsh Assembly Government to support the development of universal childcare in Wales is something that all of us should support in the twenty-first century. However, if this Government is serious about having a vision of childcare as part of the welfare state, available to all parents who need it, then such provision surely should start at home. The Childcare Bill that is currently going through Parliament aims to place a statutory duty on local authorities to secure sufficient childcare in all areas, yet the Assembly does not have childcare provision. How can we profess to tell other organisations to make such provision available when we do not provide childcare facilities ourselves? My view is that all large public sector organisations should provide childcare facilities for their workers. This would be particularly helpful in the early stages. For example, a woman who could leave her child in a work-based crèche may be able to continue breast feeding for longer than she could do otherwise. For all those women who end up on the sick, with post-natal depression, because they are not ready to leave their babies after their maternity leave ends, having a work-based crèche facility would help, and it might reduce sickness claims in the long run.

Mae pa mor hawdd yw gallu defnyddio unrhyw wasanaeth yn dibynnu'n fwy na dim ar i ba raddau y mae ar gael. Mae adroddiad y grŵp yn gwahaniaethu mewn ffordd gynnil, gan gysylltu mynediad gydag amrywiaeth o amgylchiadau, gan gynnwys cymunedau sy'n ynysig nid am eu bod yn ddiaffordd yn ddaearyddol ond oherwydd incymau isel, diffyg canolfan addas ar gyfer gofal plant neu seilwaith trafndiaeth gwael. Fel y dywedais, mae strategaeth gofal plant i Gymru yn allweddol i nifer o strategaethau eraill. Mae'n hanfodol inni lwyddo, ac mae'r ddogfen hon yn fan cychwyn hollbwysig. Rhaid iddi fod yn ddigon hyblyg fel bod modd ei haddasu i fodloni anghenion cymunedau unigol ledled Cymru, gan mai yn ôl y meini prawf hyn y byddwn fel Cynulliad yn cael ein barnu.

Leanne Wood: Diolchaf i'r gweithgor gofal plant am y gwaith y mae wedi'i wneud ar yr adroddiad hwn. Mae wedi gwneud argymhellion rhagorol, ac mae'r alwad i Lywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi datblygiad gofal plant i bawb yng Nghymru yn rhywbeth y dylai pob un ohonom ei gefnogi yn yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, os yw'r Llywodraeth hon o ddifrif ynglŷn â gweledigaeth o ofal plant fel rhan o'r wladwriaeth les, sydd ar gael i bob rhiant sydd ei angen, yna dylai darpariaeth o'r fath ddechrau yma. Nod y Mesur Gofal Plant sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd yw rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol ym mhob ardal, ond eto nid oes gan y Cynulliad ddarpariaeth gofal plant. Sut y gallwn ddweud wrth sefydliadau eraill am gynnig darpariaeth o'r fath os nad ydym yn darparu cyfleusterau gofal plant ein hunain? Yn fy marn i, dylai pob sefydliad mawr yn y sector cyhoeddus ddarparu cyfleusterau gofal plant i'w weithwyr. Byddai hyn yn arbennig o werthfawr yn ystod y camau cynnar. Er enghraifft, gallai menyw sy'n gallu gadael ei phlentyn mewn meithrinfa yn y gweithle barhau i fwydo ar y fron am gyfnod hwy nag a allai fel arall. Yn achos yr holl fenywod hynny sy'n absennol o'u gwaith yn y diwedd oherwydd salwch, ac iselder ar ôl geni arnynt, oherwydd nad ydynt yn barod i adael eu babanod pan ddaw eu cyfnod o absenoldeb mamolaeth i ben, byddai cyfleusterau meithrin yn y gweithle yn helpu,

As far as the Assembly is concerned, we also have to recognise that there is likely to be a huge increase in the number of visitors to our new building when it opens. A childcare facility in the new building would really open it up to people who might not otherwise come to visit.

Finally, the report shows that there is a particular deficit in childcare places in areas of high deprivation. Often, because of a lack of provision and issues of affordability, parents have to rely on informal childcare arrangements, such as grandparents, friends and neighbours. These informal child carers often get over the problems that are faced by parents who use the formal sector. What I mean by that is that if the child is ill, if the child is with a grandparent, it is not such a big issue. Also, in the informal sector, places can be provided through the medium of Welsh and there is a big scarcity of Welsh-medium childcare places. Would the Minister be prepared to support financial assistance for informal carers, particularly those in areas where formal childcare places are few and far between?

Karen Sinclair: I welcome this report to the Assembly and I would particularly like to acknowledge the hard work that has been put into this process, starting with the childcare working group, which has led to the 'Childcare is for Children' document that we have in front of us. Like Leanne, I would like to pay tribute to all those who have contributed to it—stakeholders, community leaders, childcare groups and a plethora of other organisations and individuals who have added their views so that we can provide a better childcare service, which best meets the needs of modern Wales.

The first point that I would like to raise concerns the childcare that we provide for disabled children in Wales. I was heartened to read that the Assembly Government had taken on the commitment to ensure care for this vulnerable group that ensures the best start in life, based on the best international

a gallai arwain at ostwng yr hawliadau salwch yn y pen draw.

O ran y Cynulliad, rhaid inni hefyd dderbyn ei bod yn debygol y bydd nifer yr ymwelwyr â'n hadeilad newydd yn cynyddu'n sylweddol iawn ar ôl iddo agor. Byddai cyfleusterau gofal plant yn ffordd o wneud yr adeilad yn agored i bobl na fyddent yn debygol o ymweld ag ef fel arall.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn dangos bod diffyg mawr mewn lleoedd gofal plant mewn ardaloedd sydd ag amddifadedd mawr. Yn aml, oherwydd diffyg darpariaeth a rhesymau yn ymwneud â'r gallu i'w fforddio, mae rhieni'n gorfod dibynnu ar drefniadau gofal plant anffurfiol, megis neiniau a theidiau, ffrindiau a chymdogion. Mae'r gofalwyr plant anffurfiol hyn yn aml yn goresgyn y problemau y mae rhieni sy'n defnyddio'r sector ffurfiol yn eu hwynebu. Yr hyn a olygaf wrth hyn yw os yw'r plentyn yn sâl, ac os yw'r plentyn gyda'i nain neu ei daid, nid yw hynny'n broblem fawr. Hefyd, yn y sector anffurfiol, gellir darparu lleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae prinder mawr o leoedd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. A fyddai'r Gweinidog yn barod i gynnig cymorth ariannol i ofalwyr anffurfiol, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle y mae lleoedd gofal plant ffurfiol yn brin?

Karen Sinclair: Croesawaf yr adroddiad hwn i'r Cynulliad, a hoffwn yn fwyaf arbennig gydnabod y gwaith caled sydd wedi bod yn rhan o'r broses hon, gan ddechrau gyda'r gweithgor gofal plant, sydd wedi arwain at y ddogfen 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant', sydd o'n blaenau heddiw. Fel Leanne, hoffwn dalu teyrnged i bawb sydd wedi cyfrannu ati—y rhanddeiliaid, yr arweinwyr cymunedol, y grwpiau gofal plant a llu o sefydliadau ac unigolion eraill sydd wedi mynegi eu barn er mwyn ein galluogi i ddarparu gwell gwasanaethau gofal plant, sy'n diwallu anghenion y Gymru fodern yn y modd gorau.

Mae'r pwynt cyntaf yr hoffwn ei wneud yn ymwneud â'r gofal plant yr ydym yn ei ddarparu i blant anabl yng Nghymru. Yr oedd yn galonogol darllen bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau gofal i'r grŵp bregus hwn sy'n sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd, ac sy'n seiliedig ar yr

practice. This is one of the first of 77 recommendations made by the childcare working group, and it also appears at the top of the strategy document that we are debating today. I welcome this, as so often provision for disabled children is an add-on in documents of this nature, tacked onto the back of work on improving childcare, and forgetting some of the most vulnerable groups because they are difficult to cater for. I am delighted that the Assembly Government has acknowledged the challenges faced by disabled children and their families. These difficulties can be both financial and social, and the strategy document recognises these issues, and that is a positive move forward. The response by the Assembly Government, committing itself to working with the Department for Work and Pensions to make the case for extra support for disabled children, will be welcomed by this group. A move such as this will guarantee that disabled children have equal access to childcare and help to ensure that the early developmental learning, informal play-based learning and accredited education that their peers receive will also be open to disabled children. We must now ensure, through the children's information services across Wales, that we encourage all those who have traditionally been excluded from taking up such services for disabled children to start doing so. We need to actively promote it in order for that to happen.

5.10 p.m.

The second major issue that I would like to raise concerns the general role that the children's information service should play in Wales. As the strategy document makes clear, if we want childcare to be accessible, parents need to know how to find out about it. This needs well-funded and resourced children's information services across Wales, which could provide a range of useful functions for parents. These could range from ensuring the proper regulation of home carers, the provision of up-to-date, effective information for parents, as well as acting as a useful resource tool for childcare businesses to access the most appropriate financial

arferion rhyngwladol gorau. Mae hyn yn un o'r argymhellion cyntaf o blith 77 argymhelliad a wneir gan y gweithgor gofal plant, ac mae hefyd yn ymddangos ar frig y ddogfen strategaeth yr ydym yn ei thrafod heddiw. Yr wyf yn croesawu hyn, gan nad yw'r ddarpariaeth i blant anabl yn aml yn ddim mwy nag atodiad mewn dogfennau fel hyn, wedi'i ychwanegu ar ddiwedd gwaith ar wella gofal plant, gan anghofio am rai o'r grwpiau mwyaf bregus gan ei bod yn anodd darparu ar eu cyfer. Yr wyf wrth fy modd bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod yr heriau sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd. Gall yr anawsterau hyn fod yn rhai ariannol a chymdeithasol, ac mae dogfen y strategaeth yn cydnabod y materion hyn, ac mae hynny'n gam positif ymlaen. Bydd ymateb Llywodraeth y Cynulliad, sydd wedi ymrwymo i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddadlau dros gymorth ychwanegol i blant anabl, yn cael ei groesawu gan y grŵp hwn. Bydd datblygiad fel hwn yn sicrhau y bydd gan blant anabl fynediad cyfartal at ofal plant a bydd yn helpu i sicrhau y bydd y dysgu datblygiadol cynnar, y dysgu anffurfiol sy'n seiliedig ar chwarae a'r addysg achrededig y mae eu cyfoedion yn eu derbyn hefyd ar gael i blant anabl. Rhaid inni bellach sicrhau, drwy'r gwasanaethau gwybodaeth i blant ledled Cymru, ein bod yn annog pawb sydd, yn draddodiadol, wedi eu hatal rhag manteisio ar wasanaethau o'r fath i blant anabl i ddechrau gwneud hynny. Rhaid inni fynd ati i'w hyrwyddo er mwyn gwneud yn siŵr bod hynny'n digwydd.

Mae'r ail bwynt pwysig yr hoffwn ei godi yn ymwneud â'r rôl gyffredinol y dylai'r gwasanaeth gwybodaeth i blant ei chwarae yng Nghymru. Fel y mae dogfen y strategaeth yn ei gwneud yn amlwg, os ydym am i ofal plant fod ar gael i bawb, rhaid i rieni ddeall sut y mae dod i wybod amdano. Mae hyn yn gofyn am wasanaethau gwybodaeth i blant ledled Cymru sy'n derbyn arian ac adnoddau digonol, ac a allai ddarparu amrywiaeth o swyddogaethau defnyddiol i rieni. Gallai'r rhain amrywio o sicrhau bod gofalwyr yn y cartref yn cael eu rheoleiddio'n briodol, darparu gwybodaeth gyfoes effeithiol i rieni, yn ogystal â gweithredu fel offeryn adnoddau

support in their area. A good example is the recommendation of the childcare working group that a high-profile campaign be undertaken to encourage take-up of the tax credits and benefits currently available. I hope that this will now be taken forward by our Government, and that we will extend childcare support to those groups that have not previously accessed it.

The strategy document makes a strong commitment to adequately funding these services, and I welcome this. Having these sources of support in each local authority would, and will, improve our childcare greatly.

Kirsty Williams: I commend Leanne Wood on her points about the lack of a childcare facility in this institution. Indeed, I will go further and argue that the way in which our allowances are structured says much about the type of politicians that people expected to be Assembly Members, in terms of the help that they were expected to need. For instance, it is perfectly acceptable to spend money on a flat in Cardiff, but it is not acknowledged that some Assembly Members may need additional support to help pay for out-of-hours care for children or older relatives for whom they may be responsible. I think that those who designed our allowances had a clear picture in their mind of the kind of person who would be elected—they got it wrong, thank goodness.

I recently had the pleasure of making a presentation to a number of young women who had achieved a variety of childcare qualifications at the Powys Training centre in Ystradgynlais. These bright and motivated individuals were enthusiastic about their chosen career, but were also painfully aware of their career prospects and prospective pay levels. Their tutor said to me, 'If there's one thing you can do back in that National Assembly, it's to campaign for a more realistic pay and career structure for those who go into caring professions'. Indeed, it is an indictment of our society that those whom we trust with some of our most vulnerable

defnyddiol i fusnesau gofal plant i ganfod y cymorth ariannol mwyaf priodol yn eu hardal. Enghraifft dda o hyn yw argymhelliad y gweithgor gofal plant y dylid cynnal ymgyrch amlwg iawn i annog pobl i fanteisio ar y credydau treth a'r budd-daliadau sydd ar gael ar hyn o bryd. Yr wyf yn gobeithio y bydd ein Llywodraeth yn rhoi hyn ar waith, ac y bydd yn ehangu cymorth gofal plant i gynnwys y grwpiau hynny nad ydynt wedi manteisio arno o'r blaen.

Mae dogfen y strategaeth yn cynnwys ymrwymiad cryf i sicrhau cyllid digonol i'r gwasanaethau hyn, ac yr wyf yn croesawu hynny. Byddai cael y ffynonellau hyn i roi cymorth ym mhob awdurdod lleol yn gwella ein darpariaeth gofal plant yn sylweddol, a bydd yn gwneud hynny.

Kirsty Williams: Yr wyf yn canmol Leanne Wood am ei sylwadau ynghylch diffyg cyfleusterau gofal plant yn y sefydliad hwn. Yn wir, af ymhellach na hynny a dadlau bod y modd y mae ein lwfansau wedi'u strwythuro'n dweud llawer am y math o wleidyddion y mae pobl yn disgwyl iddynt fod yn Aelodau o'r Cynulliad, o ran y cymorth yr oedd disgwyl iddynt fod ei angen. Er enghraifft, mae'n gwbl dderbyniol gwario arian ar fflat yng Nghaerdydd, ond ni dderbynnir y gall fod angen cymorth ychwanegol ar rai Aelodau o'r Cynulliad i'w helpu i dalu am ofal y tu allan i oriau swyddfa ar gyfer plant neu berthnasau hyn y gallant fod y gyfrifol amdanynt. Credaf fod gan y rhai a gynlluniodd ein lwfansau syniad pendant yn eu meddwl am y math o bobl a fyddai'n cael eu hethol—yr oeddent yn anghywir, diolch i'r drefn.

Cefais y pleser yn ddiweddar o wneud cyflwyniad i nifer o fenywod ifanc a oedd wedi ennill amrywiaeth o gymwysterau gofal plant yng nghanolfan Hyfforddi Powys yn Ystradgynlais. Yr oedd yr unigolion deallus a awyddus hyn yn llawn brwdfrydedd ynglŷn â'r yrfa yr oeddent wedi'i dewis, ond yr oeddent hefyd yn boenus o ymwybodol o'u rhagolygon gyrfaol a'r cyflogau yr oeddent yn debygol o'u hennill. Dywedodd eu tiwtor wrthyf, 'Os oes un peth y gallwch ei wneud yn y Cynulliad Cenedlaethol, gallwch ymgyrchu dros gyflogau a strwythur gyrfaol mwy realistig i'r rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn gofal'. Yn wir, mae'n feirniadaeth

citizens, be they young people or older people, are among the most poorly paid.

As we have already heard, in many European countries child carers are educated to graduate level. It is ironic that we insist that schoolteachers are graduates, but do not consider those who look after younger children to be in the same category. We must look at providing a career structure through which people can progress as they gain experience, and realistic pay levels to go with it. As Janet said, if we begin to look at paying these individuals properly, that has a knock-on effect on the cost of each childcare place. As Peter Black remarked, we already pay some of the highest childcare costs in Europe, at an average of £134 per child. That is for one child for one week. If you have an average-sized family of 2.4 children, those bills double. It is not long before it is simply uneconomic for a parent to go out to work, unless he or she can rely on that band of unpaid carers, grandparents. I suspect that many grandparents thought that their child-rearing days were over, only to find themselves now contributing greatly to caring for their grandchildren. Society does not do enough to recognise the role of grandparents and their continued contribution to family life.

A recent survey of people in Wales who are currently economically inactive showed that the largest group of people who want to return to work, either immediately or within the next five years, was predominantly young women, and the biggest barrier to their achieving that and becoming economically active once more was affordable childcare. It has to be of good quality, but quality costs, and if people cannot pay, they simply cannot return to work and realise their potential and achieve their desires for their own lives unless we can do something to support them. Probably the most important step that the Assembly Government can take is to look to ensure sufficient affordable childcare places

ar ein cymdeithas fod y rhai yr ydym yn ymddiried rhai o'n dinasyddion mwyaf bregus yn eu gofal, boed hwy'n bobl ifanc neu hŷn, ymhlith y gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf.

Fel yr ydym wedi clywed eisoes, mewn llawer o wledydd Ewropeaidd mae gofaluwr plant yn derbyn addysg hyd at lefel gradd. Mae'n eironig ein bod yn mynnu bod athrawon yn raddedigion, ond nad ydym yn ystyried bod y rhai sy'n edrych ar ôl plant iau yn perthyn i'r un categori. Rhaid inni feddwl am lunio strwythur gyrfaol sy'n galluogi pobl i gamu ymlaen wrth iddynt ennill profiad, a sicrhau lefelau cyflog realistig sy'n adlewyrchu hynny. Fel y dywedodd Janet, os byddwn yn dechrau ystyried talu cyflog teilwng i'r unigolion hyn, bydd hynny'n effeithio ar y gost o ofalu am bob plentyn. Fel y dywedodd Peter Black, yr ydym eisoes yn talu rhai o'r costau gofal plant uchaf yn Ewrop, cyfartaledd o £134 y plentyn. Mae hynny ar gyfer un plentyn am wythnos. Os oes gennych deulu o faint cyfartalog, sef 2.4 plentyn, mae'r biliau hynny'n dyblu. Cyn hir ni fydd yn gwneud synnwyr economaidd i riant fynd allan i weithio, ond bai ei fod ef neu hi'n gallu dibynnu ar y fintai honno o ofalwyr di-dâl, neiniau a theidiau. Yr wyf yn amau bod llawer o neiniau a theidiau'n credu bod eu cyfnod o fagu plant wedi hen ddod i ben, ond bellach maent yn gweld bod rhaid iddynt gyfrannu at ofalu am eu hwyrion a'u hwyresau. Nid yw cymdeithas yn gwneud digon i gydnabod rôl neiniau a theidiau a'r cyfraniad y maent yn para i'w wneud at fywyd y teulu.

Dangosodd arolwg diweddar o bobl yng Nghymru sy'n economaidd anweithgar ar hyn o bryd mai'r grŵp mwyaf o bobl sydd am ddychwelyd i weithio, un ai ar unwaith neu o fewn y pum mlynedd nesaf, oedd menywod ifanc yn bennaf, a'r rhwystr mwyaf rhag bod yn economaidd weithgar unwaith eto oedd gofal plant fforddiadwy. Rhaid iddo fod o ansawdd da, ond mae hynny'n costio, ac os na all pobl dalu, ni allant ddychwelyd i weithio a chyflawni eu potensial a gwireddu eu hawydd i fyw eu bywydau eu hunain oni bai ein bod yn gallu gwneud rhywbeth i'w cynorthwyo. Mae'n debyg mai'r cam pwysicaf y gall Llywodraeth y Cynulliad ei gymryd yw mynd ati i sicrhau digon o leoedd

to allow those people who want to get back into the workplace, education or training, but currently cannot because of a lack of affordable childcare, to do so. We must target our help at supporting those parents.

Gwenda Thomas: I welcome the commitment in the Welsh Assembly Government's response to include children with special needs, as Karen mentioned. I welcome the recognition of the Neath Port Talbot referral and assisted places scheme—'O Gam i Gam'—as an example of good practice.

To use the report's description,

'O Gam i Gam' aims to promote and encourage the development of the accessibility and affordability of a range of quality and integrated registered childcare and play provision, which enhances the care, learning and play opportunities of all children and young people within every community for those who need it and in the language of their choice'.

The referral element of the scheme enables children with specific needs to access, and participate fully in, a quality registered childcare or play facility. This is achieved by providing funding to the provider to employ an extra playworker to ensure that the child's needs are met in partnership with the parents' wishes.

The assisted places element enables children from families on a low income and/or in receipt of certain benefits to access quality registered childcare and play facilities. Parents are able to access funds to assist with the cost of the childcare fee, and travel costs to and from the facility, if appropriate.

To date, over 300 children in Neath Port Talbot have benefited from the scheme. The knock-on effect and benefits include parents feeling that they are being listened to, the provision of respite for families in need, and children with special needs being identified

gofal plant fforddiadwy i alluogi'r bobl hynny sydd am fynd yn ôl i'r gweithle, neu ailafael mewn addysg neu hyfforddiant, ond na allant wneud hynny ar hyn o bryd am nad oes gofal plant fforddiadwy, i wneud hynny. Rhaid inni anelu ein cymorth at y rhieni hynny.

Gwenda Thomas: Croesawaf yr ymrwymiad yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys plant sydd ag anghenion arbennig, fel y nododd Karen. Croesawaf y ffaith bod cynllun cymorth lleoedd ac atgyfeirio Castell-nedd Port Talbot—'O Gam i Gam'—wedi'i gydnabod yn enghraifft o arfer da.

Gan ddyfynnu'r disgrifiad sydd yn yr adroddiad,

mae 'O Gam i Gam' yn ceisio hybu a hyrwyddo camau i ddatblygu dewis hygrych a fforddiadwy o ddarpariaethau chwarae a gofal plant cofrestredig o ansawdd da sydd wedi'u hintegreiddio, a fydd yn cynnig gwell cyfleoedd o ran gofal, dysgu a chwarae ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ym mhob cymuned i'r rhai y mae arnynt eu hangen a hynny yn eu dewis iaith.

Mae'r elfen atgyfeirio yn y cynllun yn galluogi plant sydd ag anghenion penodol i gael mynediad i gyfleuster chwarae neu ofal plant cofrestredig o ansawdd da, a chael cyfranogi'n llawn ynddo. Sicrheir hynny drwy roi cyllid i'r darparwr fel y gall gyflogi gweithiwr chwarae ychwanegol i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n unol â dymuniadau'r rhieni.

Mae'r elfen cymorth lleoedd yn galluogi plant o deuluoedd sydd ar incwm isel a/neu sydd yn derbyn budd-daliadau penodol i gael cyfleusterau chwarae a gofal plant cofrestredig o ansawdd da. Mae rhieni'n gallu cael cyllid i'w helpu i dalu'r ffi am ofal plant, a chostau teithio i'r cyfleuster ac oddi yno, os yw hynny'n briodol.

Hyd yma, mae mwy na 300 o blant yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael budd o'r cynllun. Yr effaith ganlyniadol a rhai o'r buddion a geir o hynny yw bod rhieni'n teimlo eu bod yn cael gwrandawriad, fod seibiant ar gael i deuluoedd sydd mewn

earlier. Initial or earlier intervention and preventative measures are helping to reduce long-term intervention, and there are visible signs of increased communication and improved planning.

‘O Gam i Gam’ is funded through the Cymorth grant, which is provided by the Welsh Assembly Government.

Owen John Thomas: Faint o’r 300 o leoedd ar gyfer plant sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?

Gwenda Thomas: Ni allaf roi ateb yn y fan a’r lle, ond gallaf ganfod y wybodaeth ichi. Mae’r cynllun yn cael ei redeg o Bontardawe, felly yr wyf yn siŵr bod canran uchel yn cael y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceisiaf gael ateb manylach i’ch cwestiwn.

Leanne and Kirsty mentioned childcare within the extended family, and I emphasise my long-held views on this. In our most deprived communities, as has already been mentioned, this is so often the only childcare available, and it will probably remain so for a while. Young working grandparents who may themselves not be very well-off, but who might be more than happy to provide care within the family if there was financial assistance available—I would suggest on the broad principle of invalid care allowance—could provide the best, and probably the most suitable, care in many cases.

To conclude, I reiterate that I firmly believe that there should be no relaxation of regulatory requirements, even for short-term schemes.

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): I thank Members for their contributions.

Mudiad Ysgolion Meithrin does a tremendous job for the Assembly Government. It receives substantial funding through Alun Pugh’s portfolio and through mine. Only last year, in partnership with Trinity College, Carmarthen, in taking

angen, a bod plant sydd ag anghenion arbennig yn cael eu canfod yn gynharach. Mae ymyriadau dechreuol neu rai cynharach a mesurau ataliol yn helpu i ostwng ymyriadau hirdymor, a cheir arwyddion bod mwy o gyfathrebu a gwell cynllunio.

Caiff ‘O Gam i Gam’ ei ariannu drwy grant Cymorth, sydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Owen John Thomas: How many of the 300 places for children are available through the medium of Welsh?

Gwenda Thomas: I cannot give an answer off the top of my head, but I will find the information for you. The scheme is run from Pontardawe, so I am certain that a high percentage receive the service through the medium of Welsh. I will try to provide you with a more detailed answer.

Cyfeiriodd Leanne a Kirsty at ofal plant yn y teulu estynedig, ac yr wyf yn pwysleisio fy marn am hyn ers amser maith. Yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, fel y dywedwyd eisoes, hwn yw’r unig fath o ofal plant sydd ar gael yn aml iawn, ac mae’n debyg y bydd yn parhau felly am gyfnod. Mae’n bosibl mai neiniau a theidiau ifanc sydd mewn gwaith, a hwythau heb fod yn gefnog iawn, ond a allai fod yn fwy na bodlon darparu gofal o fewn y teulu pe bai cymorth ariannol ar gael—ar ffurf weddol debyg i’r lwfans gofal analluedd, byddwn yn awgrymu—a allai gynnig y gofal gorau, a’r gofal mwyaf addas yn ôl pob tebyg, mewn llawer o achosion.

I derfynu, yr wyf yn ailddatgan fy mod yn credu’n gryf na ddylid llacio gofynion rheoliadol, hyd yn oed yn achos cynlluniau tymor byr.

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Diolchaf i’r Aelodau am eu cyfraniadau.

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn gwneud gwaith aruthrol ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Mae’n cael cyllid sylweddol drwy bortffolio Alun Pugh a thrwy fy mhortffolio innau. Mor ddiweddar â’r llynedd, ar y cyd â Choleg y Drindod, wrth hyrwyddo cynlluniau

forward the 'Cam wrth Gam' proposals, it trained 300 early-years practitioners through the medium of Welsh, for a sum of £4.5 million.

Janet Davies: To explain, I said that the organisation had not received much funding in the past. I did not mean to say that it does not receive funding now.

Jane Davidson: I am grateful for that, because the Assembly has a very good relationship with a very good organisation in Mudiad Ysgolion Meithrin.

5.20 p.m.

Peter, I am very grateful that you also mentioned parenting skills. The two other parts of this agenda, which have not been published yet, but which will be published shortly, are the parenting action plan and the final play action document. We will then have put all the pieces of the jigsaw together.

The Bevan Foundation report was tremendously important. Several people have commented on the patchiness of current provision and that is why we want there to be a duty on local authorities across Wales to have sufficient childcare in their own areas.

Leanne Wood: Will local authorities be provided with extra money to roll out this plan?

Jane Davidson: If you had listened to my introduction, you would have heard that we are fully committed to ensuring that local authorities have the funding that they need to undertake this duty. I said that at the beginning of this debate.

Mark, I ask you to consider withdrawing your amendment. I would certainly need more than you put into the debate today in terms of looking at issues around national guidelines, because a range of different services are carried out in a range of different buildings across Wales. Where local authorities are responsible for buildings, they will also have their own ambitions and funding priorities. In securing the childcare obligations, following

'Cam wrth Gam', hyfforddodd 300 o ymarferwyr y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, am swm o £4.5 miliwn.

Janet Davies: Os caf esbonio, dywedais nad oedd y corff hwnnw wedi cael llawer o gyllid yn y gorffennol. Nid oeddwn yn bwriadu dweud nad yw'n cael cyllid yn awr.

Jane Davidson: Yr wyf yn ddiolchgar am y geiriau hynny, gan fod perthynas dda iawn rhwng y Cynulliad a Mudiad Ysgolion Meithrin, sydd yn gorff rhagorol.

Peter, yr wyf yn dra diolchgar eich bod chithau wedi sôn am sgiliau rhianta. Y ddwy ran arall o'r agenda hon, sydd heb eu cyhoeddi eto, ond a gyhoeddir cyn hir, yw'r cynllun gweithredu rhianta a'r ddogfen weithredu derfynol ar chwarae. Wedyn byddwn wedi dod â holl ddarnau'r jig-so at ei gilydd.

Yr oedd adroddiad Sefydliad Bevan yn bwysig dros ben. Mae amryw o bobl wedi sôn am natur anwastad y ddarpariaeth bresennol a dyna pam yr ydym am ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol ledled Cymru sicrhau bod gofal plant digonol yn eu hardaloedd.

Leanne Wood: A fydd awdurdodau lleol yn cael arian ychwanegol i roi'r cynllun hwn ar waith?

Jane Davidson: Pe byddech wedi gwrandao ar fy rhagymadrodd, byddech wedi clywed ein bod wedi llwyr ymrwymo i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn cael yr arian y bydd arnynt ei angen i gyflawni'r ddyletswydd hon. Dywedais hynny ar ddechrau'r ddadl hon.

Mark, gofynnaf ichi ystyried tynnu'n ôl eich gwelliant. Yn sicr, byddai arnaf angen mwy nag a gyfranasoch i'r ddadl heddiw o ran ystyried materion sydd yn ymwneud â chanllawiau cenedlaethol, oherwydd darperir amryw o wasanaethau gwahanol mewn amryw o adeiladau gwahanol ledled Cymru. Mewn achosion lle y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am adeiladau, bydd ganddynt eu dyheadau a'u blaenoriaethau ariannu eu

the passage of the Childcare Bill, we are looking to issue national guidance across Wales. Therefore, I ask you to withdraw your amendment in terms of laying out the case in full. I am happy for my colleague, Edwina Hart, to look at whether or not conflicting guidelines are in place between major public services, such as the police and local government. However, as I said in my introduction, our officials have not seen that and nothing that I have heard this afternoon would suggest anything different.

Irene, your comments on the childcare strategy's being the key to many strategies is absolutely right. If we do not get the childcare back-up right, many of our other strategies that are about encouraging people into employment, to develop their skills, to contribute to the Welsh economy and to go into the care sector, will not be able to operate. Therefore, I, like you, see the childcare strategy as key. That is why we have spent so much time working on these issues in the Assembly, since the work undertaken through Jane Hutt in 2002 and that undertaken by Brian Gibbons. Other people have commended the childcare working group for its work, and I also happily commend it as it has brought us to the point where we are taking this strategy forward.

A key point that must be made is that the title of this strategy is, 'Childcare is for Children'. For us, that is the primary, paramount issue of this strategy. Of course it is also for parents and employers, but this is not a babysitting strategy, and it is not about saying, 'Let us just make sure that there is a safe environment for children', which is what some Members seem to be suggesting. This strategy is about ensuring that children are given support from qualified individuals and that they are supported in terms of their development. We are not in any way interfering with any informal arrangements that individual families make, but we think that if we are going to support delivery with Government funding, that delivery should be in a context where the worker has the appropriate qualifications.

hunain hefyd. Wrth sicrhau'r rhwymedigaethau o ran gofal plant, wedi i'r Mesur Gofal Plant fynd drwy'r Senedd, yr ydym yn ystyried cyhoeddi canllawiau cenedlaethol ar gyfer Cymru. Felly, gofynnaf ichi dynnu'n ôl eich gwelliant o ran cyflwyno'r achos yn llawn. Yr wyf yn fodlon i'm cyd-Weinidog, Edwina Hart, ystyried a oes canllawiau ar waith sydd yn groes i'w gilydd mewn gwasanaethau cyhoeddus mawr, fel yr heddlu a llywodraeth leol. Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy rhagymadrodd, nid yw ein swyddogion wedi gweld hynny ac nid oes dim a glywais y prynhawn yma sydd yn awgrymu'n wahanol.

Irene, yr oedd eich sylwadau i'r perwyl bod y strategaeth gofal plant yn allweddol i lawer o strategaethau'n gwbl gywir. Os na fydd y cymorth a roddwn ar gyfer gofal plant yn briodol, ni fydd modd i lawer o'n strategaethau eraill weithredu, strategaethau sy'n ymwneud â chymhell pobl i weithio, i ddatblygu eu sgiliau, i gyfrannu i economi Cymru ac i fynd i'r sector gofal. Felly, yr wyf fi, fel chithau, yn ystyried bod y strategaeth gofal plant yn un allweddol. Dyna pam yr ydym wedi treulio cymaint o amser yn gweithio ar y materion hyn yn y Cynulliad, ers y gwaith a wnaed o dan ofal Jane Hutt yn 2002 a hynny a wnaed gan Brian Gibbons. Mae eraill wedi canmol y gweithgor gofal plant am ei waith, ac yr wyf finnau'n falch o'i ganmol gan ei fod wedi ein galluogi i frw ymlaen â'r strategaeth hon yn awr.

Un pwynt allweddol y mae'n rhaid ei wneud yw mai enw'r strategaeth hon yw, 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant'. Yn ein barn ni, dyna'r mater pwysicaf sydd ynglŷn â'r strategaeth hon. Mae ar gyfer rhieni a chyflogwyr hefyd, wrth gwrs, ond nid strategaeth ar gyfer gwarchod plant yw hon, ac nid ei diben yw dweud, 'Gadewch inni sicrhau bod amgylchedd diogel ar gyfer plant a dyna'r cwbl', sef yr hyn y mae'n ymddangos bod rhai Aelodau'n ei awgrymu. Pwrpas y strategaeth hon yw sicrhau bod plant yn cael cymorth gan unigolion cymwys a'u bod yn cael cymorth i ddatblygu. Nid ydym yn ymyrryd o gwbl â threfniadau anffurfiol y mae rhai teuluoedd yn eu gwneud ond credwn, os ydym yn mynd i gynnal darpariaeth gyda chyllid y Llywodraeth, y dylai'r ddarpariaeth honno gael ei chynnig

gan weithwyr sydd â'r cymwysterau priodol.

Owen John Thomas: Pa gamau sydd gennych mewn golwg i sicrhau bod rhieni sy'n dewis gofal drwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant yn cael y ddarpariaeth honno? Mae'r system sydd gennym ar hyn o bryd wedi tyfu o rywbeth a oedd yn gyfan gwbl yn Saesneg ar y cychwyn. Yr oedd yn rhaid i bobl ymladd i gael y ddarpariaeth hon ac mae wedi tyfu yn araf. Sut y byddwch yn sicrhau y byddant yn dechrau ar sail gyfartal?

Owen John Thomas: What steps are you intending to take to ensure that those parents who choose Welsh-medium care for their children receive that provision? The system that we currently have has grown from something that was completely in English at the beginning. People had to fight to get this provision and it grew slowly. How will you ensure that they start off on a level playing field?

Jane Davidson: Fel y dywedais, rhoddwyd £4.5 miliwn i hyfforddi pobl ar gyfer darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy gynllun Coleg y Drindod a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae adran 9 y cynllun yn dweud yn glir y bydd yn rhaid i ni fonitro y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ledled Cymru, gan ei bod yn bwysig bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth yn eu dewis iaith. Dyna pam mae'n bwysig cyflwyno'r strategaeth yn awr. Mae tair blynedd cyn bod dyletswydd arnom i wneud hynny. Yn y tair blynedd hynny, gallwn sicrhau bod digon o ddarpariaeth ar gael. Bydd gan wasanaethau hysbysrwydd plant waith newydd i'w wneud, i sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr ardal.

Jane Davidson: As I said, £4.5 million was given to train more people to provide Welsh-medium care through a Trinity College and Mudiad Ysgolion Meithrin scheme. In section 9 of the plan, it states clearly that we will have to monitor the Welsh-medium places that are available across Wales, because it is important that families receive the support in the language of their choice. That is why it is important to introduce the strategy now. There are three years before it becomes a statutory requirement. In those three years, we can ensure that adequate provision is in place. Children's information services will have a new role to undertake, to ensure that parents are aware of the opportunities that are available in their areas.

I have a couple of points to make in response to people who have said that the Assembly should have its own childcare provision. It would not be appropriate to fund services for Assembly Members from the education budget. That is properly a matter for the House Committee, as the committee that looks after funding in this institution. The Assembly Government, as an employer, already provides childcare vouchers to its staff, over and above salary—not taken out of salary. We have bought in to places in a local nursery, and we buy in to places in local play schemes. Therefore, we are already making that commitment. That is a message to other employers about ensuring that people will want to work and stay with employers who are committed to the childcare agenda.

Mae gennyf ychydig o bwyntiau i'w gwneud mewn ymateb i rai a ddywedodd y dylai fod gan y Cynulliad ei ddarpariaeth gofal plant ei hun. Ni fyddai'n briodol ariannu gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o'r gyllideb addysg. Mewn gwirionedd, mater i Bwyllgor y Tŷ, y pwyllgor sydd yn gofalu am gyllid yn y sefydliad hwn, yw hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad, fel cyflogwr, eisoes yn darparu talebau gofal plant ar gyfer ei staff, ar ben eu cyflog—ni chânt eu tynnu o'r cyflog. Yr ydym wedi talu am leoedd mewn meithrinfa leol, ac yr ydym yn talu am leoedd mewn cynlluniau chwarae lleol. Felly, yr ydym eisoes yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Mae honno'n neges ar gyfer cyflogwyr eraill ynghylch sicrhau y bydd pobl yn dymuno gweithio ac aros gyda chyflogwyr sydd wedi ymrwymo i'r agenda ar ofal plant.

It is also important to say that we have a project in Torfaen, which is going to report about this time next year, that is focusing on

Mae hefyd yn bwysig dweud bod gennym brosiect yn Nhor-faen, a fydd yn cyflwyno adroddiad tua'r adeg hon y flwyddyn nesaf,

lone parents and parents on a very low income, and their childcare needs with regard to returning to the economy. We must get that right. It will help to take forward what we will be doing over the next few years as we develop the agenda by 2008.

Gwenda highlighted the very good project in Neath Port Talbot, and the demonstration, specifically in the childcare strategy, about special educational needs. Karen highlighted disability issues. We must ensure that people understand where they can get additional support, and not just under the tax credit system. There is a range of targeted grants: the childcare grant, parents learning allowance, financial contingency funds in colleges and universities, the child tax credit, additional support for NHS students on nursing bursaries, support for young student parents and the working tax credit. There are already several mechanisms for providing support. It might be helpful for me to provide a note of those for the Education and Lifelong Learning Committee, because that will then become widely available to Assembly Members and will enable them to advise their constituents about access to these arrangements.

sydd yn canolbwyntio ar rieni unigol a rhieni sydd ar incwm isel iawn, a'u hanghenion o ran gofal plant mewn cysylltiad ag ailddechrau gweithio. Rhaid inni lwyddo yn hynny o beth. Bydd o gymorth i hyrwyddo ein gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth inni ddatblygu'r agenda erbyn 2008.

Tynnodd Gwenda sylw at brosiect rhagorol yng Nghastell-nedd Port Talbot, a'r hyn a nodir, yn y strategaeth gofal plant yn benodol, am anghenion addysgol arbennig. Tynnodd Karen sylw at faterion sydd yn ymwneud ag anabledd. Rhaid inni sicrhau bod pobl yn deall ym mhle y gallant gael cymorth ychwanegol, ac nid o dan y system credydau treth yn unig. Ceir amryw o grantiau sydd wedi'u targedu: y grant gofal plant, lwfans dysgu'r rhieni, cronfeydd ariannol wrth gefn mewn colegau a phrifysgolion, y credyd treth plant, cymorth ychwanegol i fyfyrwyr y GIG sydd yn cael bwrsariaethau nyrsio, cymorth i rieni ifanc sydd yn fyfyrwyr a'r credyd treth gweithio. Mae sawl mecanwaith ar gael eisoes i roi cymorth. Efallai y bydd yn fuddiol imi roi nodyn amdanynt i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, gan y bydd ar gael yn gyffredinol wedyn i Aelodau'r Cynulliad ac yn eu galluogi i gynghori eu hetholwyr ynghylch y modd i sicrhau'r trefniadau hyn.

*Gwelliant 1: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 1.
Amendment 1: For 48, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol yn erbyn:
The following Member voted against:

Lewis, Huw

Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment carried.

Gwelliant 2: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amendment 2: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin

Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

*Gwelliant 3: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 1.
 Amendment 3: For 49, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Janet
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol yn erbyn:
 The following Member voted against:

Gibbons, Brian

Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment carried.

5.30 p.m.

Gwelliant 4: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amendment 4: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne

Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 5: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 5: For 50, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine

Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 6: O blaid 10, Ymatal 10, Yn erbyn 29.
Amendment 6: For 10, Abstain 10, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Cairns, Alun
Francis, Lisa
German, Michael
Isherwood, Mark
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Janet
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

Motion NDM2703 as amended:

Cynnig NDM2703 fel y'i diwygiwyd:

*the National Assembly for Wales:**Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

- | | |
|---|---|
| <p>1. notes the childcare strategy 'Childcare is for Children'; the Welsh Assembly Government's response to the childcare working group;</p> <p>2. endorses the aim of the strategy in expanding quality affordable childcare provision in Wales;</p> <p>3. calls on the Assembly Government to ensure that any new responsibilities for local government under the childcare strategy will be fully funded;</p> <p>4. believes that the specific needs of special educational needs children should be fully reflected and supported in the strategy;</p> <p>5. recognises that the lack of affordable childcare represents a significant barrier to economic activity for many women;</p> <p>6. recognises that high-quality service in childcare rests upon an experienced and incentivised workforce.</p> | <p>1. yn nodi'r strategaeth gofal plant 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant'; ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r Gweithgor gofal plant;</p> <p>2. yn cymeradwyo nod y strategaeth o ehangu darpariaeth gofal plant fforddiadwy o safon yng Nghymru;</p> <p>3. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau y bydd unrhyw gyfrifoldebau newydd ar gyfer llywodraeth leol dan y strategaeth gofal plant yn cael eu hariannu'n llawn;</p> <p>4. yn credu y dylai anghenion penodol plant ag anghenion addysgol arbennig gael eu hadlewyrchu a'u cefnogi'n llawn yn y strategaeth;</p> <p>5. yn cydnabod bod y diffyg gofal plant fforddiadwy yn rhwystr sylweddol sy'n atal llawer o fenywod rhag bod yn economaidd weithgar;</p> <p>6. yn cydnabod bod gwasanaeth o safon uchel ym maes gofal plant yn dibynnu ar gael gweithlu profiadol llawn cymhelliant.</p> |
|---|---|

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amended motion: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark

James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
Amended motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â
today's proceedings to a close. chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.32 p.m.
The meeting ended at 5.32 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Essex, Sue (Llafur – Labour)
Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Gwyther, Christine (Llafur – Labour)

Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Law, Peter (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Pugh, Alun (Llafur – Labour)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)